



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 3 Mehefin 2008
Tuesday, 3 June 2008**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 35 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement
- 43 Pwynt o Drefn
Point of Order
- 45 Datganiad am Adolygiad Alan Axford o Wasanaethau yng Ngheredigion
Statement on Alan Axford's Review of Services in Ceredigion
- 63 Datganiad am y Mesur Newid yn yr Hinsawdd
Statement on the Climate Change Bill
- 77 Datganiad am Wasanaethau Iechyd Meddwl
Statement on Mental Health Services

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.

Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Galwaf y Cynulliad i drefn.

The Presiding Officer: I call the Assembly to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 1, OAQ(3)1068(FM), i'w ateb yn ysgrifenedig.

The Presiding Officer: Question 1, OAQ(3)1068(FM), has been transferred for written answer.

Deep Brain Stimulation

Ysgogi yn Nwfn yr Ymennydd

Q2 Trish Law: Will the First Minister make a statement on the funding programme for deep brain stimulation? OAQ(3)1066(FM)

C2 Trish Law: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rhaglen cyllido ar gyfer ysgogi yn nwfn yr ymennydd? OAQ(3)1066(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Edwina Hart, the Minister for Health and Social Services, wrote to all Assembly Members earlier today, explaining that she is providing £400,000 to Health Commission Wales to fund the provision of deep brain stimulation for those Welsh residents who require it, with immediate effect.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Ysgrifennodd Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, at holl Aelodau'r Cynulliad yn gynharach heddiw, i esbonio ei bod yn darparu £400,000 i Gomisiwn Iechyd Cymru i ariannu darpariaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd ar gyfer trigolion Cymru y mae ei hangen arnynt, i ddechrau ar unwaith.

Trish Law: I am grateful to the First Minister for his positive response and was delighted to receive Edwina Hart's correspondence yesterday announcing that she is to provide £400,000, with immediate effect, to fund the provision of deep brain stimulation services for Welsh residents. I know that this announcement will also be welcomed by Parkinson's disease patients and by consultant neurologists, such as Dr Ken Dawson of Nevill Hall Hospital, Abergavenny, who has long been battling to get funding for DBS treatment for certain Parkinson's disease patients. However, I understand that DBS treatment is costly and I have serious reservations as to whether £400,000 will be enough. Will the First Minister give an assurance that the cost of DBS treatment will be kept under constant review to ensure that those patients who require treatment in the view of consultants get it?

Trish Law: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ymateb cadarnhaol ac yr oeddwn wrth fy modd o gael gohebiaeth Edwina Hart ddoe yn cyhoeddi ei bod am ddarparu £400,000 ar unwaith i ariannu darparu gwasanaethau ysgogi yn nwfn yr ymennydd ar gyfer trigolion Cymru. Gwn y croesewir y cyhoeddiad hwn hefyd gan gleifion clefyd Parkinson a chan niwrolegwyr ymgynghorol, megis Dr Ken Dawson o Ysbyty Nevill Hall, y Fenni, sydd wedi bod yn brwydro ers tro byd i gael cyllid ar gyfer triniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd ar gyfer rhai cleifion sydd â chlefyd Parkinson. Fodd bynnag, yr wyf yn cael ar ddeall bod triniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd yn gostus ac yr wyf yn amau'n fawr a fydd £400,000 yn ddigon. A wnaiff y Prif Weinidog sicrhau y caiff cost triniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd ei hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod y cleifion hynny y mae angen triniaeth arnynt, ym marn ymgynghorwyr, yn ei chael?

The First Minister: There are two or three issues to raise in relation to deep brain stimulation treatment. The first is that it is in one of those strange, limbo categories in that does not yet receive full National Institute for Health and Clinical Excellence approval. However, on the other hand, it has received other forms of approval that indicate, on the basis of the most recent evidence, that it can be effective and represents good value for money. Secondly, we do not have facilities to provide this treatment—at least not at this stage—so treatment will, initially, be provided at North Bristol NHS Trust and at the Walton Centre. Obviously, once the James Steers review on the future of adult neurosciences has reported, consideration will be given to where the treatment will be provided and whether it should continue to be provided in England, or whether it could possibly be provided in Wales. The third issue is that of cost. The first block of money will, to some degree, be a trial, and we will have to see how many people need it and how many people benefit from it. We will then have to see what the evidence shows about the effectiveness of the treatment and keep the sums of money involved under review.

Janet Ryder: I also welcome this money. Several people who have applied for this treatment in the past have been refused, and have gone through round after round of appeals with Health Commission Wales. Can we have an assurance that they will have their cases reviewed straight away, so that they do not have to wait any longer for this treatment?

The First Minister: Yes; I think that that is strongly implicit in the approval, or instruction—if you want to put it like that—to Health Commission Wales to get on with the job. Clearly, it will not be looking for new cases and ignoring the cases pending in the system of people who have unable to get approval for the treatment until it became clear, based on recent evidence, that it is a good and effective therapeutic treatment, providing value for money for a certain category of Parkinson's disease sufferers. As I say, it has not been the subject of NICE approval as yet, but it has received other

Y Prif Weinidog: Mae dau neu dri mater i'w codi o ran triniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd. Y cyntaf yw ei fod yn perthyn i un o'r categorïau rhyfedd, niwlog hynny, gan nad yw'n cael cymeradwyaeth lawn gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol eto. Fodd bynnag, ar y llaw arall, mae wedi cael cymeradwyaeth o fath arall sy'n dynodi, ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf, y gall fod yn effeithiol a'i bod yn rhoi gwerth da am arian. Yn ail, nid yw'r cyfleusterau gennym i ddarparu'r driniaeth hon—nid ar hyn o bryd, beth bynnag—felly darperir y driniaeth i ddechrau yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Bryste ac yng Nghanolfan Walton. Yn amlwg, cyn gynted ag y bydd adolygiad James Steers ar ddyfodol niwrowyddorau oedolion wedi cyflwyno adroddiad, ystyrir ym mhle y bydd y driniaeth yn cael ei darparu ac a ddylid parhau i'w darparu yn Lloegr, ynteu a ellid o bosibl ei darparu yng Nghymru. Y trydydd mater yw'r gost. I raddau, treial fydd y swm cyntaf o arian, a bydd angen inni weld faint o bobl y mae ei hangen arnynt a faint o bobl fydd yn elwa ohoni. Yna, bydd yn rhaid inni weld beth y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos o ran effeithiolrwydd y driniaeth, a pharhau i adolygu'r symiau sydd dan sylw.

Janet Ryder: Yr wyf finnau'n croesawu'r arian hwn. Mae amryw o bobl sydd wedi ymgeisio am y driniaeth hon yn y gorffennol wedi cael eu gwrthod, ac wedi apelio dro ar ôl tro at Gomisiwn Iechyd Cymru. A gawn sicrwydd y caiff eu hachosion eu hadolygu ar unwaith, fel na fydd yn rhaid iddynt aros dim mwy i gael y driniaeth hon?

Y Prif Weinidog: Cewch; yr wyf yn credu bod hynny wedi'i awgrymu'n gryf yn y gymeradwyaeth, neu'r cyfarwyddyd—os hoffwch ei alw'n hynny—i Gomisiwn Iechyd Cymru fwrw ymlaen â'r gwaith. Yn amlwg, ni fydd yn chwilio am achosion newydd ac yn anwybyddu'r achosion sydd ar y gweill yn y system o bobl sydd wedi methu cael cymeradwyaeth ar gyfer y driniaeth nes daeth yn amlwg, yn seiliedig ar dystiolaeth yn ddiweddar, ei bod yn driniaeth therapiwtig dda ac effeithiol, sy'n rhoi gwerth am arian i gategori penodol o ddiodefwrwr clefyd Parkinson. Fel y dywedaf, nid yw wedi cael

forms of approval, which enable it to be prescribed or commissioned. Let us see what happens with this initial tranche of money, and let us see what happens as HCW clears the backlog of cases to which you were right to refer. We can then review the situation again in the context of the Steers review.

William Graham: We welcome this useful money, but you will know that it is not a huge amount, given the immense cost of this type of operation, which requires a long and protracted investigation, then the operation, before a long period of intensive care recovery. It will certainly be welcomed by a constituent of mine, Simon Henson, who has made impassioned pleas to previous Ministers for health. In instructing Health Commission Wales to look more closely at cases such as his, will you ensure that not only are previous cases looked at, but that hope is given to those who will need this treatment in the future? This money will go very quickly. Professor Aziz of John Radcliffe Hospital, Oxford, a leading consultant in this field, with the Dystonia Society, has said that more and more complaints of this type will be diagnosed.

The First Minister: I would not disagree with any of that. However, the John Radcliffe Hospital is not among those that will be used for commissioning, because Bristol and Liverpool are much closer for the overwhelming majority of Welsh residents who have dystonia and other variations on Parkinson's disease, whom we hope will benefit therapeutically from having access to DBS. I agree with you that the sum of money might be expended quickly—we do not know. We have the Steers review into adult neurosciences going on at the same time. By the time that we have found out how far will the £400,000 go, how many cases will it cover and what the therapeutic benefits are, the Steers review will be about to finish, and we can review the whole matter again.

cymeradwyaeth NICE eto, ond mae wedi cael mathau eraill o gymeradwyaeth, sy'n galluogi iddi gael ei rhoi ar bresgripsiwn neu ei chomisiynu. Gadewch inni weld beth fydd yn digwydd gyda'r gyfran gyntaf hon o arian, a gadewch inni weld beth fydd yn digwydd wrth i CIC glirio'r dagfa o achosion yr oeddech yn iawn wrth gyfeirio atynt. Yna, gallwn adolygu'r sefyllfa unwaith eto yng nghyd-destun adolygiad Steers.

William Graham: Yr ydym yn croesawu'r arian defnyddiol hwn, ond byddwch yn gwybod nad yw'n swm enfawr, o ystyried cost aruthrol y math hwn o lawdriniaeth, lle y mae angen ymchwiliad hirfaith, yna'r llawdriniaeth, cyn cael cyfnod hir o wella mewn uned gofal dwys. Yn sicr, bydd un o'm hetholwyr, Simon Henson, yn ei groesawu, gan ei fod wedi apelio'n daer ar Weinidogion blaenorol dros iechyd. Wrth gyfarwyddo Comisiwn Iechyd Cymru i edrych yn fanylach ar achosion megis ei un ef, a wnewch sicrhau eu bod, yn ogystal ag edrych ar achosion blaenorol, yn rhoi gobaith i bobl y bydd angen y driniaeth hon arnynt yn y dyfodol? Bydd yr arian hwn yn mynd yn gyflym iawn. Mae'r Athro Aziz o Ysbyty John Radcliffe, Rhydychen, sy'n un o brif ymgynghorwyr y maes hwn, gyda'r Gymdeithas Dystonia, wedi dweud y bydd mwy a mwy o bobl yn cael diagnosis bod y math hwn o anhwylder arnynt.

Y Prif Weinidog: Ni fyddwn yn anghytuno â dim o hynny. Fodd bynnag, nid yw Ysbyty John Radcliffe yn un o'r rhai a ddefnyddir ar gyfer comisiynu, gan fod Bryste a Lerpwl yn nes o lawer i'r mwyafrif llethol o drigolion Cymru â dystonia ac amrywiadau eraill ar glefyd Parkinson, sef y rhai yr ydym yn gobeithio y byddant yn elwa'n therapiwtig pan fydd ysgogi yn nwf n yr ymennydd ar gael iddynt. Yr wyf yn cytuno â chi y gellid gwario'r swm hwn yn gyflym—nid ydym yn gwybod. Mae adolygiad Steers ar niwrowyddorau oedolion yn cael ei gynnal ar yr un pryd gennym. Erbyn inni ganfod pa mor bell y bydd y £400,000 yn mynd, faint o achosion y gall dalu amdanynt a beth yw'r manteision therapiwtig, bydd adolygiad Steers bron â dod i ben, a gallwn adolygu'r holl fater unwaith eto.

School Performance

Q3 Darren Millar: Will the First Minister make a statement on school performance in Wales? OAQ(3)1065(FM)

The First Minister: There have been significant improvements in school performance in Wales at all ages since 1999. There is evidence, since 2006-07, that some of this progress may have reached a plateau. Therefore, we must press forward with further improvements in key areas such as the performance gap between boys and girls and the standards of basic literacy and numeracy.

Darren Millar: One worrying school performance statistic relates to the growing number of pupils being suspended from Welsh schools. Given that recent figures show that the number of pupils being suspended from schools increased by 68 per cent between 2002 and 2006, what action is the Welsh Assembly Government taking to tackle bad behaviour in our schools and to ensure that teachers have the necessary tools to deal with bad behaviour and get the protection that they deserve?

The First Minister: I will discuss that with Jane Hutt to see whether there should be a reply from her or from me on this matter. If you have an increase in suspensions, it could be an indication of an increase *pari passu* in bad behaviour or it could be that schools are taking a much tougher line, possibly with encouragement from us not to stand any nonsense and to suspend more readily than before. I do not know at this stage and I would be wrong to hint that I knew. Therefore, I will discuss it with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills and you will receive a detailed reply, either from her or from me.

Irene James: I recently met with a number of headteachers from my constituency regarding the introduction of the foundation phase. All of them were extremely enthusiastic about the changes being made, but had some concerns over funding. What can you say to assure them that they will not have to take funding from other parts of their

Perfformiad Ysgolion

C3 Darren Millar: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am berfformiad ysgolion yng Nghymru? OAQ(3)1065(FM)

Y Prif Weinidog: Bu gwelliannau sylweddol ym mherfformiad ysgolion yng Nghymru o ran pob oedran ers 1999. Ceir tystiolaeth, ers 2006-07, y gall fod rhywfaint o'r cynnydd hwn wedi cyrraedd penllanw. Felly, rhaid inni fwrw ymlaen â gwelliannau pellach mewn meysydd allweddol megis y bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched a safonau llythrennedd a rhifedd sylfaenol.

Darren Millar: Mae un ystadegyn am berfformiad ysgolion sy'n peri pryder yn ymwneud â'r nifer cynyddol o ddisgyblion sy'n cael eu gwahardd o ysgolion yng Nghymru. O ystyried bod ffigurau yn ddiweddar yn dangos bod nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd o ysgolion wedi cynyddu 68 y cant rhwng 2002 a 2006, pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad drwg yn ein hysgolion ac i sicrhau bod gan athrawon yr hyn y mae ei angen arnynt i ymdrin ag ymddygiad drwg ac i gael y diogelwch y maent yn ei haeddu?

Y Prif Weinidog: Trafodaf hynny gyda Jane Hutt i weld a ddylid cael ymateb ganddi hi neu gennyf fi am y mater hwn. Os oes cynnydd mewn gwaharddiadau, efallai fod hynny'n dynodi cynnydd cyfatebol mewn ymddygiad drwg, neu efallai fod ysgolion yn mabwysiadu agwedd lawer mwy llym, o bosibl gydag anogaeth gennym ni i beidio â goddef dim lol ac i fod yn fwy parod i wahardd nag o'r blaen. Nid wyf yn gwybod ar hyn o bryd, a byddwn yn anghywir wrth awgrymu fy mod yn gwybod. Felly, trafodaf hyn gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a chewch ateb manwl, naill ai ganddi hi neu gennyf fi.

Irene James: Yn ddiweddar, cyfarfûm â nifer o benaethiaid o'm hetholaeth ynghylch cyflwyno'r cyfnod sylfaen. Yr oeddent i gyd yn frwdfrydig dros ben am y newidiadau sy'n cael eu gwneud, ond yr oedd ganddynt rai pryderon ynghylch cyllid. Beth y gallwch ei ddweud i'w sicrhau na fydd yn rhaid iddynt fynd â chyllid o rannau eraill o'u hysgolion er

schools in order to fund the extra staff needed?

The First Minister: You will be aware of the ongoing discussions between us and local government and between local government and headteachers. With three months to go before the beginning of the new term, when the foundation phase roll-out will commence, headteachers will be concerned if they have not yet heard from the local education authorities what their allocations are going to be. We have seen advertisements in the newspapers by Cardiff County Council recently for learning support assistants; other local authorities will be at different stages of proceeding with the roll-out.

On funding, it depends on whether a school is a pilot phase school or not. Those schools will have been concerned to protect the pilot phase funding, which is at a higher level than we could provide for a full roll-out. Frequently, the 1:8 adult-to-child ratio, given the golden child factor, became a ratio of 1:4.5. That is clearly not sustainable across Wales, and schools do not expect it to be. However, we are protecting the level of funding for pilot phase schools as they converge with the general roll-out. I bumped into a primary school headteacher from your constituency, Irene, and he expressed the same concerns to me.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): Your Government's handling of the whole issue of the foundation phase and its roll-out has been nothing short of a disaster. Headteachers in Wales were promised the funding for the roll-out. They trained people, and they have employed people whom they will now have to make redundant. You can either tell us that there will be more money on the table than has been announced, or you can tell us whether the programme is going to be thinned down, whether it will be ironed out and make less progress than you thought, or whether you are going to halt it in parts. Which of those is it going to be?

2.10 p.m.

The First Minister: That is playing the

mwyn ariannu'r staff ychwanegol y mae eu hangen arnynt?

Y Prif Weinidog: Byddwch yn ymwybodol o'r trafodaethau sy'n parhau rhyngom ni a llywodraeth leol a rhwng llywodraeth leol a phenaethiaid. Gyda thri mis i fynd tan ddechrau'r tymor newydd, pan ddechreuir cyflwyno'r cyfnod sylfaen, bydd penaethiaid yn bryderus os nad ydynt wedi clywed eto gan yr awdurdodau addysg lleol beth fydd eu dyraniadau. Yr ydym wedi gweld hysbysebion yn y papurau newydd gan Gyngor Sir Caerdydd yn ddiweddar am gynorthwyr cymorth dysgu; bydd awdurdodau lleol eraill ar wahanol gamau o ran cyflwyno'r cyfnod sylfaen.

O ran cyllid, mae'n dibynnu a yw ysgol yn ysgol cyfnod peilot ai peidio. Bydd yr ysgolion hynny wedi bod yn bryderus ynghylch amddiffyn cyllid y cyfnod peilot, sydd ar lefel uwch nag y gallem ei darparu ar gyfer cyflwyno'n llawn. Yn aml, troes y gymhareb o 1:8 o oedolion i blant, o ystyried ffactor y plentyn euraid, yn gymhareb o 1:4.5. Yn amlwg, nid yw hynny'n gynaliadwy ledled Cymru, ac nid yw ysgolion yn disgwyl iddo fod. Fodd bynnag, yr ydym yn gwarchod lefel y cyllid ar gyfer ysgolion y cyfnod peilot wrth iddynt ddod yn un â'r cyflwyno'n gyffredinol. Siaredais â phennaeth ysgol gynradd o'ch etholaeth, Irene, a mynegodd yr un pryderon wrthyf.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Mae'r modd y mae eich Llywodraeth wedi trin holl fater y cyfnod sylfaen a chyflwyno hynny wedi bod yn gwbl drychinebus. Rhoddwyd addewid i benaethiaid Cymru y byddent yn cael cyllid i'w gyflwyno. Maent wedi hyfforddi pobl, ac maent wedi cyflogi pobl y bydd yn rhaid iddynt eu diswyddo'n awr. Gallwch naill ai ddweud wrthym y bydd mwy o arian ar gael nag a gyhoeddwyd, neu gallwch ddweud wrthym a gaiff y rhaglen ei gwanhau, a gaiff ei llyfnhau a gwneud llai o gynnydd nag yr oeddech yn ei ddisgwyl, neu a ydych am atal rhannau ohoni. Pa un o'r rhain a fydd yn digwydd?

Y Prif Weinidog: Taflu bai yw hynny. Nid

blame game. There is no point in doing that. We have an early meeting scheduled with the new Welsh Local Government Association, at which we will discuss how to ensure the roll-out is as successful as it can be. I clearly remember a similar set of issues with regard to the teachers' workload agreement in 2004, which eventually resolved themselves easily. People were saying, 'We do not have the information, we not know how we are going to cope with this', and that headteachers were going up to them in pubs and saying, 'It is not going to work. We are desperate, we haven't been told anything about it and there's only six months to go'. This is the same situation. You are a bit of a shroud waver, Mike. I recall the amount of concern that you expressed about a £40 million deficit in Gwent Healthcare NHS Trust, which proved not to be true in the end. You were getting up and down every week, saying, 'What are you going to do about this £40 million deficit?' and so on. You have to stop shroud waving and playing a game in which we are invariably to blame and local authorities cannot possibly be to blame. Yours is the doctrine of unilateral original sin in which the Assembly Government is always to blame for everything. It is absurd. You also have to look at the local authority side of this and see who is telling the truth. Let us get on with the job of trying to ensure roll-out.

Michael German: You got rid of the deficit in Gwent NHS Healthcare Trust by not employing as many nurses and not employing enough people to clean the hospitals. This is not shroud waving; it is about a promise. You made a promise to the headteachers of Wales that you would be able to roll out the foundation phase. You are now telling us that you will roll out parts of it. All I want to know is which parts of it you will roll out. You said that you would roll out parts of it, so which parts are going to go and which are going to stay?

The First Minister: You are doing the same thing again, saying that we did not employ enough nurses in Gwent or people to clean

oes diben gwneud hynny. Mae gennym gyfarfod cynnar wedi'i drefnu gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ei newydd wedd, lle y byddwn yn trafod sut y mae sicrhau bod y cyflwyno mor llwyddiannus â phosibl. Yr wyf yn cofio'n glir broblemau cyffelyb yn ymwneud â chytundeb llwyth gwaith yr athrawon yn 2004, a datryswyd y rheini'n rhwydd yn y pen draw. Yr oedd pobl yn dweud, 'Nid yw'r wybodaeth gennym, nid ydym yn gwybod sut yr ydym am ymdopi â hyn', a bod penaethiaid yn mynd atynt mewn tafarndai ac yn dweud, 'Nid yw'n mynd i weithio. Yr ydym mewn trafferthion difrifol, nid oes neb wedi dweud dim wrthym amdano a dim ond chwe mis sydd i fynd'. Mae'r sefyllfa hon yr un fath. Yr ydych yn dipyn o godwr bwganod, Mike. Cofiaf y pryder a fynegwyd gennych am £40 miliwn o ddiffyg yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent, ac nid oedd y diffyg yn bodoli yn y diwedd. Yr oeddech yn codi ar eich traed bob wythnos, gan ddweud, 'Beth yr ydych am ei wneud am y £40 miliwn o ddiffyg?' ac yn y blaen. Rhaid ichi roi'r gorau i godi bwganod a chwarae gêm lle y mae'r bai arnom ni bob tro a lle nad yw'n bosibl i'r awdurdodau lleol fod ar fai. Y pechod gwreiddiol unochrog yw eich athrawiaeth chi, a Llywodraeth y Cynulliad sydd ar fai am bopeth bob amser. Mae'n hurt. Rhaid ichi edrych ar hyn o safbwynt yr awdurdodau lleol hefyd a gweld pwy sy'n dweud y gwir. Gadewch inni fwrw ymlaen â'r gwaith o geisio sicrhau y caiff y cyfnod sylfaen ei gyflwyno.

Michael German: Cawsoch wared â'r diffyg yn Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd GIG Gwent drwy beidio â chyflogi cynifer o nyrsys a pheidio â chyflogi digon o bobl i lanhau'r ysbytai. Nid codi bwganod yw hyn; mae a wnelo ag addewid. Rhoesoch addewid i benaethiaid Cymru y byddech yn gallu cyflwyno'r cyfnod sylfaen. Yn awr, yr ydych yn dweud wrthym y byddwch yn cyflwyno rhannau ohono. Y cyfan yr wyf yn dymuno'i wybod yw pa rannau ohono y byddwch yn eu cyflwyno. Dywedasoich y byddech yn cyflwyno rhannau ohono, felly pa rannau sydd am fynd a pha rai sydd am aros?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn gwneud yr un peth eto, yn dweud na wnaethom gyflogi digon o nyrsys yng Ngwent na digon o bobl i

the hospitals. You are playing the blame game again in which the Assembly Government must be responsible for everything and anything that goes wrong or that you think might go wrong if you fail to jump up and down like a jack-in-the-box, doing your shroud waving on a weekly basis. You ask which bit of this roll-out will not occur. The roll-out will occur over the next three years, and it will be the envy of the British educational system. It is a break with 125 years of British educational tradition. It will pay off over time. Children will get the benefit of the foundation phase as they enter the school system, and we will also see the benefit as they reach secondary school age in seven or eight years' time and later when they leave school and go to college or enter into training or employment. It is a long-term project, breaking with well over a century of over-formalised educational tradition in Britain. We will get it right in the same way as we got the workload agreement right, despite an awful lot of shroud waving and jumping up and down at the same stage.

Michael German: You are now saying that it is a long-term project. Of course it was going to be a long-term project. You will introduce it this year and roll it out one year on so that, every year, children will be able to get this great form of new education. Everyone accepts that. However, you made a promise to headteachers that you were going to roll it out this year, but you are now only partially rolling it out this year. Instead of enabling schools to provide the ratio of staff to pupils that they must provide in order to make this new experience as edifying and rich as it should be, you are only going to roll-out part of this. If you cannot keep the promise that you made for this year, which parts of the programme will have to go? Which parts will not be rolled out this year as you promised?

The First Minister: The more indignant you get and the more high-pitched your voice gets, the more you are making a fool of the Liberal Democrat stance on this. You simply have to go back to the local authorities and

lanhau'r ysbytai. Yr ydych yn taflu bai eto gan gredu bod yn rhaid mai Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am bopeth ac unrhyw beth a aiff o'i le neu unrhyw beth y credwch y gallai fynd o'i le os na neidiwch i fyny ac i lawr fel jac yn y bocs, gan godi bwganod bob wythnos. Yr ydych yn gofyn pa ran o'r cyflwyno hwn na fydd yn digwydd. Bydd y cyflwyno'n digwydd dros y tair blynedd nesaf, a bydd yn destun cenfigen i system addysg Prydain gyfan. Mae'n golygu newid 125 mlynedd o draddodiad addysgol ym Mhrydain. Bydd yn talu ar ei ganfed dros amser. Bydd plant yn cael budd o'r cyfnod sylfaen wrth iddynt ddod yn rhan o'r system ysgol, a byddwn hefyd yn gweld y budd wrth iddynt gyrraedd oedran ysgol uwchradd ymhen saith neu wyth mlynedd ac yn ddiweddarach pan fyddant yn gadael yr ysgol i fynd i'r coleg neu i gael hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'n brosiect hirdymor, ac yn newid dros ganrif o draddodiad addysgol gorffurfiol ym Mhrydain. Sicrhawn y bydd hyn yn iawn yn yr un modd ag y gwnaethom gyda'r cytundeb llwyth gwaith, er gwaethaf llawer iawn o godi bwganod a neidio i fyny ac i lawr ar yr un cyfnod.

Michael German: Yr ydych yn awr yn dweud ei fod yn brosiect hirdymor. Wrth gwrs ei fod am fod yn brosiect hirdymor. Byddwch yn ei gyflwyno eleni ac yn ei roi ar waith fesul cam flwyddyn yn ddiweddarach fel y bydd plant, bob blwyddyn, yn gallu cael y math gwych hwn o addysg newydd. Mae pawb yn derbyn hynny. Fodd bynnag, rhoesoch addewid i benaethiaid eich bod am ei gyflwyno eleni, ond yn awr dim ond yn rhannol y byddwch yn ei gyflwyno eleni. Yn hytrach na galluogi ysgolion i ddarparu'r gymhareb staff i ddisgyblion y mae'n rhaid iddynt ei darparu er mwyn sicrhau bod y profiad newydd hwn mor adeiladol a chyfoethog ag y dylai fod, dim ond rhan ohono y byddwch yn ei gyflwyno. Os na allwch gadw'r addewid a roesoch ar gyfer eleni, pa rannau o'r rhaglen fydd yn gorfod mynd? Pa rannau na chânt eu cyflwyno eleni fel y gwnaethoch addo?

Y Prif Weinidog: Wrth ichi fynd yn fwy lliidiog, ac wrth i draw eich llais godi, yr ydych yn gwneud i safiad y Democratiaid Rhyddfrydol yn hyn o beth edrych yn ffôl. Rhaid ichi fynd yn ôl at yr awdurdodau lleol

ask whether they can supply the kind of information that the Assembly Government needs in order for it to be assured that the money ring-fenced for rolling out the foundation phase is going to be spent on rolling out the foundation phase and nothing but that. We have talked about the pilot projects. They have been based on an adult-to-learner ratio of 1:8, which frequently became 1:4.5, which is far higher than we promised, because of the golden child factor. If there is a ninth child, an extra adult is added. We cannot do that for a full roll-out throughout Wales. I believe that everybody accepts that the ratio should mean 1:8 on average, and that it cannot drift into 1:4.5. That is the problem. We need the information from the local authorities and we have not been able to get it. We are very concerned, because if we do not have the information, there is no way for us to be sure that the ring-fenced funding is going towards the purpose for which it was intended. The slow or deficient or non-existent supply of information to us has made that process very difficult. We need that information otherwise we cannot be sure that the ring-fenced money is going towards the intended purpose. It is clear that local government in Wales, before the elections, did not want the money to be ring-fenced; it tried to un-ring-fence it. As much as it wriggled, we were resolute, and we were right to be resolute. It must give us the data, otherwise we cannot be sure that it will spend the money on the roll-out of the foundation phase. I believe that we are now very close to an agreement.

2.15 p.m.

Rosemary Butler: In a recent report, First Minister, Estyn praised Newport local education authority as being officially the best in Wales, and described pupil performance as 'outstanding'. The report went on to state that the LEA's support for,

'numeracy and literacy is outstanding and has a significant impact on raising standards, particularly in primary schools.'

Newport is the top authority at key stages 1

a gofyn a allant ddarparu'r math o wybodaeth y mae ei hangen ar Lywodraeth y Cynulliad er mwyn ei sicrhau y caiff yr arian a neilltuwyd ar gyfer cyflwyno'r cyfnod sylfaen ei wario ar gyflwyno'r cyfnod sylfaen a dim byd arall. Yr ydym wedi siarad am y prosiectau peilot. Maent wedi bod yn seiliedig ar gymhareb oedolion i ddysgwyr o 1:8, a droes yn aml yn 1:4.5, sy'n llawer uwch nag a addawyd gennym, oherwydd ffactor y plentyn euraid. Os bydd nawfed plentyn, caiff oedolyn arall ei ychwanegu. Ni allwn wneud hynny ar gyfer cyflwyno'n llawn ledled Cymru. Credaf fod pawb yn derbyn mai 1:8 ar gyfartaledd ddylai'r gymhareb ei olygu, ac na all lithro'n 1:4.5. Dyna'r broblem. Mae angen inni gael y wybodaeth gan yr awdurdodau lleol ac nid ydym wedi gallu ei chael. Yr ydym yn pryderu'n fawr, oherwydd os nad yw'r wybodaeth gennym, nid oes modd inni fod yn siŵr bod y cyllid a neilltuwyd yn mynd at y diben y bwriadwyd ef ar ei gyfer. Mae'r cyflenwad araf neu ddiffygiol o wybodaeth inni, neu absenoldeb y cyflenwad hwnnw, wedi gwneud y broses honno'n anodd iawn. Mae arnom angen y wybodaeth honno, neu ni allwn fod yn siŵr bod yr arian sydd wedi'i neilltuo yn mynd at y diben a fwriadwyd. Mae'n glir nad oedd llywodraeth leol yng Nghymru, cyn yr etholiadau, yn awyddus i'r arian gael ei neilltuo; ceisiodd ddad-wneud y neilltuo. Ni waeth faint yr oedd yn gwingo, yr oeddem yn benderfynol, ac yr oeddem yn iawn wrth fod yn benderfynol. Mae'n rhaid iddi roi'r data inni, neu ni allwn fod yn siŵr y bydd yn gwario'r arian ar gyflwyno'r cyfnod sylfaen. Credaf ein bod yn agos iawn at ddod i gytundeb erbyn hyn.

Rosemary Butler: Mewn adroddiad yn ddiweddar, Brif Weinidog, rhoddodd Estyn glod i awdurdod addysg lleol Casnewydd fel y gorau yng Nghymru yn swyddogol, a disgrifiodd berfformiad y disgyblion yn 'rhagorol'. Aeth yr adroddiad yn ei flaen i ddweud bod cefnogaeth yr AALI i,

rifedd a llythrennedd yn rhagorol ac yn dylanwadu'n sylweddol ar godi safonau, yn enwedig mewn ysgolion cynradd.

Casnewydd yw'r awdurdod gorau ar gyfer

and 2. Estyn particularly praised the work of the Queen's Hill pupil referral unit in re-integrating excluded pupils into mainstream schools. The report goes on to say that, overall, inspection findings in Newport prove that Newport schools are the best in Wales. Will you join me, First Minister, in congratulating the LEA, staff, headteachers, pupils and support staff on this fantastic achievement? Will you also note that it was delivered by a Labour authority? I know that the headteachers are looking forward to implementing the foundation phase to the same high standards.

The First Minister: Thank you, Rosemary, for that information about Newport. We should praise good performance in local government when we hear about it. We must ensure that it is heard to ring loud and true across the Chamber. That is not so much because anybody wants to boast about the performance of a Labour authority such as that in Newport in taking over from another Labour authority in being the best local education authority performer in Wales—I believe that Neath Port Talbot previously held the honour—because that is not the issue. The issue is best practice, and how the authority overcame the socio-economic problems that it might have and how it got the pupil referral unit to work so that excluded pupils were rapidly brought back into the mainstream, and were not left out of school, and out of sight, out of mind. That is a great achievement. People need to know about such best practice so that they can copy it in areas where it is not currently being followed.

Jeff Cuthbert: First Minister, in your response to Darren Millar, you referred to basic skills. Regrettably, about a third of adults in my constituency, most of whom are over the age of 25, even now have serious problems with literacy and numeracy. That is, of course, the legacy of a time when the Conservative Party controlled education in Wales. Do you agree that, through our initiatives, such as the foundation phase, 14-

cyfnodau allweddol 1 a 2. Rhoddodd Estyn ganmoliaeth arbennig i waith uned cyfeirio disgyblion Queen's Hill o ran ailintegreiddio disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn ysgolion y brif ffrwd. Â'r adroddiad yn ei flaen i ddweud bod canfyddiadau arolygiadau yng Nghasnewydd, ar y cyfan, yn profi mai ysgolion Casnewydd yw'r gorau yng Nghymru. A ymunwch â mi, Brif Weinidog, i longyfarch yr AALL, y staff, y penaethiaid, y disgyblion a'r staff cymorth am y llwyddiant gwych hwn? A wnewch sylwi hefyd mai awdurdod Llafur a gyflawnodd y llwyddiant hwn? Gwn fod y penaethiaid yn edrych ymlaen at weithredu'r cyfnod sylfaen yn ôl yr un safonau uchel.

Y Prif Weinidog: Diolch, Rosemary, am y wybodaeth honno am Gasnewydd. Dylem ganmol perfformiad da mewn llywodraeth leol pan glywn amdano. Rhaid inni sicrhau bod hynny i'w glywed yn glir ac yn groyw ar draws y Siambr. Nid yw hynny am fod unrhyw un yn awyddus i frolio am berfformiad awdurdod Llafur megis hwnnw yng Nghasnewydd a gymerodd le awdurdod Llafur arall fel yr awdurdod addysg lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru—credaf mai Castell-nedd Port Talbot oedd â'r fraint honno yn flaenorol—oherwydd nid hynny sydd dan sylw. Y mater dan sylw yw'r arferion gorau, a sut y goresgynnodd yr awdurdod y problemau economaidd a chymdeithasol a allai fod ganddo a sut y sicrhodd fod yr uned cyfeirio disgyblion yn gweithio er mwyn dod â disgyblion a oedd wedi'u gwahardd yn ôl i'r brif ffrwd yn gyflym, ac na chaent eu cadw allan o'r ysgol, heb i neb eu gweld na meddwl dim amdanynt. Mae hynny'n llwyddiant ysgubol. Mae angen i bobl wybod am arferion gorau o'r fath er mwyn iddynt allu efelychu hynny mewn ardaloedd lle nad yw'n digwydd ar hyn o bryd.

Jeff Cuthbert: Brif Weinidog, yn eich ateb i Darren Millar, cyfeiriasoch at sgiliau sylfaenol. Yn anffodus, mae gan tua thraean yr oedolion yn fy etholaeth, ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini dros 25 oed, broblemau difrifol, hyd yn oed yn awr, gyda llythrennedd a rhifedd. Wrth gwrs, gwaddol cyfnod pan oedd y Blaid Geidwadol yn rheoli addysg yng Nghymru yw hynny. A gytunwch y byddwn, drwy ein mentrau, megis y cyfnod

19 learning pathways and the Welsh baccalaureate, we will ensure that basic and key skills are integral to the education system in Wales, and that we will not abandon a generation of young people as the Conservative Party did?

The First Minister: Until very recently, there has not been enough recognition in education statistics of vocational and basic skills qualifications. They were regarded as only for dossers or for kids who could not make it, and it was not realised that the consequences of such an attitude for society can be very destructive. Some of your points were well made. We have now introduced new figures and have copied a statistical method used in England whereby you get a basic points score for all of the different levels of qualification, both vocational and academic. That is the proper way to ensure that people are not left out and ignored by the system because they happen not to be academic. Such people also make an important contribution to society.

Lesley Griffiths: The emotional wellbeing of our children is an extremely important matter and it is now widely recognised that the health and wellbeing of children directly relates to their educational performance. Does not the news, therefore, that the Government is to invest £6.5 million over the next three years in local authorities for the development of school counselling services demonstrate just how committed we are to giving children and schools the help and support that they need to improve performance on many different levels?

2.20 p.m.

The First Minister: I am pleased that this issue of giving the emotional health of children more attention in schools has been raised several times in the past few months. I think that Sandy Mewies asked me a question about this a few months ago. I have seen this operating extremely well in a school in my constituency that is considered to serve quite a difficult area. It is effective at teaching children to deal with their emotional problems, to manage their anger, and even to

sylyfaen, llwybrau dysgu 14-19 a bagloriaeth Cymru, yn sicrhau bod sgiliau sylfaenol ac allweddol yn rhan annatod o'r system addysg yng Nghymru, ac na fyddwn yn cefnu ar genhedlaeth o bobl ifanc yn yr un modd ag y gwnaeth y Blaid Geidwadol?

Y Prif Weinidog: Tan yn ddiweddar iawn, ni fu digon o gydnabyddiaeth mewn ystadegau addysgol i gymwysterau sgiliau galwedigaethol a sylfaenol. Ystyrid hwy'n addas i blant diog neu blant na allent lwyddo yn unig, ac ni sylweddolidd y gall goblygiadau agwedd o'r fath mewn cymdeithas fod yn ddinistriol iawn. Mynegwyd rhai o'ch pwyntiau yn dda gennyh. Erbyn hyn, yr ydym wedi cyflwyno ffigurau newydd ac wedi efelychu dull ystadegol a ddefnyddir yn Lloegr lle y rhoddir sgôr syml ar sail pwyntiau ar gyfer yr holl lefelau gwahanol o gymwysterau, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol ac academaidd. Dyna'r dull cywir o sicrhau na chaiff pobl eu cau allan na'u hanwybyddu gan y system am nad ydynt yn digwydd bod yn academaidd. Mae pobl o'r fath yn gwneud cyfraniad pwysig at gymdeithas hefyd.

Lesley Griffiths: Mae lles emosiynol ein plant yn fater pwysig dros ben, ac erbyn hyn ceir cydnabyddiaeth gyffredinol bod perthynas uniongyrchol rhwng iechyd a lles plant a'u perfformiad addysgol. Onid yw'r newyddion, felly, y bydd y Llywodraeth yn buddsoddi £6.5 miliwn dros y tair blynedd nesaf mewn awdurdodau lleol ar gyfer datblygu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn dangos cymaint o ymrwymiad sydd gennym i roi'r cymorth a'r gefnogaeth i blant ac i ysgolion y mae arnynt eu hangen i wella perfformiad ar lawer o lefelau gwahanol?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn falch bod y mater hwn ynghylch rhoi mwy o sylw i iechyd emosiynol plant mewn ysgolion wedi'i godi amryw o weithiau dros y misoedd diwethaf. Credaf fod Sandy Mewies wedi gofyn cwestiwn imi am hyn rai misoedd yn ôl. Yr wyf wedi gweld hyn yn gweithredu'n hynod o dda mewn ysgol yn fy etholaeth yr ystyrir ei bod yn gwasanaethu ardal eithaf anodd. Mae'n effeithiol o ran addysgu plant i ddelio â'u problemau

overcome mild-level bullying, as it were, by learning techniques and getting sound emotional advice. Those techniques can be taught at school and they help children to stay in school. It means that they can avoid fights and avoid feeling cheated off with the education system. I am pleased that we have paid a lot of attention to that in our recent discussions and question-and-answer sessions at the Assembly.

Quality of Life

Q4 Andrew R.T. Davies: What action is the Welsh Assembly Government taking to improve the quality of life for people in South Wales Central? OAQ(3)1064(FM)

The First Minister: Despite current difficulties with food and fuel prices and mortgages, our exceptional rise in living standards over the past seven years, combined with our excellent environment, is a major attraction, bringing talented people and top-quality jobs to Wales.

Andrew R.T. Davies: The increase in fuel prices is driving costs up for many people in my region. The lack of action on your Government's part was emphasised in a written reply from the Deputy First Minister to the leader of the opposition. He stated that he had not had any discussions with hauliers about the recent price increases that they are facing. Do you agree that that is unacceptable, and will you direct your Deputy First Minister to engage fully with the haulage industry in Wales, to ensure that its concerns are addressed by you, to the best of your ability as a Government, and addressed at Westminster, through dialogue with you?

The First Minister: The prime responsibility for the taxation of fuel, or for somehow bringing about a reduction in international oil prices by international negotiation, lies with the Westminster Government. That much is absolutely clear. If the haulage industry requests a meeting with us, we would normally offer to hold a meeting. We did so back in 2000, when we had the last fuel protests. For understandable reasons, those

emosiynol, i reoli eu dicter, a hyd yn oed i oresgyn bwlio ar lefel isel, fel petai, drwy ddysgu technegau a chael cyngor emosiynol cadarn. Gellir addysgu'r technegau hynny yn yr ysgol ac maent yn helpu plant i aros yn yr ysgol. Golyga hynny y gallant osgoi ymladd ac osgoi syrffedu ar y system addysg. Yr wyf yn falch ein bod wedi rhoi llawer o sylw i hynny yn ein trafodaethau a'n sesiynau holi ac ateb yn ddiweddar yn y Cynulliad.

Ansawdd Bywyd

C4 Andrew R.T. Davies: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i wella ansawdd bywyd pobl yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1064(FM)

Y Prif Weinidog: Er gwaethaf yr anawsterau presennol gyda morgeisi a phrisiau bwyd a thanwydd, mae'r cynnydd eithriadol a fu yn ein safonau byw dros y saith mlynedd diwethaf, ynghyd â'n hamgylchedd gwych, yn atyniad sylweddol sy'n denu pobl ddawnus a swyddi o'r ansawdd gorau i Gymru.

Andrew R.T. Davies: Mae'r cynnydd ym mhrisiau tanwydd yn peri i gostau godi i lawer o bobl yn fy rhanbarth. Pwysleisiwyd y diffyg gweithredu ar ran eich Llywodraeth mewn ateb ysgrifenedig oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog at arweinydd yr wrthblaid. Dywedodd nad oedd wedi cynnal dim trafodaethau gyda chlodwyr ynglŷn â'r codiadau diweddar yn y prisiau y maent yn eu hwynebu. A gytunwch fod hyn yn annerbyniol, ac a gyfarwyddwch eich Dirprwy Brif Weinidog i ymgysylltu'n llawn â'r diwydiant cludo nwyddau yng Nghymru, i sicrhau y bydd eu pryderon yn cael sylw gennyh, hyd eithaf eich gallu fel Llywodraeth, ac yn cael sylw yn San Steffan, drwy ddeialog â chi?

Y Prif Weinidog: Llywodraeth San Steffan sy'n bennaf cyfrifol am drethu tanwydd, neu am lwyddo rywsut i ostwng prisiau rhyngwladol o fewn drwy drafodaethau rhyngwladol. Mae hynny'n gwbl glir. Os bydd y diwydiant cludo nwyddau'n gofyn am gyfarfod â ni, byddem fel arfer yn cynnig cynnal cyfarfod. Gwnaethom hynny yn 2000, pan ddigwyddodd y protestiadau tanwydd diwethaf. Am resymau dealladwy, mae'r

protests are starting up again. We want to try to dissuade hauliers from undertaking action that would disrupt normal life, and the price of doing that—a small price to pay—is to meet with hauliers and to pass their concerns on to Westminster, where the prime responsibility for fuel duty lies. As we are all aware, the Chancellor of the Exchequer is considering what to do about the 2p rise in fuel duty that is due in October, to see whether he can afford to suspend it for a further year, or to take action of that sort if fuel prices remain as high as they are today.

Christine Chapman: The quality of life of the employees of Best Bakeries Ltd in Hirwaun has, without doubt, been affected by the recent redundancies and uncertainty facing the company. We have kept in close contact with the firm and its workforce, through the union, but what assurances can you give, First Minister, that the Welsh Assembly Government is working proactively to safeguard the future of this well-established company in my constituency?

The First Minister: Our officials have been in frequent contact with Ferrari's Bakery and Best Bakeries, its affiliated company, for quite some time, since the company, in its original guise as Ferrari's, went into administration. Our efforts have been redoubled in recent days, following the announcement that Best Bakeries, albeit not Ferrari's, is back in financial difficulties, especially since the fire. We do not want to be ringing up every day, but we are doing almost that without making a nuisance of ourselves, to see what we can do to salvage as many jobs as possible in those valuable businesses—and whose bread I regard to be of outstandingly good quality.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): First Minister, an important aspect of quality of life is clearly the economic performance of the Government and the economic position of Wales. You will be aware of official UK Treasury figures that show that the area with the lowest economic growth over the past 10 years of any in the United Kingdom is Wales. That is not me shrouding; these are your Government's

protestiadau hynny ar gychwyn unwaith eto. Mae arnom eisiau darbwylo cludwyr i beidio â chymryd camau a fyddai'n amharu ar fywyd bob dydd, a'r pris am wneud hynny—pris bach i'w dalu—yw cyfarfod â chlodwyr ac yna cyfleu eu pryderon i San Steffan, sydd yn bennaf cyfrifol am drethu tanwydd. Yr ydym i gyd yn ymwybodol bod Canghellor y Trysorlys wrthi'n ystyried beth i'w wneud ynghylch y cynnydd o 2c mewn treth tanwydd sy'n dod i rym ym mis Hydref, i weld a all fforddio ei atal am flwyddyn arall, neu gymryd camau o'r fath os bydd prisiau tanwydd yn aros cyfuwch ag y maent heddiw.

Christine Chapman: Yn ddiamau, mae'r colli swyddi a'r ansicrwydd sy'n wynebu'r cwmni yn ddiweddar wedi effeithio ar ansawdd bywyd gweithwyr Best Bakeries Cyf yn Hirwaun. Yr ydym wedi cadw mewn cysylltiad agos â'r cwmni a'i weithlu, drwy'r undeb, ond pa sicrwydd y gallwch ei roi, Brif Weinidog, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n rhagweithiol i ddiogelu dyfodol y cwmni hwn, sydd wedi hen ennill ei blwyf, yn fy etholaeth?

Y Prif Weinidog: Mae ein swyddogion wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Ferrari's Bakery a Best Bakeries, ei gwmni cyswllt, ers cryn amser, ers i'r cwmni, ar ei wedd wreiddiol fel Ferrari's, ddod yn destun gorchymyn gweinyddu. Yr ydym wedi ymdrechu fwyfwy dros y dyddiau diwethaf, wedi'r cyhoeddiad bod Best Bakeries, er nad yw Ferrari's, yn wynebu anawsterau ariannol unwaith eto, yn enwedig ers y tân. Nid ydym am eu ffonio bob dydd, ond yr ydym yn gwneud hynny bron, heb fod yn niwsans, i weld beth y gallwn ei wneud i achub cynifer o swyddi â phosibl yn y busnesau gwerthfawr hynny—a busnesau sy'n gwneud bara o ansawdd aruthrol o dda yn fy marn i.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Brif Weinidog, yn amlwg, un agwedd bwysig ar ansawdd bywyd yw perfformiad economaidd y Llywodraeth a sefyllfa economaidd Cymru. Byddwch yn ymwybodol o ffigurau swyddogol Trysorlys y DU sy'n dangos mai'r ardal sydd â'r twf economaidd isaf dros y 10 mlynedd diwethaf, o holl ardaloedd y DU, yw Cymru. Nid yn codi bwganod yr wyf; ffigurau swyddogol

official figures.

I want to ask you about a particular aspect of the economy, namely fuel poverty. I have asked you before whether you stand by your target of eradicating fuel poverty in all vulnerable households by 2010, and you said that the position would have to be looked at—or words to that effect. Are you sticking to that target, given the massive increases that we are seeing in energy and domestic fuel prices? Do you still stand by it?

The First Minister: On the question of economic growth that you threw in, clearly, that is an important aspect of quality of life, on which, as I said in my first answer on this question, we have the best record in the United Kingdom. It is not merely better than those of Scotland, Northern Ireland and England, but better than that of any of the individual nine regions of England, as well as those of Scotland and Northern Ireland, in terms of the gross disposable household income increase, which is the increase in standard of living. We are the first out of 12 for the period of 1999 to 2006, and that is a good sign of an improving quality of life. I do not think that you are right about economic growth. From the figures that I saw in those Treasury tables, the north-west of England and the west midlands, which is 20 per cent of the United Kingdom, were behind us in gross value added growth, but on gross disposable household income, we came first out of 12, and it is a matter of considerable pride to be able to say that standards of living or prosperity are rising more rapidly in Wales than in any of the nine English regions, Scotland or Northern Ireland. You will find that if you check through the statistics.

On the question of fuel poverty, everyone is ferociously revising their approach to fuel poverty following the doubling, at least, of fuel prices recently, and, probably, their trebling over the past three or four years, to see to what extent they can maintain the previous targets or whether they have to revise them or provide additional resources. The Westminster Government has said that

eich Llywodraeth yw'r rhain.

Yr wyf am ofyn ichi am agwedd benodol ar yr economi, sef tlodi tanwydd. Yr wyf wedi gofyn ichi o'r blaen a ydych yn glynu wrth eich targed i ddi-ddymu tlodi tanwydd ym mhob cartref sy'n agored i niwed erbyn 2010, a dywedasoch y byddai'n rhaid edrych ar y sefyllfa—neu eiriau cyffelyb. A ydych yn cadw at y targed hwnnw, o ystyried y codiadau anferthol a welwn ym mhrisiau ynni a thanwydd domestig? A ydych yn dal i lynu wrtho?

Y Prif Weinidog: Ynghylch y mater ynglŷn â thwf economaidd a godwyd gennych, yn amlwg, mae hynny'n agwedd bwysig ar ansawdd bywyd ac, fel y dywedais yn fy ateb cyntaf ynghylch y cwestiwn hwn, ni sydd â'r record orau yn y Deyrnas Unedig o ran yr agwedd honno. Mae nid yn unig yn well na record yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ond yn well na record unrhyw un o'r naw rhanbarth unigol yn Lloegr, yn ogystal â'r rhai yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, o ran y cynnydd mewn incwm aelwydydd crynswth i'w wario, sef y cynnydd mewn ansawdd bywyd. Ni sydd yn y safle cyntaf allan o 12 ar gyfer y cyfnod rhwng 1999 a 2006, ac mae hynny'n arwydd da o ansawdd bywyd sy'n gwella. Ni chredaf eich bod yn gywir ynghylch twf economaidd. Ar sail y ffigurau a welais yn y tablau hynny gan y Trysorlys, yr oedd gogledd-orllewin Lloegr a gorllewin canolbarth Lloegr, sef 20 y cant o'r Deyrnas Unedig, y tu ôl inni o ran twf gwerth ychwanegol crynswth, ond o ran incwm aelwydydd crynswth i'w wario, daethom yn gyntaf allan o 12, ac mae gallu dweud bod ansawdd bywyd neu ffyniant yn cynyddu'n gyflymach yng Nghymru nag yn yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon neu yn unrhyw un o'r naw rhanbarth yn Lloegr, yn destun cryn falchder. Gwelwch hynny os edrychwch drwy'r ystadegau.

Ynghylch tlodi tanwydd, mae pawb wrthi'n ddiwyd yn adolygu eu dull o ymdrin â thlodi tanwydd ar ôl i brisiau tanwydd ddyblu, o leiaf, yn ddiweddar, a threblu, mae'n debyg, dros y tair neu bedair blynedd diwethaf, i weld i ba raddau y gallant gynnal y targedau blaenorol neu a oes yn rhaid iddynt eu hadolygu neu ddarparu adnoddau ychwanegol. Dywedodd Llywodraeth San

the winter fuel allowance as regards old people will go up further this winter to try to cope with rising oil prices and the way that that has dragged up electricity and gas prices. However, we will have to look at our targets to see to what extent they have been wrecked by the rise in fuel prices that has occurred suddenly and sharply worldwide.

Nick Bourne: There seems to be a degree of complacency there, to say the least. The official Treasury figures are absolutely clear that we have had the lowest economic growth of any region of the UK since 1997. That is not me shroud waving; they are your Treasury's figures.

Coming back to the specific question that I asked you about the fuel poverty target, you do not seem to have any sense of urgency about this. What are you doing about the dire position that people up and down Wales now find themselves in? I will refer to an e-mail that I received today from the daughter of a constituent whose parents are in their 80s. They are normal people, living in a normal house. They are spending more than £200 a month on domestic oil and they say that the winter fuel payment would not even fill a quarter of their tank. These are real problems now. It is not just about the target—you were right about that—it is about action in respect of the target. Just saying 'Well, we'll have to look at it' is not good enough. What are you doing about it?

The First Minister: Again, you are wrong about the economic growth figures. They were rechecked this morning, and the Conservative press release is completely wrong. Economic growth in Wales since devolution has been higher than that in two significant regions of England, namely the north-west of England and the west midlands, which constitute 20 per cent of Great Britain—so that is a significant chunk of Great Britain—if measured by the GVA target. In terms of what you would normally assume to be a measure of rising prosperity, we came first. We are better than any of the

Steffan y bydd y lwfans tanwydd gaeaf ar gyfer hen bobl yn codi ymhellach y gaeaf hwn i geisio ymdopi â'r cynnydd ym mhrisiau olew a'r ffordd y mae hynny wedi peri i brisiau trydan a nwy godi. Fodd bynnag, bydd yn rhaid inni edrych ar ein targedau i weld i ba raddau y maent wedi'u difetha yn sgîl y cynnydd ym mhrisiau tanwydd sydd wedi digwydd yn sydyn ac yn ddisymwth ledled y byd.

Nick Bourne: Ymddengys fod rhywfaint o hunanfodlonrwydd i'w weld yn hynny, a dweud y lleiaf. Mae ffigurau swyddogol y Trysorlys yn gwbl glir mai gennym ni y mae'r twf economaidd isaf o holl ranbarthau'r DU ers 1997. Nid codi bwganod yr wyf; ffigurau eich Trysorlys chi ydynt.

A dychwelyd at y cwestiwn penodol a ofynnais ichi am y targed ynghylch tlodi tanwydd, nid yw'n ymddangos bod gennych ddim ymdeimlad o frys ynghylch hyn. Beth yr ydych yn ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa arswydus y mae pobl o bob cwr o Gymru yn ei hwynebu erbyn hyn? Cyfeiriaf at neges e-bost a gefais heddiw gan ferch etholwr y mae ei rhieni yn eu 80au. Pobl gyffredin ydynt, sy'n byw mewn tŷ cyffredin. Maent yn gwario mwy na £200 y mis ar olew domestig a dywedant na fyddai'r taliad tanwydd gaeaf yn llenwi chwarter eu tanc hyd yn oed. Mae'r rhain yn broblemau gwirioneddol yn awr. Nid yw hyn yn ymwneud â'r targed yn unig—yr oeddech yn gywir ynghylch hynny—mae hyn yn ymwneud â gweithredu yng nghyswllt y targed. Nid yw dweud, yn syml, 'Wel, bydd yn rhaid inni edrych arno' yn ddigon da. Beth yr ydych yn ei wneud ynghylch y peth?

Y Prif Weinidog: Unwaith eto, yr ydych yn anghywir ynglŷn â'r ffigurau ar gyfer twf economaidd. Cawsant eu hailwirio y bore yma, ac mae datganiad y Ceidwadwyr i'r wasg yn gwbl anghywir. Mae twf economaidd yng Nghymru ers datganoli wedi bod yn uwch na'r twf mewn dau ranbarth sylweddol yn Lloegr, sef gogledd-orllewin Lloegr a gorllewin canolbarth Lloegr, sydd yn 20 y cant o Brydain Fawr—felly mae hynny'n dalp sylweddol o Brydain Fawr—os caiff ei fesur yn ôl targed gwerth ychwanegol crynswth. O ran yr hyn y byddech fel arfer yn tybio ei fod yn dynodi ffyniant ar gynydd,

individual nine regions of England, as well as Scotland and Northern Ireland. In other words, there is a league table with 12 places, and we are not in the bottom place or in the middle rankings but in first place for the rise in gross disposable household income per head. That is the normal measure that is made in the United Kingdom of rising economic prosperity. There is no doubt about that. It is clear; those are the figures and the facts.

On fuel poverty, when something happens as rapidly as the rise in the price of crude oil over the past year, shooting up to \$130 a barrel—the implications of which are that it raises the price of coal and gas, which are the two main fuels used for domestic heating, either on their own or by conversion into electricity—you must readjust an awful lot. You cannot pretend that this increase has not taken place, and you must try to see what you can do to improve the insulation values of your homes, but you cannot do that overnight. You must see what you can do and what is a reasonable target to try to combat the speed of the rise in fuel prices. I am only too aware of it, because I am also dependent on oil-fired fuel, and the rise in the price of oil for those of us who are dependent on oil has been more rapid than for others. I do not want to make any kind of plea on my own behalf, but I am well aware of the current astronomical price of filling a normal-sized central heating tank with oil, and it is a massive problem throughout rural Wales or any area that is not on mains gas.

2.30 p.m.

Nick Bourne: That answer was so far wide of the mark—apart from on length—that it barely rates a score of *nul points*. It was nothing to do with the press release from us; it was an adviser to your comrades in Government, Plaid Cymru, who released the Treasury figures that he had discovered. I give him full credit for that, but they are Treasury figures. However, that is not the central issue; the central issue is what you are doing about fuel poverty. To try to suggest

daethom yn gyntaf. Yr ydym yn well nag unrhyw un o'r naw rhanbarth unigol yn Lloegr, yn ogystal â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mewn geiriau eraill, ceir tabl cynghrair sydd â 12 lle, ac nid ydym yn y safle isaf nac yng nghanol y tabl, ond yn y safle cyntaf o ran y twf mewn incwm aelwydydd crynswth i'w wario y pen. Dyna'r dull arferol yn y DU o fesur ffyniant economaidd ar gynnydd. Nid oes dim amheuaeth ynghylch hynny. Mae'n glir; y rheini yw'r ffigurau a'r ffeithiau.

O ran tlodi tanwydd, pan fydd rhywbeth yn digwydd cyn gyflymed â'r cynnydd ym mhris olew crai dros y flwyddyn ddiwethaf, gan godi'n sydyn i \$130 y gasgen—goblygiadau hynny yw y bydd prisiau glo a nwy, sef y ddau brif danwydd a ddefnyddir ar gyfer gwres domestig, naill ai ar eu pennau eu hunain neu drwy eu trosi'n drydan, yn codi yn ei sgîl—rhaid ichi ymaddasu gryn dipyn. Ni allwch gymryd arnoch na ddigwyddodd y cynnydd hwn, a rhaid ichi geisio gweld beth y gallwch ei wneud i wella gwerthoedd inswleiddio eich cartrefi, ond ni allwch wneud hynny dros nos. Rhaid ichi weld beth y gallwch ei wneud a beth sy'n darged rhesymol i geisio mynd i'r afael â chyflymder y cynnydd ym mhrisiau tanwydd. Yr wyf yn ymwybodol iawn ohono, oherwydd yr wyf finnau hefyd yn ddibynnol ar danwydd olew, ac mae'r cynnydd ym mhris olew i'r rhai ohonom sy'n ddibynnol ar olew wedi bod yn gyflymach nag i bobl eraill. Nid wyf am wneud dim math o ble ar fy rhan fy hun, ond yr wyf yn ymwybodol iawn o bris aruthrol llenwi tanc gwres canolog o faint arferol ag olew, ac mae'n broblem anferth ledled Cymru wledig neu mewn unrhyw ardal nad oes ganddi brif gyflenwad nwy.

Nick Bourne: Yr oedd yr ateb hwnnw mor bell ohoni—er ei fod yn ddigon hir—fel mai prin y byddai'n sgorio *nul points*. Nid oedd yn berthnasol o gwbl i'n datganiad i'r wasg; cynghorydd i Blaid Cymru, eich cymheiriaid yn y Llywodraeth, a ryddhaodd ffigurau'r Trysorlys ar ôl iddo ddod o hyd iddynt. Pob clod iddo am wneud hynny, ond ffigurau'r Trysorlys ydynt. Fodd bynnag, nid hwnnw yw'r mater canolog; y mater canolog yw beth yr ydych yn ei wneud ynghylch tlodi

that this has just happened is ridiculous. Energywatch Wales—and it is shroud waving here—has discovered that the number of people in fuel poverty has more than doubled since 2004. Therefore, it has not just happened; you should have been taking action on it previously. Admittedly, the position has become that much worse over the past few months, but you need to be looking urgently at what you are doing about people up and down the country. I will not lose any sleep about the First Minister's fuel oil, but I will lose sleep over the other people in Wales who are spending more than 10 per cent of their disposable income on fuel oil and on energy costs, because they are the people whom your Government should be protecting. I come back to the point for the third time: what are you doing to help them other than postponing the problem?

The First Minister: I am not sure which I am the most proud of: being told that I have been awarded *nul points* by Nick Bourne for my response to his misuse of economic data, or the actual data which show that the rise in living standards in Wales has been more rapid than in any of the nine English regions, or Scotland, or Northern Ireland. You seem a bit baffled by the data, Nick, as all you can do is make snotty remarks and give me *nul points*. You clearly do not handle statistics with any kind of professionalism. All you have is a pseudo-smart remark, which I do not think that Terry Wogan would be terribly proud of, and so I do not think that you will be replacing him soon, Nick.

On the issue of fuel, we recognise that the rise over the four-year period has been considerable. The doubling of fuel prices over the past 12 months has made the problem that much more acute. It is most acute for those using oil and it is slightly less so, but still terribly acute, for those who are dependent on electricity, coal, or gas. It is very serious. It is serious throughout the world. Everyone is readjusting their targets to see what can be done to make homes use less fuel and yet still provide the warmth that

tanwydd. Mae ceisio awgrymu mai rhywbeth sydd newydd ddigwydd yw hyn yn chwerrthinllyd. Mae Golwg ar Ynni Cymru—a dyma godi bwganod—wedi canfod bod nifer y bobl mewn tlodi tanwydd wedi mwy na dyblu ers 2004. Felly, nid rhywbeth sydd newydd ddigwydd ydyw; dylech fod wedi bod yn cymryd camau ynghylch y mater hwn cyn hyn. Cyfaddefaf fod y sefyllfa wedi gwaethygu dros y misoedd diwethaf, ond mae angen ichi edrych ar fyrder ar yr hyn yr ydych yn ei wneud ynghylch pobl ledled y wlad. Ni fyddaf yn methu cysgu oherwydd olew tanwydd y Prif Weinidog, ond byddaf yn methu cysgu oherwydd y bobl eraill yng Nghymru sy'n gwario mwy na 10 y cant o'u hincwm gwario ar olew tanwydd ac ar gostau ynni, oherwydd dyma'r bobl y dylai eich Llywodraeth fod yn eu gwarchod. Dychwelaf at y pwynt am y trydydd tro: beth yr ydych yn ei wneud i'w helpu yn hytrach na gohirio'r broblem?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr pa un yr wyf fwyaf balch ohono: clywed fy mod wedi cael *nul points* gan Nick Bourne am fy ymateb oherwydd iddo gamddefnyddio data economaidd, ynteu'r data gwirioneddol sy'n dangos bod y cynnydd mewn safonau byw yng Nghymru wedi codi'n gyflymach nag mewn dim un o naw rhanbarth Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yr ydych fel petaech wedi cael eich drysu ychydig gan y data, Nick, oherwydd yr unig beth y gallwch ei wneud yw gwneud sylwadau pigog a dyfarnu *nul points* i mi. Yn amlwg, nid ydych yn gallu trin ystadegau gydag unrhyw fath o broffesiynoldeb. Yr unig beth a wnewch yw gwneud sylw ffug-glyfar, na fyddai hyd yn oed Terry Wogan yn falch iawn ohono, felly nid wyf yn credu y byddwch yn ei ddisodli yn fuan, Nick.

O ran tanwydd, yr ydym yn cydnabod bod y cynnydd dros y pedair blynedd wedi bod yn sylweddol. Mae'r ffaith bod prisiau tanwydd wedi dyblu dros y 12 mis diwethaf wedi dwysáu'r broblem. Mae'n fwyaf dwys i'r bobl hynny sy'n defnyddio olew ac yn llai dwys, ond yn dal yn ddwys dros ben, i'r rhai sy'n dibynnu ar drydan, glo neu nwy. Mae'n ddifrifol iawn. Mae'n ddifrifol ym mhedwar ban byd. Mae pawb yn addasu eu targedau i weld beth y gellir ei wneud i ddefnyddio llai o danwydd mewn cartrefi ond gan ddal i

everyone craves in the fuel-expensive world in which we now live. We hope that the oil price breaks. There is some sign that it may have peaked, but we really do not know. Even if the oil price does suddenly turn back down again, we will still need a strategy to improve the heat efficiency of people's homes as well as to provide additional sums to those who really cannot afford the current price, if we want to make sure that their health does not suffer this winter. That is the reason for the winter fuel allowance increase.

Lorraine Barrett: The quality of life for people living on the main roads of Penarth and Cogan would be greatly improved if we could get the barrage road open. I ask you to do all you can to support the Deputy First Minister, who told me last week that the plans are in hand and that it should be opened during the summer. If we can get people walking or cycling into Cardiff instead of driving, and if we can get the respective councils to get their acts together to put money into the Sustrans Pont y Werin project, we could reduce the amount that people spend on fuel, as well as securing a healthier environment for Penarth and Cogan.

The First Minister: Anyone who has visited the barrage will be aware of the problem in trying to get a continuous road through the Associated British Ports between Cardiff and Penarth. I will make inquiries about where and when we might get a practical solution to that problem, because we want to encourage the use of the barrage for walking, jogging, or cycling, thereby reducing fuel use on the commute between Cardiff and Penarth.

Jenny Randerson: In January, the Minister for Health and Social Services announced a target 15-minute turnaround time for ambulances arriving at accident-and-emergency units. Are you confident that that target has been achieved and that it has been achieved without having the knock-on effect of creating longer waiting times in accident-and-emergency departments? I ask this question because, on 24 May, a constituent of

ddarparu'r cynhesrwydd y mae pawb yn awyddus i'w gael yn y byd lle y mae tanwydd yn ddrud yr ydym yn byw ynddo bellach. Gobeithiwn y bydd pris olew yn cwmpo. Mae rhai arwyddion ei fod wedi cyrraedd y brig, ond nid ydym yn gwybod mewn gwirionedd. Hyd yn oed os bydd pris olew yn disgyn yn sydyn eto, bydd angen strategaeth arnom er hynny i wella effeithlonrwydd cartrefi pobl o ran gwres yn ogystal â darparu symiau ychwanegol i'r rhai na allant fforddio'r pris presennol, os ydym am sicrhau na fydd eu hiechyd yn dioddef y gaeaf hwn. Dyna'r rheswm dros y cynnydd yn y lwfans tanwydd gaeaf.

Lorraine Barrett: Byddai ansawdd bywyd pobl sy'n byw ar y prif ffyrdd ym Mhenarth a Chogan yn gwella'n sylweddol petaem yn gallu agor ffordd y morglawdd. Gofynnaf ichi wneud hynny a allwch i gefnogi'r Dirprwy Brif Weinidog, a ddywedodd wrthyf yr wythnos diwethaf fod y cynlluniau ar droed ac y dylai agor yn ystod yr haf. Petaem yn gallu annog pobl i gerdded neu seiclo i Gaerdydd yn hytrach na gyrru, a phetaem yn gallu cael y cynghorau dan sylw i roi trefn ar bethau a buddsoddi arian ym mhrosiect Pont y Werin Sustrans, gallem leihau'r arian y mae pobl yn ei wario ar danwydd, yn ogystal â sicrhau amgylchedd iachach ym Mhenarth a Chogan.

Y Prif Weinidog: Bydd unrhyw un sydd wedi ymweld â'r morglawdd yn ymwybodol o'r broblem o gael ffordd ddi-dor drwy'r Associated British Ports rhwng Caerdydd a Phenarth. Gwnaf ymholiadau ynghylch lle a phryd y gallem gael ateb ymarferol i'r broblem honno, oherwydd yr ydym am annog pobl i gerdded, loncian neu seiclo ar y morglawdd, a thrwy hynny ddefnyddio llai o danwydd wrth gymudo rhwng Caerdydd a Phenarth.

Jenny Randerson: Ym mis Ionawr, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol darged ar gyfer trosglwyddo cleifion sy'n cyrraedd mewn ambiwlansys cyn pen 15 munud i'r unedau damweiniau ac achosion brys. A ydych yn hyderus bod y targed hwnnw wedi cael ei gyflawni a bod hynny heb arwain at greu amseroedd aros hwy yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys? Gofynnaf y

mine took his daughter to the accident-and-emergency department at the University Hospital of Wales. She was seen and x-rayed quickly, but then waited five hours for the results of the x-ray, which is well beyond target times. Perhaps you can confirm that it is not possible for hospitals to massage the statistics to disguise a wait of this length of time within the treatment time.

The First Minister: I am not sure what you are alleging. If you write to Edwina or me outlining any allegation that you wish to make about massaging figures, we will ensure that it is responded to in the proper way—if you are alleging malpractice.

On the question of the target 15-minute turnaround time, we will have to look at how that was responded to. It was a target set by the Minister for Health and Social Services, and I think that everybody welcomed it, because we do not want to see ambulances used as temporary holding ponds for would-be patients who arrive at accident-and-emergency department but cannot be discharged as the paramedics cannot do the handover because the department is blocked or there is no medical assessment unit and so on. A great deal of progress has been made in that area recently. However, how soon we will be able to achieve the 15-minute turnaround time without adversely affecting waiting times at accident-and-emergency departments, medical assessment units, or x-ray units is a matter that we will have to look into; we will reply to you fully and comprehensively on that.

Chris Franks: Do you agree with the trader quoted in the *Barry and District News* who has called for the new Vale of Glamorgan Council administration to develop all-weather attractions and leisure facilities to improve the quality of life of locals and visitors alike? What will the One Wales Government do to ensure that we have first-class leisure and business facilities on the waterfront in Barry?

cwestiwn hwn oherwydd bod un o'm hetholwyr, ar 24 Mai, wedi mynd â'i ferch i adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Athrofaol Cymru. Cafodd sylw a chael pelydr-x yn gyflym, ond yna bu'n rhaid disgwyl pum awr am ganlyniadau'r pelydr-x, sy'n llawer hwy na'r amseroedd targed. Efallai y gallwch gadarnhau nad yw'n bosibl i ysbytai ystumio'r ystadegau i guddio amseroedd aros hir fel hyn yn yr amser ar gyfer triniaeth.

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr beth yr ydych yn ei honni. Os ysgrifennwch ataf neu at Edwina yn amlinellu unrhyw honiad yr hoffech ei wneud ynghylch ystumio'r ffigurau, sicrhawn ein bod yn ymateb yn y ffordd briodol—os ydych yn honni bod camymddwyn wedi bod.

O ran y cwestiwn ar drosglwyddo cleifion cyn pen y targed o 15 munud, bydd yn rhaid inni edrych i weld sut yr ymatebwyd i hynny. Targed oedd hwn a osodwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chredaf fod pawb wedi ei groesawu, oherwydd nid ydym am weld ambiwlansys yn cael eu defnyddio fel ystafelloedd aros dros dro ar gyfer darpar gleifion sy'n cyrraedd yr adran damweiniau ac achosion brys ond na ellir eu rhyddhau oherwydd na all y parameddygon eu trosglwyddo gan fod yr adran yn llawn neu nad oes uned asesu meddygol ar gael ac yn y blaen. Mae cryn dipyn o gynnydd wedi cael ei wneud yn y maes hwnnw'n ddiweddar. Fodd bynnag, bydd pa mor gyflym y byddwn yn gallu cyflawni'r trosglwyddiad cyn pen 15 munud heb effeithio'n andwyol ar amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, unedau asesu meddygol, neu unedau pelydr-x yn fater y bydd yn rhaid inni ymchwilio iddo; byddwn yn eich ateb yn llawn ac yn gynhwysfawr ynghylch hynny.

Chris Franks: A ydych yn cytuno â'r masnachwr a ddyfynnwyd yn y *Barry and District News* sydd wedi galw ar weinyddiaeth newydd Cyngor Bro Morgannwg i ddatblygu cyfleusterau hamdden ac atyniadau ar gyfer pob tywydd er mwyn gwella ansawdd bywyd y bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd? Beth a wna Llywodraeth Cymru'n Un i sicrhau bod gennym gyfleusterau busnes a hamdden o'r

radd flaenaf ar y glannau yn y Barri?

The First Minister: There have been substantial improvements by way of a railway, of which you are aware, the enterprise centre, and improvements in the general environment in Barry, including the docks. The marina is now under serious consideration by ABP and its consortium partners. There are many areas where the diversification of attractions in Barry would be important, including the creation of an all-weather centre providing attractions for the citizens of the Vale of Glamorgan as well as for day-trippers and others who visit Barry Island as a resort. It has improved, but there is still a long way to go, and the incoming council in the Vale will, I am sure, give attention to that. Let us hope that it comes up with some constructive ideas.

Y Prif Weinidog: Mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud, sef y rheilffordd, yr ydych yn ymwybodol ohoni, y ganolfan fenter, a gwelliannau i amgylchedd cyffredinol y Barri, gan gynnwys y dociau. Mae ABP a'i phartneriaid yn y consortiwm yn ystyried y marina o ddifrif. Mae llawer o ardaloedd lle y byddai cyflwyno atyniadau gwahanol yn y Barri yn bwysig, gan gynnwys creu canolfan bob tywydd sy'n darparu atyniadau ar gyfer dinasyddion Bro Morgannwg yn ogystal ag ar gyfer y rhai ar ymweliad diwrnod ac eraill sy'n ymweld ag Ynys y Barri fel cyrchfan. Mae wedi gwella, ond mae llawer iawn o waith i'w wneud eto, ac yr wyf yn siŵr y bydd y cyngor a etholwyd yn y Fro yn rhoi sylw i hynny. Gobeithiwn y bydd yn gallu cynnig rhai syniadau adeiladol.

Research and Development

Q5 Sandy Mewies: Will the First Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for research and development in north-east Wales? OAQ(3)1043(FM)

The First Minister: The outstanding examples are the support for the OpTIC technium and the work of Optopreneurs Ltd within the OpTIC technium. It is an outstandingly successful technium—ruthlessly commercial and very successful, with a high level of spin-out companies. It won the recent RegioStars award in Europe for technology transfer. Furthermore, there is the £7.5 million contribution that we have made, recently announced by Ieuan Wyn Jones, towards the £103 million of Airbus-led programme to change its aircraft wing technology from metal alloy to composite.

Sandy Mewies: As you have outlined, the availability of money for research and development is vital. I am sure that you will recall a visit in the snow to Mostyn in my constituency, where we looked at work by the start-up company Revolymmer, which had been awarded £660,000 by the Welsh Assembly Government. The company has

Ymchwil a Datblygu

C5 Sandy Mewies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ymchwil a datblygu yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(3)1043(FM)

Y Prif Weinidog: Yr enghreifftiau amlwg yw'r gefnogaeth i'r OpTIC technium a gwaith Optopreneurs Cyf yn yr OpTIC technium. Mae'n dechnium aruthrol o lwyddiannus—yn ddiostur o fasnachol ac yn hynod lwyddiannus, gyda lefel uchel o gwmnïau yn deillio ohono. Enillodd wobwr RegioStars yn Ewrop yn ddiweddar am drosglwyddo technoleg. Yn ychwanegol at hynny, mae'r cyfraniad gwerth £7.5 miliwn yr ydym wedi'i wneud, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ieuan Wyn Jones, tuag at y rhaglen gwerth £103 miliwn sy'n cael ei harwain gan Airbus i newid technoleg adenydd ei awyrennau i ddeunydd cyfansawdd yn hytrach na metel aloi.

Sandy Mewies: Fel yr ydych wedi amlinellu, mae'n hanfodol bod arian ar gael ar gyfer ymchwil a datblygu. Yr wyf yn siŵr eich bod yn cofio ymweld â Mostyn yn fy etholaeth yn yr eira, lle y buom yn edrych ar waith Revolymmer, sef cwmni a oedd newydd ei sefydlu ac a oedd wedi cael £660,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cwmni

now found a magic formula for a new, authentic but non-sticky chewing gum, which could save the country millions of pounds a year in removing discarded gum. Will you join with me in congratulating everyone involved, and will you ensure that such exciting projects, whether or not they are in my constituency, will be recognised and supported by the Government?

The First Minister: Indeed. It was very interesting to be at the Revolmer unit within the Warwick International Ltd complex. The company was very happy to be housed by Warwick International Ltd because of the support facilities available. It was interesting to see the process of research and development taking place almost before your eyes, with these bright scientists and engineers who, as I recall, were from all over the world, working on this non-stick chewing gum. It might seem to be a relatively humdrum thing to be doing, but if it saves money to the public purse and improves the environment, it will be an enormous advance if it can be brought off by the Bristol University science department, with Warwick International Ltd facilities and the very clever people from the Revolmer team. Let us hope that it does come off. It was given substantial support by us, and I hope that it comes off in a scheme that will create jobs, science and technology in Wales, and will bring about an improvement in the environment worldwide, if non-stick chewing gum takes over from conventional very sticky chewing gum.

2.40 p.m.

Mark Isherwood: Over recent weeks, we have seen a growing number of job losses announced in north-east Wales, from Redrow, Flexsys, and JCB Transmissions, to Brookfield Foods Ltd yesterday. This has happened at the same time as the announcement of the Institute of Chartered Accountants about the fall in the business confidence index, with Wales emerging as the least business-confident region or nation in the United Kingdom. What action will you take to address the fall in research and development spending in Wales identified by the Office for National Statistics—

bellach wedi darganfod fformiwla hud ar gyfer gwm cnoi newydd, go iawn, ond nad yw'n ludiog, a allai arbed miliynau o bunnoedd y flwyddyn i'r wlad oherwydd yr arian sy'n cael ei wario ar glirio gwm cnoi. A wnewch ymuno â mi i longyfarch pawb a fu'n ymwneud ag ef, ac a wnewch sicrhau y bydd prosiectau cyffrous tebyg, pa un ai a ydynt yn fy etholaeth ai peidio, yn cael eu cydnabod a'u cefnogi gan y Llywodraeth?

Y Prif Weinidog: Yn wir. Yr oedd yn ddiddorol iawn ymweld ag uned Revolmer yng nghanolfan Warwick International Cyf. Yr oedd y cwmni'n hapus iawn o gael llety gan Warwick International Cyf oherwydd y cyfleusterau cymorth a oedd ar gael. Yr oedd yn ddiddorol gweld y broses ymchwil a datblygu'n digwydd o flaen eich llygaid bron, gyda'r gwyddonwyr a'r peirianwyr galluog hyn, a oedd yn dod o bedwar ban byd yn ôl y cof sydd gennyf, yn gweithio ar y gwm cnoi hwn nad yw'n ludiog. Gallai hyn ymddangos yn waith gweddol ddiflas, ond os yw'n arbed arian i'r pwrs cyhoeddus ac yn gwella'r amgylchedd, bydd yn gam sylweddol ymlaen os gall adran gwyddoniaeth Prifysgol Bryste ei gyflawni, gyda chyfleusterau Warwick International Cyf a'r bobl alluog iawn yn nhîm Revolmer. Gobeithiwn y byddant yn llwyddiannus. Cawsant gefnogaeth sylweddol gennym, a gobeithiaf y bydd yn dwyn ffrwyth drwy gynllun a fydd yn arwain at greu swyddi, gwyddoniaeth a thechnoleg yng Nghymru, ac yn gwella amgylchedd ledled y byd, os bydd y gwm cnoi hwn nad yw'n ludiog yn disodli'r gwm cnoi traddodiadol sy'n ludiog iawn.

Mark Isherwood: Dros yr wythnosau diwethaf, yr ydym wedi gweld nifer cynyddol o swyddi'n cael eu colli yn y gogledd-ddwyrain, o Redrow, Flexsys, a JCB Transmissions, i Brookfield Foods Cyf ddoe. Mae hyn wedi cyd-daro â chyhoeddiad Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig am y cwmp ym mynegai hyder busnesau, a Chymru yn dod i'r amlwg fel y rhanbarth neu wlad leiaf hyderus o ran busnes yn y Deyrnas Unedig. Pa gamau a gymerwch i fynd i'r afael â'r lleihad mewn gwariant ar ymchwil a datblygu yng Nghymru a nodwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol—yn enwedig i

particularly to incentivise private business in north-east Wales to increase research spending, noting that the area falls outside the boundaries of eligibility for convergence funding—and to redress the imbalance that means that, over the past two years, 89 per cent of the collaborative research undertaken between business and academia has been with either Swansea or Cardiff universities?

The First Minister: The figures that I just quoted to you on the £7.5 million grant awarded to Airbus will knock those figures into a cocked hat, Mark. One thing I can say to you is that you are pretty consistent. Your questions are always along the same lines; they are always the result of a ruthless search for bad news in the newspapers, for surveys, factory announcements or whatever. It is always the same: you never look for the good news and you never mention Airbus and its grant. People used to say that Llanelli rugby supporters were slightly one-eyed but that is nothing compared with you, Mark, and your search for bad news. Let us face facts: north-east Wales is the most successful part of Wales, business wise. There is no question about that. It is an extremely successful area although I am aware of the problems at Flexsys. The problems that you mentioned were reported in the *Daily Post* today. To take the broad picture, north-east Wales has made a phenomenal recovery from the problems caused in 1980 by the loss of the jobs at Shotton, which was the biggest redundancy announcement ever made anywhere in the world. Nevertheless, now it is the most successful part of Wales. Deeside industrial park, Airbus and others are very much to the fore.

Advocacy for Elderly People

Q6 Eleanor Burnham: Will the First Minister make a statement on advocacy services for elderly people? OAQ(3)1054(FM)

The First Minister: Advocacy services for

annog busnesau preifat yn y gogledd-ddwyrain i gynyddu gwariant ar ymchwil, a chofio bod yr ardal y tu allan i'r ffiniau sy'n ei gwneud yn gymwys ar gyfer cyllid cydgyfeirio—a cheisio gwneud iawn am yr anghydbwysedd sydd wedi golygu, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fod 89 y cant o'r ymchwil ar y cyd sydd wedi'i gwneud rhwng byd busnes ac academia wedi'i gwneud gyda phrifysgol Abertawe neu Gaerdydd?

Y Prif Weinidog: Bydd y ffigurau yr wyf newydd sôn amdanynt, sef y £7.5 miliwn o grant a ddyfarnwyd i Airbus, yn rhagori llawer ar y ffigurau hynny, Mark. Un peth y gallaf ddweud wrthy ch yw eich bod yn weddol gyson. Mae eich cwestiynau bob amser yn dilyn yr un trywydd; maent bob amser yn ffrwyth chwilio'n ddyfal am newyddion drwg yn y papurau newydd, am arolygon, cyhoeddiadau gan ffatrioedd neu beth bynnag y bo. Yr ydych fel tiwn gron; nid ydych byth yn chwilio am y newyddion da ac nid ydych byth yn sôn am Airbus a'i grant. Yr oedd pobl yn arfer dweud bod cefnogwyr clwb rygbi Llanelli braidd yn unllygeidiog, ond nid oeddent hanner cynddrwg â chi, Mark, wrth ichi chwilio am newyddion drwg. Gadewch inni edrych ar y ffeithiau; gogledd-ddwyrain Cymru yw'r ardal fwyaf llwyddiannus yng Nghymru o ran busnes. Nid oes dwywaith am hynny. Mae'n ardal hynod o lwyddiannus er fy mod yn ymwybodol o'r problemau yn Flexsys. Adroddwyd am y problemau y soniasoch amdanynt yn y *Daily Post* heddiw. Gan edrych ar y darlun ehangach, mae adferiad rhyfeddol wedi bod yn y gogledd-ddwyrain ers y problemau a achoswyd yn 1980 oherwydd colli'r swyddi yn Shotton, sef y cyhoeddiad diswyddo mwyaf erioed a wnaethpwyd yn unrhyw le yn y byd. Er hynny, hon yw'r ardal fwyaf llwyddiannus yng Nghymru erbyn hyn. Mae parc diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Airbus ac eraill ar flaen y gad yn wir.

Eiriolaeth ar gyfer Pobl Hŷn

C6 Eleanor Burnham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau eirioli ar gyfer pobl hŷn? OAQ(3)1054(FM)

Y Prif Weinidog: Caiff gwasanaethau eirioli

elderly people are explicitly recognised in the national service framework for older people. It states that advocacy services should be available, published and accessed when appropriate, and commissioned by the NHS and social services.

The new commissioner for older people, Ruth Marks, has been given the job of investigating advocacy services to ensure that they are up to speed and up to scratch.

Eleanor Burnham: We have just met the commissioner over lunch, and she has raised her concerns. Age Concern and many other organisations have indicated a huge problem with the loss of four advocacy services across north Wales, particularly over the past six months. Staff in the remaining services are often forced to cut their hours to be part time. Will you put your money where your mouth is, First Minister, and consider carefully how services for advocacy—and we will all come to that age—will be secured for the future?

The First Minister: That is a matter for the commissioner for older people. She will check up on advocacy services, so there is no point in my doing so as well. We have put our money where our mouth is by funding the post of commissioner for older people, and setting it up as the first in the United Kingdom, perhaps in Europe. We want to make sure that the commissioner and her staff have the ability to take up complaints, which is a form of advocacy. She can also help people to make complaints or to use the relevant complaints procedure, or she can represent that person. Therefore, that is part of the commissioner's job, as well as checking up on the advocacy services provided by others. She may even be able to award financial support to an older person to meet the costs of pursuing a complaint. Therefore, we have been putting our money where our mouth is.

David Lloyd: I ddatblygu'r ddadl ychydig, fel y gwŷr y Prif Weinidog, bydd nifer y bobl sy'n hŷn na 60 oed yng Nghymru yn cynyddu i ryw 772,000 erbyn 2011. Fel y clywsom,

ar gyfer pobl hŷn eu cydnabod yn benodol yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn. Mae'n dweud y dylai gwasanaethau eirioli fod ar gael, y dylid rhoi cyhoeddusrwydd iddynt, a'u defnyddio pan fydd yn briodol, a'u comisiynu gan y gwasanaeth iechyd gwladol a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r comisiynydd newydd ar gyfer pobl hŷn, Ruth Marks, wedi cael cyfarwyddyd i archwilio gwasanaethau eirioli i sicrhau eu bod yn ddigon cyfredol ac yn ddigon da.

Eleanor Burnham: Yr ydym newydd gyfarfod â'r comisiynydd amser cinio, ac mae wedi mynegi ei phryderon. Mae Age Concern a llawer o fudiadau eraill wedi datgan bod problem anferth yn sgîl colli pedwar gwasanaeth eirioli ledled y gogledd, yn enwedig dros y chwe mis diwethaf. Mae'r staff yn y gwasanaethau sydd ar ôl yn cael eu gorfodi i dorri eu horiau i weithio'n rhan-amser. A wnewch roi eich arian ar eich gair, Brif Weinidog, ac ystyried yn ofalus sut y caiff gwasanaethau ar gyfer eirioli—gan y byddwn i gyd yn cyrraedd yr oedran hwnnw—eu sicrhau i'r dyfodol?

Y Prif Weinidog: Mater i'r comisiynydd ar gyfer pobl hŷn yw hynny. Bydd yn taro golwg ar wasanaethau eirioli, felly nid oes diben i mi wneud hynny hefyd. Yr ydym wedi rhoi ein harian ar ein gair drwy gyllido swydd y comisiynydd ar gyfer pobl hŷn, sef y swydd gyntaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig, ac efallai yn Ewrop. Yr ydym am sicrhau bod y comisiynydd a'i staff yn gallu mynd ar drywydd cwynion, sy'n rhyw fath o eirioli. Yn ogystal gall helpu pobl i wneud cwynion neu i ddefnyddio'r drefn gwyno briodol, neu gall gynrychioli'r unigolyn hwnnw. Felly, mae hynny'n rhan o swydd y comisiynydd, yn ogystal â chadw golwg ar y gwasanaethau eirioli a ddarperir gan eraill. Gall hyd yn oed ddyfarnu cymorth ariannol i unigolyn hŷn i dalu costau ar gyfer dilyn cwyn. Felly, yr ydym wedi bod yn rhoi ein harian ar ein gair.

David Lloyd: To develop the argument a little, the First Minister will be aware that the number of people in Wales aged over 60 will increase to some 772,000 by 2011. As we

mae gwasanaethau eirioli o dan fygythiad, gyda nifer ohonynt yn cau. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y bobl sydd mewn cartrefi nyrsio neu ysbytai am yr hirdymor wedi cynyddu, ac felly mae angen strategaeth i ddarparu gwasanaeth eirioli annibynnol i'r bobl hynny. Pa gynnydd a wnaed o ran datblygu'r meddylfryd i gael strategaeth o'r fath?

Y Prif Weinidog: Mae'r sefyllfa hon yn unigryw i Gymru o fewn ynysoedd Prydain ac Iwerddon—yma mae'r ganran uchaf o bobl dros yr oed ymddeol arferol. Pan edrychwn ar y boblogaeth sydd dros 80, mae'r canran honno hefyd yn uwch yng Nghymru nag yng Ngweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Yr ydym yn ymwybodol o'r ffaith bod goblygiadau i'r ffactorau unigryw hyn yng Nghymru. Gan fod canran uwch o henoed yma, mae mwy o angen eiriolaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu hawlio'r hyn sydd ei angen arnynt. Os mai rhyw fath o fudd-dâl yw hynny, yr ydym yn gwneud hynny hefyd ac yn helpu pobl i gael y budd-daliadau y gallant eu hawlio mewn meysydd fel y dreth gyngor. Pam mai llai na hanner y bobl sydd â'r hawl i gael budd-dâl treth gyngor sy'n ei hawlio? Yn anffodus, oherwydd y stigma, nid yw pobl yn hawlio'r hyn sydd ar gael iddynt. Mae angen inni roi llawer mwy o hwb i wasanaethau cyngori'r henoed, er mwyn sicrhau bod pobl yn hawlio'r hyn sydd ar gael iddynt.

Paul Davies: Hoffwn ddatgan diddordeb yn y mater hwn, gan fy mod yn llywydd ar grŵp eirioli sir Benfro. Mae pobl hŷn, yn enwedig rhai â phroblemau emosiynol a meddyliol, weithiau'n gweld penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau a gofal yn cael eu gwneud gan eraill, ac yr wyf yn siŵr y byddai'r Prif Weinidog yn cytuno y byddai gwasanaethau eirioli gwir annibynnol yn osgoi hynny i lawer o bobl. Byddai gwasanaethau o'r fath yn sicrhau bod ganddynt lais a gwir ddewis, a bod eu hawliau yn cael eu hamddiffyn. Fel y dywedodd Dai, mae pobl yn poeni nad yw gwasanaethau eirioli a ddarperir gan sefydliadau mawr yn wir annibynnol. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y sefydliadau mawr hyn yn dangos atebolrwydd lleol?

heard, advocacy services are under threat, with several closing. In recent years, the numbers of people placed for the long term in nursing homes or in hospitals has increased, and a strategy is therefore needed to provide an independent advocacy service for those people. What progress has been made with regard to developing attitudes in favour of such a strategy?

The First Minister: This situation is unique to Wales within the British isles and Ireland—we have the highest percentage of people over the retirement age. When we look at the population aged over 80, that percentage is also higher in Wales than in the Irish Republic, Northern Ireland, Scotland and England. We are aware of the fact that these unique factors have implications for Wales. Given that we have a higher percentage of elderly people, there is a need for more advocacy in order to ensure that they are able to claim what they need. If that means some sort of benefit, we are also doing that, helping people to get the benefits that they are able to claim on issues such as council tax. Why do fewer than half of those who are eligible claim council tax benefit? Unfortunately, because of the stigma, people do not claim what they are eligible for. We need a greater push for advice services for the elderly, in order to ensure that people claim what is available for them.

Paul Davies: I would like to declare an interest in this issue, as president of the Pembrokeshire advocacy group. Older people, especially those with emotional and mental problems, sometimes see decisions about services and care being made by others, and I am sure that the First Minister would agree that truly independent advocacy services would avoid that for a number of people. Such services would give them a true voice and true choice, and would safeguard their rights. As Dai said, people are worried that advocacy services provided by large organisations are not truly independent. Can the First Minister tell us how the Government will ensure that these large organisations demonstrate local accountability?

Y Prif Weinidog: Os oes tystiolaeth nad yw gwasanaethau sy'n honni eu bod yn annibynnol yn cyflawni hynny, a'u bod yn rhy bleidiol tuag at y sefydliad sy'n eu hariannu, gobeithiaf y bydd yn cael ei chyflwyno i'r comisiynydd pobl hŷn, sy'n adolygu'r sefyllfa ac yn ymchwilio i safon y gwasanaethau eirioli sydd ar gael i bobl hŷn. Os oes tystiolaeth o hynny, bydd yn rhaid inni gywiro'r sefyllfa, neu bydd pobl yn colli ymddiriedaeth a ffydd yn gyflym. Yr wyf yn dibynnu ar Ruth Marks, y comisiynydd newydd, i wneud ei gwaith yn drylwyr—yr wyf yn siŵr y bydd yn gwneud hynny—ac, os oes tystiolaeth o'r fath, i ddod â'r dystiolaeth honno ger ein bron.

Post Office Closures

Q7 Janet Ryder: Will the First Minister make a statement regarding post office closures in Wales? OAQ(3)1067(FM)

The First Minister: I always have to repeat, when I am asked these questions, that this is a non-devolved responsibility and that the lead responsibility rests with the Department of Business, Enterprise and Regulatory Reform, which was the formerly the Department of Trade and Industry, in the Westminster Government. We have made it clear that we expect any closure programme to be sensitive to the particular needs that we identify in supporting the vulnerable communities of Wales.

Janet Ryder: I am sure that you are aware that the Post Office Ltd is to save £150 million from these closures, while the UK Government is reducing the value of its business that goes through the post office network from £500 million to £68 million. There is clearly a political agenda there. The UK Government is moving away from seeing post offices as an essential social provision in favour of a purely commercial network. Post Office bosses have stated that to run the network purely on a commercial basis would require the closure of two thirds of our post offices. In north Wales, that would equate to the closure of roughly one in five post offices. The Post Office is, obviously, offering incentives to postmasters and postmistresses, who have seen much of their Government business reduced and, therefore,

The First Minister: If there is evidence that services that claim to be independent are not providing that independence, and that they are too biased towards their funding organisations, I hope that it is presented to the commissioner for older people, who is reviewing the situation and looking into the quality of advocacy services for older people. If there is such evidence, we will have to rectify the situation, or people will quickly lose confidence and trust. I depend on Ruth Marks, the new commissioner, to do the work thoroughly—I am sure that she will do so—and, if there is such evidence, to bring that evidence to us.

Cau Swyddfeydd Post

C7 Janet Ryder: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gau swyddfeydd post yng Nghymru? OAQ(3)1067(FM)

Y Prif Weinidog: Pan ofynnir y cwestiynau hyn imi, rhaid imi ailadrodd bob tro nad yw hyn yn gyfrifoldeb a ddatganolwyd ac mai'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio sef yr hen Adran Masnach a Diwydiant, yn Llywodraeth San Steffan, sy'n bennaf cyfrifol. Yr ydym wedi egluro ein bod yn disgwyl i unrhyw raglen i gau swyddfeydd fod yn sensitif i'r anghenion penodol a nodwn i gefnogi'r cymunedau sy'n agored i niwed yng Nghymru.

Janet Ryder: Yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod y bydd Swyddfa'r Post Cyf yn arbed £150 miliwn drwy gau'r swyddfeydd post hyn, wrth i Lywodraeth y DU leihau gwerth ei busnes sy'n mynd drwy rwydwaith y swyddfeydd post o £500 miliwn i £68 miliwn. Mae'n amlwg bod agenda wleidyddol yn hynny o beth. Nid yw Llywodraeth y DU yn ystyried swyddfeydd post yn ddarpariaeth gymdeithasol hanfodol mwyach ond yn rhwydwaith sy'n gwbl fasnachol. Mae rheolwyr Swyddfa'r Post wedi dweud, er mwyn rhedeg y rhwydwaith ar sail gwbl fasnachol, y byddai'n rhaid cau deuparth ein swyddfeydd post. Yn y gogledd byddai hynny'n gyfystyr â chau tua un swyddfa bost o bob pump. Yn amlwg, mae Swyddfa'r Post yn cynnig cymhelliannau i bostfeistri a phostfeistresi, sy'n cael llai o

their profits reduced. Will you join me in opposing the closures programme as a threat to community cohesion across Wales, not just in north Wales? Will you use whatever measures you can to ensure that we keep this vital social community service?

lawer o fusnes gan y Llywodraeth, a'u helw wedi lleihau o'r herwydd. A wnewch ymuno â mi i wrthwynebu'r rhaglen i gau swyddfeydd fel bygythiad i gydlynid cymunedol ledled Cymru, nid yn y gogledd yn unig? A wnewch ddefnyddio hynny a allwch o fesurau i sicrhau ein bod yn cadw'r gwasanaeth cymunedol cymdeithasol hanfodol hwn?

2.50 p.m.

The First Minister: With the exception of the points that you made about the possible motivation behind the current post office closure programme, I agree with a great deal of that. The Government has said that it does not want its £150 million subsidy to be cut, but it does not want it to increase either. The problem as I understand it is that there are 4 million fewer visits per week to post offices compared with a year ago, so the old use-it-or-lose-it argument is important. On new, internet-based technology, my local post office is lucky that I cannot use the internet, so I still go to the post office to buy my car tax and so on, but most people now buy their car tax online, in about five minutes. You cannot disinvent the internet—you cannot put that bit of toothpaste back in the tube. If people are internet-enabled, they will not use the post office if they can do the same thing in five minutes online.

Y Prif Weinidog: Ac eithrio'r pwyntiau a wnaethoch am y cymhelliad posibl wrth wraidd y rhaglen gyfredol i gau swyddfeydd post, yr wyf yn cytuno â llawer o hynny. Mae'r Llywodraeth wedi dweud nad oes arni eisiau i'w chymhorthdal o £150 miliwn gael ei dorri, ond nid oes arni eisiau ei gynyddu ychwaith. Caf ar ddeall mai'r broblem yw bod 4 miliwn yn llai o ymweliadau yr wythnos â swyddfeydd post o'i gymharu â'r sefyllfa flwyddyn yn ôl, felly mae'r hen ddadl ynghylch ei defnyddio neu ei cholli yn bwysig. O ran technoleg newydd ar y rhyngwrwd, mae fy swyddfa bost leol yn ffodus oherwydd na allaf ddefnyddio'r rhyngwrwd, felly yr wyf yn dal i fynd i'r swyddfa bost i brynu fy nhreth car ac yn y blaen, ond mae'r rhan fwyaf o bobl erbyn hyn yn prynu eu treth car ar-lein, mewn rhyw bum munud. Ni allwch ddad-ddyfeisio'r rhyngwrwd—ni allwch wthio'r past dannedd hwnnw yn ôl i'r tiwb. Ond os bydd pobl yn gallu defnyddio'r rhyngwrwd, ni fyddant yn defnyddio'r swyddfa bost os gallant wneud yr un peth mewn pum munud ar-lein.

However, in going from 14,500 to 12,000 or so post offices, it is important that post offices are provided with some means of gaining new business, to make up for the loss of car tax and television licence renewal and several other contracts. It is important that they get the opportunity to turn their businesses around, by way of new sources of income streams to replace the ones that they are losing because of the internet.

Fodd bynnag, wrth newid o 14,500 i tua 12,000 o swyddfeydd post, mae'n bwysig i swyddfeydd post gael rhyw fodd o gael busnes newydd, er mwyn gwneud iawn am golli contractau treth car, adnewyddu trwydded teledu ac amryw o gontractau eraill. Mae'n bwysig iddynt gael y cyfle i weddnewid eu busnes, drwy gyfrwng ffynonellau incwm newydd i ddisodli'r rhai y maent yn eu colli oherwydd y rhyngwrwd.

Alun Cairns: First Minister, do you accept that post offices fulfil a role that is extremely important in terms of social responsibility? If a customer who usually turns up at 10 a.m. on a Monday morning to collect his or her pension has not turned up by 11 a.m. or 12

Alun Cairns: Brif Weinidog, a ydych yn derbyn bod swyddfeydd post yn cyflawni rôl arbennig o bwysig o ran cyfrifoldeb cymdeithasol? Os na fydd cwsmer sydd fel rheol yn dod drwy'r drws am 10 a.m. ar fore Llun i godi ei bensiwn neu ei phensiwn wedi

p.m., the post office is already asking about their welfare. Post office closures could lead to possible consequences for social services—a visit to the post office can be the only reason why some people leave the house on a regular basis, so the cost to social services could increase. Do you not think that post offices need a level playing field in order to compete with the internet? For example, why is it that you have to turn up with your insurance document and your MOT certificate to buy car tax at the post office, but do not need them to buy it on the internet? Post offices could be linked into the same computer system in order to offer that convenience, where people would simply have to turn up and pay their money. In reality, First Minister, is it not somewhat hypocritical for some Members of Parliament and some Assembly Members, who had the opportunity in this Chamber and elsewhere to vote to call for a halt to the closure programme, to express crocodile tears at this time?

The First Minister: This is getting a bit nasty and personal. Have the Conservatives made a commitment to a subsidy for the Post Office if they ever win power in a general election? You say that other people are crying crocodile tears, but are you not open to that accusation yourself? Unless you are willing to say that you have had a personal assurance from your shadow Chancellor of the Exchequer that he will double the subsidy, to £300 million or so, what is the basis for the claim that you will save all of these post offices? You do not know how, but you say that other people are crying hypocritical crocodile tears; that is a bit of a boomerang, flying back towards your forehead.

Alun Davies: First Minister, I understand and appreciate that the Welsh Assembly Government does not have any formal powers in this area, but I would suggest that the it has the power to act as a catalyst and as a leader for change. You will be aware that announcements were made this morning by the Post Office to close a number of branches in mid and west Wales, particularly in the counties of Pembrokeshire and Carmarthenshire. Would it be possible for the Welsh Assembly Government to actively

cyrraedd erbyn 11 a.m. neu 12 p.m., mae'r swyddfa bost eisoes yn holi am eu lles. Gallai cau swyddfeydd post arwain at ganlyniadau posibl ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol—ymweliad â'r swyddfa bost yw'r unig reswm efallai sydd gan rai pobl dros adael y tŷ yn rheolaidd, felly gallai'r gost i'r gwasanaethau cymdeithasol gynyddu. Onid ydych yn meddwl bod angen tegwch ar swyddfeydd post er mwyn cystadlu â'r rhyngwyd? Er enghraifft, pam mae'n rhaid i chi fynd â'ch dogfen yswiriant a'ch tystysgrif MOT gyda chi i'r swyddfa bost i brynu treth car ond nad oes eu hangen arnoch i'w phrynu ar y rhyngwyd? Gellid cysylltu swyddfeydd post â'r un system gyfrifiadurol i gynnig yr hwylustod hwnnw, lle y gallai pobl ddod yno a thalu eu harian. Mewn gwirionedd, Brif Weinidog, onid yw'n rhagrithiol i rai Aelodau Seneddol a rhai Aelodau Cynulliad, a gafodd gyfle yn y Siambr hon ac mewn manau eraill i bleidleisio dros alw am atal y rhaglen i gau swyddfeydd, wylo ffug-ddagrau yn awr?

Y Prif Weinidog: Mae hyn yn troi braidd yn hyll ac yn bersonol. A yw'r Ceidwadwyr wedi ymrwymo i roi cymhorthdal ar gyfer Swyddfa'r Post os byddant yn ennill grym ryw dro mewn etholiad cyffredinol? Dywedwch fod pobl eraill yn wylo ffug-ddagrau, ond oni ellir eich cyhuddo chithau o wneud hynny hefyd? Oni bai eich bod yn fodlon dweud eich bod wedi cael sicrwydd personol gan Ganghellor yr wrthblaid y bydd yn dyblu'r cymhorthdal, i tua £300 miliwn, ar ba sail yr ydych yn honni y byddwch yn achub yr holl swyddfeydd post hyn? Ni wyddoch sut y byddwch yn gwneud hynny, ond dywedwch fod pobl eraill yn wylo ffug-ddagrau rhagrithiol; mae hynny'n eithaf bwmerang, sy'n hedfan yn ôl at eich talcen.

Alun Davies: Brif Weinidog, yr wyf yn deall ac yn sylweddoli nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddim pwerau ffurfiol yn y maes hwn, ond byddwn yn awgrymu bod ganddi'r pŵer i weithredu fel catalydd ac i arwain newid. Byddwch yn gwybod bod cyhoeddiadau wedi'u gwneud y bore yma gan Swyddfa'r Post i gau nifer o ganghennau yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, yn enwedig yn sir Benfro a sir Gaerfyrddin. A fyddai'n bosibl i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynd ati i chwilio am ddewisiadau

seek alternatives to this closure programme, and to work with the Post Office, local authorities and other public bodies, to ensure that we have an alternative to the closure programme that ensures that services are maintained in communities up and down Wales, and that the most vulnerable people in society are not affected by this closure programme?

The First Minister: I agree with all of that, but it is about the generation of alternative revenue streams. How does the Post Office find new revenue streams for its branch network? The Government must reduce costs by going out to tender, and the Post Office has been losing a lot of these tender battles. I do not know why, but it has lost the battle over television licences, benefit payments, direct payment into bank accounts and the use of the internet. However, there are also 4 million fewer people visiting its branches every week, and the Post Office must find alternative revenue streams to bring those customers back. It must persuade customers that there is a good reason for going to the post office, even if it is not to buy car tax or to renew a television licence, which people are able to do much more quickly online.

Peter Black: You cannot deny the Government's role in the decline of post office business in 2006-07—£168 million of business was lost to the Post Office from the Government. Do you agree that, if the Assembly Government is taking a strong position on the sensitivity of these closures, the Westminster Government is not listening to you on this issue, given the present proposals for south-west Wales? Would you consider making further representations to the Westminster Government, particularly regarding the post office card account? Postmasters estimate that, if that contract is lost, a further 4,000 branches could close around the United Kingdom. As I am sure you would agree, that would be disastrous for the whole network.

The First Minister: I do not think that you should be pointing the finger at us, and saying that, because we have not yet managed to persuade the Westminster

eraill yn hytrach na'r rhaglen hon i gau swyddfeydd a gweithio gyda Swyddfa'r Post, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod gennym ddewis arall yn lle'r rhaglen i gau swyddfeydd sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal mewn cymunedau ledled Cymru ac na fydd y rhaglen hon yn effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno â hynny i gyd, ond mae'n ymwneud â chynhyrchu ffrydiau refeniw eraill. Sut y mae Swyddfa'r Post yn dod o hyd i ffrydiau refeniw newydd ar gyfer ei rhwydwaith o ganghennau? Rhaid i'r Llywodraeth leihau costau drwy ofyn am dendrau, ac mae Swyddfa'r Post wedi bod yn colli llawer o'r brwydrau tendro hyn. Ni wn pam, ond mae wedi colli'r frwydr ynghylch trwyddedau teledu, talu budd-daliadau, taliadau uniongyrchol i gyfrifon banc a defnyddio'r rhyngwyd. Fodd bynnag, yn ogystal â hynny mae 4 miliwn yn llai o bobl yn ymweld â'i changhennau bob wythnos, a rhaid i Swyddfa'r Post ddod o hyd i ffrydiau refeniw eraill i ddod â'r cwsmeriaid hynny yn ôl. Rhaid iddi ddarbwylllo cwsmeriaid fod rheswm da dros fynd i'r swyddfa bost, hyd yn oed os nad yw hynny ar gyfer prynu treth car neu adnewyddu trwydded teledu, y gall pobl ei wneud yn gynt o lawer ar-lein.

Peter Black: Ni allwch wadu rhan y Llywodraeth yn nirywiad busnes swyddfeydd post yn 2006-07—collodd Swyddfa'r Post £168 miliwn o fusnes gan y Llywodraeth. A ydych yn cytuno, os yw Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud safiad cryf yng nghyswllt sensitifrwydd cau'r swyddfeydd hyn, nad yw Llywodraeth San Steffan yn gwrando arnoch ar y mater hwn, o ystyried y cynigion presennol ar gyfer de-orllewin Cymru? A fydddech yn ystyried cyflwyno rhagor o sylwadau i Lywodraeth San Steffan, yn enwedig ynghylch cyfrif cerdyn swyddfa'r post? Mae postfeistri'n amcangyfrif, os collir y contract, y gallai 4,000 yn rhagor o ganghennau gau ledled y Deyrnas Unedig. Fel yr wyf yn siŵr y bydddech yn cytuno, byddai hynny'n drychinebus i'r rhwydwaith cyfan.

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn meddwl y dylech fod yn pwyntio'r bys atom ni, a dweud, oherwydd nad ydym eto wedi llwyddo i ddarbwylllo Llywodraeth San

Government to reverse its programme, that shows that the Assembly Government is ineffective. That is worse than Mike German's blame game, in my opinion.

The point that you make about revenue streams is important. You are quite right that the post office card account contract will undergo a competitive tendering exercise. We do not run that exercise, but I hope that the Westminster Government will understand the implications if the post office loses that, on top of the loss of business from car tax and television licensing renewal. It means that the generation of alternative revenue streams is even more urgent, because the post office card account was developed in order to provide such a revenue stream, and if it has proved to have lasted just a few years, until it comes up for renewal in 2010-11, that will be a massive blow.

Again, people have to use their card accounts, and the post office, if they want to save their local branch. We understand the pressure for lower costs, speed and convenience in a busy world, and the attraction of spending five minutes on the internet to renew your car tax instead of going to the post office, but it means that your local post office will not have as much business, and will possibly be threatened.

Integrated Children's Centres

Q8 Joyce Watson: Will the First Minister outline his priorities for integrated children's centres in Wales? OAQ(3)1047(FM)

The First Minister: We now have 43 high-quality integrated children's centres, or satellite units, in Wales. We are continuing our investment in this programme, with an emphasis on its work on tackling child poverty, especially in delivering Flying Start, the foundation phase and play opportunities.

Joyce Watson: On the Friday before last, I visited Jig-so children's centre in Cardigan, which has offered support and a safe play environment for parents, carers and children

Steffan i wrthdroi ei rhaglen, fod hynny'n dangos bod Llywodraeth y Cynulliad yn aneffeithiol. Mae hynny'n waeth na'r taflu bai a wnaeth Mike German, yn fy marn i.

Mae'r pwynt yr ydych yn ei wneud am ffrydiau refeniw yn bwysig. Yr ydych yn llygad eich lle y bydd ymarferiad tendro cystadleuol yn cael ei gynnal ynghylch contract cyfrif cerdyn swyddfa'r post. Nid ni sy'n cynnal yr ymarferiad hwnnw, ond gobeithiaf y bydd Llywodraeth San Steffan yn deall y goblygiadau os bydd swyddfa'r post yn colli hynny, ar ben colli busnes adnewyddu trwyddedau teledu a threth car. Mae'n golygu bod mwy o frys byth o ran cynhyrchu ffrydiau refeniw eraill, oherwydd cafodd cyfrif cerdyn swyddfa'r post ei ddatblygu er mwyn darparu ffrwd refeniw o'r fath, ac os gwelir mai dim ond am ychydig flynyddoedd y bydd wedi para, nes daw'n adeg ei adnewyddu yn 2010-11, bydd hynny'n ergyd drom.

Unwaith eto, rhaid i bobl ddefnyddio'u cyfrifon cerdyn, a'r swyddfa bost, os ydynt am achub eu cangen leol. Yr ydym yn deall y pwysau i gael costau is, cyflymder a hwylustod mewn byd prysur, ac atyniad treulio pum munud ar y rhyngwyd i adnewyddu eich treth car yn hytrach na mynd i'r swyddfa bost, ond mae'n golygu na fydd gan eich swyddfa bost leol gymaint o fusnes, ac efallai y bydd dan fygythiad.

Canolfannau Plant Integredig

C8 Joyce Watson: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer canolfannau plant integredig yng Nghymru? OAQ(3)1047(FM)

Y Prif Weinidog: Bellach mae gennym 43 o ganolfannau plant integredig, neu is-unedau, o ansawdd uchel yng Nghymru. Yr ydym yn parhau â'n buddsoddiad yn y rhaglen hon, gyda phwyslais ar ei gwaith o ran mynd i'r afael â thlodi plant, yn enwedig o ran darparu Dechrau'n Deg, y cyfnod sylfaen a chyfleoedd i chwarae.

Joyce Watson: Wythnos i ddydd Gwener, ymwelais â chanolfan plant Jig-so yn Aberteifi, sydd wedi cynnig cefnogaeth ac amgylchedd chwarae diogel ar gyfer rhieni,

in the community for the last 16 years. This year, the centre has started a new dads' club, and is planning new initiatives to offer support to one-parent families. Would you join me in congratulating Jig-so on this service for the community, and wish the centre every success for its future projects?

The First Minister: Integrated children's centres are attractive for children, single-parent mothers, new dads, and a wide range of people who are making good use of the centres that are being set up. They are doing the work they were intended to do—that is certainly the case with the ones that I have visited—and they are very jolly places, and I recommend that Members visit them. It is a real lift to the spirits to see what is going on in those centres, with Flying Start and other programmes being delivered.

Road Safety

Q9 Brynle Williams: Will the First Minister make a statement on Welsh Assembly Government priorities for road safety in north Wales? OAQ(3)1048(FM)

The First Minister: Reducing the number of road casualties in all parts of Wales is a priority for the Welsh Assembly Government. Road safety is an intrinsic element of our trunk road management procedures, and we also provide grants to local authorities to reduce casualties on their roads.

Brynle Williams: As you are aware, there have unfortunately been a number of serious accidents on the A55. Most recently, we saw it closed for six and a half hours in the early morning. Closures of this length are, regrettably, becoming the norm, and it is causing severe disruption to other road users, businesses and so on. Do you agree that it is time for your Government to work with North Wales Police to find a way to keep these disruptions to a minimum? I am well aware that, when there is a major accident, it has to be investigated, but with digital

gofalwyr a phlant yn y gymuned yn ystod yr 16 mlynedd diwethaf. Eleni, mae'r ganolfan wedi dechrau clwb newydd i dadau, ac mae ganddi fentrau newydd ar y gweill i gynnig cefnogaeth i deuluoedd un rhiant. A fydech yn ymuno â mi i longyfarch Jig-so ar y gwasanaeth hwn i'r gymuned a dymuno pob llwyddiant i'r ganolfan gyda'i phrosiectau yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Mae canolfannau plant integredig yn ddeniadol i blant, i famau un rhiant, i dadau newydd ac i amrywiaeth eang o bobl sy'n manteisio i'r eithaf ar y canolfannau sy'n cael eu sefydlu. Maent yn cyflawni'r gwaith y bwriadwyd iddynt ei wneud—mae hynny'n arbennig o wir o ran y rhai yr wyf wedi ymweld â hwy—ac maent yn lleoedd hwyliog dros ben, ac yr wyf yn argymhell bod Aelodau yn ymweld â hwy. Mae'n codi eich calon gweld beth sy'n digwydd yn y canolfannau hynny, a Dechrau'n Deg a rhaglenni eraill yn cael eu cyflwyno ynddynt.

Diogelwch ar y Ffyrdd

C9 Brynle Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd yn y gogledd? OAQ(3)1048(FM)

Y Prif Weinidog: Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw lleihau nifer y damweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru. Mae diogelwch ar y ffyrdd yn rhan annatod o'n gweithdrefnau rheoli cefnffyrdd ac yr ydym hefyd yn darparu grantiau i awdurdodau lleol leihau damweiniau ar eu ffyrdd.

Brynle Williams: Fel y gwyddoch, yn anffodus bu nifer o ddamweiniau difrifol ar yr A55. Yn ddiweddar, gwelsom gau'r ffordd am chwe awr a hanner yn gynnar yn y bore. Yn anffodus mae cau am gyfnodau o'r fath yn dod yn gyffredin ac mae'n tarfu'n ddifrifol ar ddefnyddwyr eraill y ffordd, ar fusnesau ac yn y blaen. A ydych yn cytuno ei bod yn hen bryd i'ch Llywodraeth weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i ddod o hyd i ffordd o darfu cyn lleied ag sy'n bosibl? Yr wyf yn gwybod yn iawn, pan fydd damwain fawr, fod yn rhaid ymchwilio iddi, ond gyda

imagery and measurements and so on, I think that the delays might get longer.

The First Minister: On these hugely important east-west arteries, like the A55 and the M4, the disruption that is caused when there is a serious road accident and a death is involved is much greater than was previously the case, because it becomes a crime scene, with both carriages often being closed so that a full-scale scene of crime investigation

3.00 p.m.

can take place. That is a different procedure from anything that we knew five years ago. You get these highly disruptive closures in order to allow the completion of a scene of crime investigation in a way that never happened previously.

With regard to the A55 in general, I do not have figures for 2007 or the first months of 2008 yet, but the trend has been downward. The number of personal injury accidents on the A55 dropped from 140 in 2002 to 89 in 2006. When we get the 2007 figures, I will let you have them to see whether the downward trend has continued or whether there is evidence that things have got worse recently.

Alun Ffred Jones: Nid oes dwywaith fod ffyrdd osgoi yn gallu helpu'r sefyllfa mewn rhai trefi a phentrefi wrth symud y traffig trwm ymaith. Mae hynny wedi digwydd yn achos Pen-y-groes a Dyffryn Nantlle. Mae un ardal yn fy etholaeth yn peri pryder, sef y Bontnewydd, lle mae'r traffig yn drwm ac mae ysgol ar ochr y ffordd. A rowch addewid y bydd eich Llywodraeth yn bwrw ymlaen â chynllun ffordd osgoi i'r Bontnewydd ac, yn y pendraw, i Gaernarfon hefyd?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn gwybod mor bwysig mae pentref y Bontnewydd yn yr ardal ac am y personoliaethau hollbwysig sy'n byw yno. Mae'n fater pwysig yn gyffredinol inni gael ffyrdd osgoi lle mae pwysau traffig neu berygl oherwydd y ffordd y mae heol wedi'i chynllunio yn golygu peryglon sydd yn fwy na'r arfer. Ni wn beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran gallu gosod

delweddau a mesuriadau digidol ac yn y blaen, credaf y gallai'r oedi fynd yn hwy.

Y Prif Weinidog: Ar y rhydweliâu pwysig iawn hyn rhwng y dwyrain a'r gorllewin, megis yr A55 a'r M4, mae'r tarfu a achosir pan fydd damwain ffordd ddifrifol a marwolaeth yn fwy o lawer na'r hyn a oedd yn digwydd o'r blaen, oherwydd ei bod yn safle trosedd, a'r ffordd i'r naill gyfeiriad a'r llall yn cael ei chau yn aml er mwyn gallu ymchwilio'n llawn ar safle'r trosedd.

Mae honno'n weithdrefn sy'n wahanol i'r hyn yr oeddem yn gyfarwydd ag ef bum mlynedd yn ôl. Caeir y ffordd fel hyn, gan achosi trafferth fawr, fel y gellir cwblhau ymchwiliad ar safle'r trosedd, ac ni fyddai fyddai hynny byth yn digwydd o'r blaen.

O ran yr A55 yn gyffredinol, nid wyf wedi cael ffigurau ar gyfer 2007 neu fisoedd cyntaf 2008 eto, ond mae'r duedd wedi bod ar i lawr. Gostyngodd nifer y damweiniau ar yr A55 lle y cafwyd anafiadau personol o 140 yn 2002 i 89 yn 2006. Pan gawn y ffigurau ar gyfer 2007, gadawaf ichi eu cael er mwyn gweld a yw'r duedd ar i lawr wedi parhau neu a oes tystiolaeth bod pethau wedi gwaethygu'n ddiweddar.

Alun Ffred Jones: There is no doubt that by-passes can ease congestion in some towns and villages by diverting heavy traffic. This has happened in the case of Pen-y-groes and Dyffryn Nantlle. There is one area in my constituency that is a concern, namely Bontnewydd, where the traffic is heavy with a school situated by the side of the road. Will you give a promise that your Government will press ahead with a by-pass scheme for Bontnewydd and, eventually, for Caernarfon as well?

The First Minister: I know how important the village of Bontnewydd is in the area and of the well-known personalities who live there. Generally, it is important that by-passes are built where heavy traffic or a risk due to a road's layout mean that the danger is higher than usual. I do not know what the latest situation is regarding setting a definite month or year to start building the by-pass,

mis neu flwyddyn i ddechrau ar y ffordd osgoi, ond gofynnaf i Ieuan Wyn Jones ateb eich cwestiwn yn fanwl.

but I will ask Ieuan Wyn Jones to answer your question in more detail.

Gwella Gwasanaethau Bysiau

Improving Bus Services

C10 Paul Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i wella gwasanaethau bysiau yng Nghymru? OAQ(3)1059(FM)

Q10 Paul Davies: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to improve bus services in Wales? OAQ(3)1059(FM)

Y Prif Weinidog: Mae strategaeth trafndiaeth Cymru yn gosod ein gwledigaeth am system fysiau o safon dda. Yn ogystal, mae'r Mesur Trafnidiaeth Leol yn cynnig fframwaith gwell ar gyfer partneriaethau bysiau o safon. Yr ydym wrthi'n adolygu'r cymorthdaliadau bysiau er mwyn eu targedu'n fwy effeithiol.

The First Minister: The Wales transport strategy sets out our vision for a high quality bus system. In addition, the Local Transport Bill provides an enhanced framework for bus quality partnerships. We are reviewing the bus subsidies so that they can be targeted more effectively.

Paul Davies: Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn buddsoddi'n ddigonol yn ein gwasanaethau bysiau, yn enwedig mewn ardaloedd fel fy etholaeth i am eu bod mor wledig. Mae pobl ddall yn ei chael yn anodd defnyddio bysiau oherwydd diffyg gwybodaeth a gwasanaethau ar eu cyfer. Mae hon hefyd yn broblem i grwpiau eraill o bobl ag anabledd. Mae trenau newydd yn gorfod darparu gwybodaeth a gwasanaethau i'r deillion o dan y rheolau. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol ar i fysiau gyflwyno'r fath wasanaethau. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i annog darparu gwybodaeth a gwasanaethau i'r deillion ar fysiau?

Paul Davies: It is essential that the Government invests sufficiently in our bus services, especially in rural areas such as my constituency. Blind people find it difficult to use buses because of the lack of information and services provided for them. This is also a problem for other groups of disabled people. Regulations now make it compulsory for new trains to provide information and services for the blind. Buses currently do not have to provide such services. Can the First Minister tell us what the Assembly Government is doing to encourage the provision of information and services to the blind on buses?

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi clywed am ymgyrch grŵp o bobl yn ymwneud â chŵn tywys i geisio helpu pobl ddall allu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Yr wyf wedi clywed am eu gofyniadau ynglŷn â sut mae cael gwybodaeth nad yw'n dibynnu ar allu rhywun i weld arwyddion, gan ofyn am rybuddion ac ati y gellir eu clywed. Mae nifer fawr o faterion i ddelio â hwy ynglŷn ag ymgyrch y grŵp, a gofynnaf i Ieuan ateb yn benodol y cwestiwn hwn.

The First Minister: I am aware of the campaign group involving guide dogs to try to help blind people to use public transport. I have heard of their requirements regarding accessing information that does not depend on someone's ability to see signs, by calling for warnings that can be heard and so on. There are many issues to be dealt with regarding the group's campaign, and I will ask Ieuan to answer this question specifically.

Bethan Jenkins: Yr wyf wedi cael nifer o lythyrau oddi wrth etholwyr yn ardal Trelewis yng Nghwm Ogwr yn sôn am y ffaith nad oes digon o wasanaethau bysiau ar gael iddynt drafaelu i Gwm Ogwr i brynu

Bethan Jenkins: I have received a number of letters from constituents in the Lewistown area of Ogmores Vale regarding the lack of sufficient bus services for them to travel to Ogmores Vale to buy goods. Is there a way of

nwyddau ac ati. A oes modd gwneud y llwybr yn fwy diogel fel y caiff bysiau fynd i mewn i'r pentref canolog hwn ac i sicrhau y caiff pobl leol deithio i'r pentref ac yn ôl a chyrraedd adnoddau megis swyddfydd post ac ati?

Y Prif Weinidog: Nid wyf wedi ymweld â Chwm Ogwr ers tua dwy neu dair blynedd, ond yr wyf wedi siarad yn ddiweddar â phobl sy'n byw yn y cylch hwnnw. Yr oeddent yn siarad am y newid yn y patrwm cymdeithasol o ganlyniad i dai newydd yn cael eu hadeiladu ymhlith yr hen derasau glowyr mewn pentrefi megis Pricetown, Nant-y-moel, Cwm Ogwr, ac ati.

Mae'n bwysig, felly, bod gwasanaethau cyhoeddus yn addasu i'r sefyllfa gymdeithasol newydd o ran ble mae pobl eisiau mynd, a pha fath o wasanaethau y maent eisiau eu cyrraedd drwy ddefnyddio'r bws, cerdded neu deithio ar gefn beic. Felly, mater yn benodol i'r gyfundrefn Lafur newydd sydd wedi ennill grym ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw hwn, ac efallai y gofynnaf i'r cyngor eich ateb yn benodol.

Kirsty Williams: Would you agree, First Minister, that one way in which your Government could help councils to improve local bus services is to announce the local transport services grant for this financial year? Last year, that grant was announced in February; we are now two months into this new financial year, and local authorities are acting illegally by continuing to fund routes for which they have not been allocated money from the Assembly. In my constituency, that grant makes up 40 per cent of the funding available to provide bus services. When does your Government intend to make an announcement on this grant?

The First Minister: I do not have a specific date for the announcement. However, as I mentioned earlier, we are reviewing bus services so that they can be targeted more effectively; that may be one of the reasons for the problem to which you referred. There is also the Local Transport Bill, which provides an enhanced framework for bus quality

safeguarding the future of the route so that buses can go to this central village and ensure that people can travel back and forth to the village to access facilities such as post offices?

The First Minister: I have not visited Ogmores Vale for about two or three years, but I have been speaking lately with people who live in the area. They mentioned the changing social pattern as a result of new homes being built amongst the former miners' terraces in villages such as Pricetown, Nant-y-moel, Ogmores Vale and so on.

It is important, therefore, that public services adapt to the new social situation regarding where people want to travel to and what type of services they want to access by bus, by walking or by cycling. This is an issue for the new Labour administration that has gained power in Bridgend County Borough Council, and I may ask the council to reply to you directly.

Kirsty Williams: A gytunech, Brif Weinidog, mai un modd y gallai eich Llywodraeth helpu cyngorau i wella gwasanaethau bysiau lleol yw drwy gyhoeddi'r grant gwasanaethau trafndiaeth lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon? Y llynedd, cyhoeddwyd y grant hwnnw ym mis Chwefror; mae dau fis o'r flwyddyn ariannol newydd hon wedi mynd heibio, ac mae awdurdodau lleol yn gweithredu'n anghyfreithlon drwy barhau i ariannu llwybrau na ddyrannwyd arian iddynt ar eu cyfer gan y Cynulliad. Yn fy etholaeth i, y grant hwnnw yw 40 y cant o'r cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau bysiau. Pa bryd y mae eich Llywodraeth yn bwriadu gwneud cyhoeddiad am y grant hwn?

Y Prif Weinidog: Nid oes gennyf ddyddiad penodol ar gyfer y cyhoeddiad. Serch hynny, fel y dywedais yn gynharach, yr ydym yn adolygu gwasanaethau bysiau fel y gellir eu targedu'n fwy effeithiol; gallai hynny fod yn un o'r rhesymau dros y broblem y cyfeiriasoch ati. Yn ogystal mae'r Mesur Trafndiaeth Leol, sy'n darparu fframwaith

partnerships, and the Wales transport strategy is clear in its commitment. What the local authority is doing may or may not be illegal—I cannot comment on that. However, we are reviewing bus subsidies to try to target them more effectively.

gwell ar gyfer partneriaethau ansawdd bysiau, ac mae ymrwymiad clir yn strategaeth drafnidiaeth Cymru. Efallai fod yr hyn y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud yn anghyfreithlon neu efallai nad ydyw—ni allaf gyflwyno sylwadau am hynny. Fodd bynnag, yr ydym yn adolygu cymorthdaliadau bysiau er mwyn ceisio'u targedu'n fwy effeithiol.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): There are a few changes to report to this week's planned Government business. In response to a request for additional time from the person leading the independent review of Health Commission Wales, today's statement on HCW has been deferred until next Tuesday, 10 June. In its place, there will be a statement by Edwina Hart on Alan Axford's review of hospital services in Ceredigion. Today's statement on sustainable development has also been deferred until next Tuesday, 10 June. Otherwise, business for the next three weeks is as set out in the draft business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Mae ychydig newidiadau i'w nodi ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Mewn ymateb i gais am amser ychwanegol gan y sawl sy'n arwain yr adolygiad annibynnol o Gomisiwn Iechyd Cymru, mae'r datganiad heddiw am y comisiwn wedi'i ohirio tan ddydd Mawrth nesaf, 10 Mehefin. Yn ei le, bydd datganiad gan Edwina Hart am adolygiad Alan Axford o wasanaethau ysbytai yng Ngheredigion. Mae'r datganiad heddiw am ddatblygu cynaliadwy wedi'i ohirio hefyd tan ddydd Mawrth nesaf, 10 Mehefin. Fel arall, mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes drafft, y gellir ei weld ymysg papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

Jonathan Morgan: Will you ask the Minister for Health and Social Services to make a statement in the Chamber in the next few weeks on the problems faced by hospitals in combating C.difficile, as well as the challenges faced in general by NHS hospitals in combating the spread of hospital-based infections, and on the information that was uncovered by the BBC in yesterday's *Week In Week Out* programme, particularly about the Royal Gwent Hospital? There are clearly problems for hospitals in Wales in combating the spread of infection, and much more needs to be done. It is time that the Assembly had a chance to examine the strategy that the Minister is following to combat this problem.

Jonathan Morgan: A wnewch ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad yn y Siambr yn ystod yr wythnosau nesaf am y problemau y mae ysbytai'n eu hwynebu wrth ymladd yn erbyn C.difficile, yn ogystal â'r heriau y mae ysbytai'r GIG yn eu hwynebu'n gyffredinol wrth wrthsefyll lledaeniad heintiau mewn ysbytai, ac am y wybodaeth a ddadlennwyd gan y BBC yn y rhaglen *Week In Week Out* ddoe, yn enwedig ynghylch Ysbyty Brenhinol Gwent? Mae'n amlwg bod ysbytai yng Nghymru'n cael problemau o ran gwrthsefyll lledaeniad heintiau, ac mae angen gwneud llawer mwy. Mae'n bryd i'r Cynulliad gael cyfle i archwilio'r strategaeth y mae'r Gweinidog yn ei dilyn i ymladd yn erbyn y broblem hon.

Carwyn Jones: Anyone would sympathise with those who have lost someone as a result of C.difficile in a hospital. That is natural,

Carwyn Jones: Byddai pawb yn cydymdeimlo â'r rhai sydd wedi colli rhywun o ganlyniad i C.difficile mewn ysbyty. Mae

and that is the Government's view. However, we do not make statements based on questionable documentaries—it is as simple as that. This documentary has annoyed staff who have worked in that hospital, and it was not based wholly on fact. It is the case, and has been for many years, that *C.difficile* has been present in hospitals in Wales, but it is wrong to say that there is some kind of crisis. I have seen calls for the Auditor General to be involved, but what on earth the Auditor General can do in terms of auditing a hospital over a clinical issue is beyond me, and I suspect beyond most people in this Chamber. I state clearly—and this view is shared by all members of the Government, and by all Members on this side of the Chamber—that it is wholly irresponsible to say at any time that somehow there is a problem with hospitals in Wales, and that people should not go into them. Hospitals in Wales are perfectly safe, and people should go into them.

Chris Franks: Will you provide time to discuss job prospects in the Heads of the Valleys area? Last week, the loss of over 50 jobs was announced by Ferrari bakery in Hirwaun, which is run by Best Bakeries. Today, we hear news that some of the Ferrari shops in the Valleys have not opened. Do you agree that the economic policy of the UK Government hits communities such as the Heads of the Valleys?

3.10 p.m.

Carwyn Jones: I would not. If you look at what has happened over the past 10 years, we have seen a tremendous improvement in people's lives, living conditions and job prospects, compared with the locust years of the 1980s when there was despair, and a lack of hope, jobs and money. Matters have improved greatly since then.

It is our intention as the One Wales Government to build on the good work that has been carried out in Wales over past years, and to ensure that the economic growth that we have seen through the gross disposable

hynny'n naturiol, a hynny yw barn y Llywodraeth. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwneud datganiadau ar sail rhaglenni dogfen dadleuol—mae mor syml â hynny. Mae'r rhaglen ddogfen hon wedi cythruddo staff sydd wedi gweithio yn yr ysbyty hwnnw, ac nid oedd wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar ffeithiau. Mae'n wir, a hynny ers blynyddoedd lawer, fod *C.difficile* wedi bod yn bresennol mewn ysbytai yng Nghymru, ond anghywir yw dweud bod rhyw fath o argyfwng. Yr wyf wedi gweld galwadau am i'r Archwilydd Cyffredinol ymwneud â hyn, ond nid wyf fi, na'r rhan fwyaf o'r bobl yn y Siambr hon, yr wyf yn amau, yn gallu gweld beth ar y ddaear y gall yr Archwilydd Cyffredinol ei wneud o ran archwilio ysbyty ynghylch mater clinigol. Dywedaf yn glir—a dyma farn holl aelodau'r Llywodraeth, a'r holl Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr—ei bod yn hollol anghyfrifol dweud ar unrhyw adeg fod problem o ryw fath mewn cysylltiad ag ysbytai yng Nghymru, ac na ddylai pobl fynd iddynt. Mae ysbytai yng Nghymru yn berffaith ddiogel, a dylai pobl fynd iddynt.

Chris Franks: A wnewch neilltuo amser i drafod y rhagolygon ar gyfer swyddi yn ardal Blaenau'r Cymoedd? Yr wythnos diwethaf, cafwyd cyhoeddiad am gollu mwy na 50 o swyddi gan bopty Ferrari yn Hirwaun, sy'n cael ei redeg gan Best Bakeries. Heddiw, yr ydym yn clywed y newydd nad yw rhai o siopau Ferrari yn y Cymoedd wedi agor. A ydych yn cytuno bod polisi economaidd Llywodraeth y DU yn amharu ar gymunedau fel Blaenau'r Cymoedd?

Carwyn Jones: Ni fyddwn yn cytuno. Os edrychwch ar yr hyn sydd wedi digwydd dros y 10 mlynedd diwethaf, yr ydym wedi gweld gwelliant aruthrol ym mywydau pobl, mewn amodau byw ac mewn rhagolygon ar gyfer swyddi, o'i gymharu â blynyddoedd y locust yn yr 1980au pan oedd anobaith a diffyg swyddi ac arian. Mae pethau wedi gwella'n fawr ers hynny.

Ein bwriad fel Llywodraeth Cymru'n Un yw adeiladu ar sail y gwaith da sydd wedi'i wneud yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, a sicrhau parhad y twf economaidd yr ydym wedi'i weld drwy fesur incwm

household income measurement is continued. aelwydd crynswth i'w wario.

Kirsty Williams: I will return to the issue of bus services. The First Minister seems to be labouring under the misapprehension that you are reviewing bus services. Indeed, the Government has announced a review into the operation of the bus service operators grant. You will realise that this is a different grant scheme from what I was asking about, which was the local transport services grant. Your Government announced the finances for that grant in February last year. We are now two months into the current financial year, and councils are running bus services in the hope that your Government might, at some stage, announce that grant. Officials have been saying that the announcement is imminent since February. Will you find time in your schedule to allow the Deputy First Minister and the Minister for the Economy and Transport to come to this Chamber to announce the funding for the local transport services grant? It can then be ensured that bus services can continue—that cannot happen at present, given your Government's failure to announce that grant scheme.

Carwyn Jones: The announcement will be made in the very near future.

Alun Davies: Will the Government make a statement on pollution in south west Wales? You will be aware that there have been a number of incidents in the Bury Inlet and the River Tywi recently that have threatened the local environment, the cockle fishery and other fisheries and public health. There is great public concern throughout the Carmarthenshire region, and we would be grateful if the Government would make a statement on its reaction to these incidents of pollution.

Carwyn Jones: The cockle beds of the Bury Inlet are important to the area, as cockle beds are to the Gower peninsula and other parts of Wales, such as Deeside. There have been problems in recent years with diarrhetic shellfish poisoning in the Bury Inlet. There have been occasions when the fishery has

Kirsty Williams: Dychwelaf at fater gwasanaethau bysiau. Mae'n ymddangos bod y Prif Weinidog yn camgymryd gan feddwl eich bod yn adolygu gwasanaethau bysiau. Yn wir, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi adolygiad o weithrediad y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau. Byddwch yn sylweddoli bod y cynllun grant hwn yn wahanol i'r un yr oeddwn yn holi yn ei gylch, sef y grant gwasanaethau trafndiaeth lleol. Cyhoeddodd eich Llywodraeth y cyllid ar gyfer y grant hwnnw ym mis Chwefror y llynedd. Mae dau fis o'r flwyddyn ariannol bresennol wedi mynd heibio bellach, ac mae cynghorau'n rhedeg gwasanaethau bysiau gan obeithio y gallai'ch Llywodraeth gyhoeddi'r grant hwnnw rywbryd neu'i gilydd. Mae swyddogion wedi bod yn dweud bod y cyhoeddiad ar fin cael ei wneud ers mis Chwefror. A wnewch neilltuo amser yn eich amserlen i ganiatáu i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ddod i'r Siambr hon i gyhoeddi'r cyllid ar gyfer y grant gwasanaethau trafndiaeth lleol? Gellir sicrhau wedyn y bydd gwasanaethau bysiau'n gallu parhau—ni all hynny ddigwydd ar hyn o bryd, oherwydd nad yw eich Llywodraeth wedi cyhoeddi'r cynllun grant hwnnw.

Carwyn Jones: Gwneir y cyhoeddiad yn y dyfodol agos iawn.

Alun Davies: A wnaiff y Llywodraeth ddatganiad am lygredd yn ne-orllewin Cymru? Byddwch yn ymwybodol bod nifer o ddigwyddiadau yng Nghilfach Tywyn ac afon Tywi yn ddiweddar sydd wedi bygwth yr amgylchedd lleol, y bysgodfa gocos a physgodfeydd eraill ac iechyd cyhoeddus. Mae pryder mawr ymysg y cyhoedd ledled yr ardal yn sir Gaerfyrddin, a byddem yn ddiolchgar petai'r Llywodraeth yn gwneud datganiad am ei hymateb i'r achosion hyn o lygredd.

Carwyn Jones: Mae gwelyau cocos Cilfach Tywyn yn bwysig i'r ardal, fel y mae gwelyau cocos i benrhyn Gŵyr a rhannau eraill o Gymru, fel glannau Dyfrdwy. Bu problemau yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd gwenwyn diaretig pysgod cregyn yng Nghilfach Tywyn. Mae'r bysgodfa

been closed, as has been the case for at least one other fishery that I am aware of in Wales. I am sure that Elin Jones, the Minister for Rural Affairs, will be able to answer your questions on this. It is a problem that has occurred on more than one occasion in the past.

Brynle Williams: Would it be possible to make time for a debate on what is becoming an extremely serious situation regarding fuel? We have heard this afternoon about how it affects senior citizens, but it is affecting every aspect of life. Although oil is a worldwide commodity, surely we need to debate this serious issue and its impact on food production, rural communities, the elderly and every aspect of life. It seems that no-one wants to discuss it.

Carwyn Jones: We know that there is a difficulty with the world price of oil. I note that it is now at around \$126.90 a barrel. That is the latest price, which is below the \$135 level that it was at last week. Hopefully, that will lead to a decrease in the price of diesel and petrol at the pumps and a decrease in prices further down the economy as well. The reality is that the easy oil that was found in the 1960s has gone. There is no more easy oil available. The oilfields that are available now require a tremendous amount of investment to reach the oil, and we have to accept that oil prices are never going to fall to the level that they were at even five or six years ago.

We have to consider as a society, not only in Wales but throughout Europe and the world, how we move towards economies that are less dependent on oil, particularly with the development of hybrid cars and hydrogen fuel cells. Last week there was the launch of an electric car that does 0 to 60 mph in 4 seconds, which is considerably faster than your average milk float, and has a range of 225 miles. It is not a cheap car at present, but it is a start in terms of developing the technology. The next five to 10 years will be absolutely crucial in terms of moving forward to a low-carbon, less oil-reliant economy that will lead to food prices in the medium term decreasing and people finding the cost of living decreasing, but we cannot pretend, as a

wedi'i chau rai troeon, ac mae hynny wedi digwydd i o leiaf un bysgodfa arall y gwn amdani yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr y bydd Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, yn gallu ateb eich cwestiynau am hyn. Mae'n broblem sydd wedi codi fwy nag unwaith yn y gorffennol.

Brynle Williams: A fyddai'n bosibl neilltuo amser ar gyfer dadl ar sefyllfa sy'n troi'n un ddifrifol iawn mewn cysylltiad â thanwydd? Yr ydym wedi clywed y prynhawn yma am ei heffaith ar ddinasyddion hŷn, ond mae'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd. Er bod olew'n nwydd rhyngwladol, mae'n sicr bod angen inni gael dadl ar y mater difrifol hwn a'i effaith ar gynhyrchu bwyd, cymunedau gwledig, yr henoed a phob agwedd ar fywyd. Mae'n ymddangos nad oes neb sydd am ei drafod.

Carwyn Jones: Gwyddom fod anhawster oherwydd pris rhyngwladol olew. Sylwaf ei fod bellach tua \$126.90 y gasgen. Dyna'r pris diweddaraf, ac mae hynny'n is na'r lefel yr wythnos diwethaf, sef \$135. Gobeithio y bydd hynny'n arwain at ostyngiad ym mhris diesel a phetrol wrth y pŷmpiau a gostyngiad mewn prisiau eraill yn yr economi hefyd. Y gwir yw bod yr olew hawdd ei gael a ddarganfuwyd yn yr 1960au wedi mynd. Nid oes rhagor o olew hawdd ar gael. Mae angen buddsoddiadau anferth i gyrraedd yr olew yn y meysydd olew sydd ar gael erbyn hyn, a rhaid inni dderbyn na fydd prisiau olew byth yn disgyn i'r lefel yr oeddent bum neu chwe blynedd yn ôl hyn yn oed.

Rhaid inni ystyried fel cymdeithas, nid yn unig yng Nghymru ond ledled Ewrop a'r byd, sut y datblygwn economïau sy'n llai dibynnol ar olew, yn enwedig drwy ddatblygu ceir hybrid a cheir celloedd tanwydd hydrogen. Yr wythnos diwethaf lanswyd car trydan sy'n cyflymu o 0 i 60 milltir yr awr mewn 4 eiliad, sy'n gynt o lawer na'r fan laeth gyffredin, a gall fynd am 225 o filltiroedd. Nid yw'n gar rhad ar hyn o bryd, ond mae'n fan cychwyn o ran datblygu'r dechnoleg. Bydd y pump i 10 mlynedd nesaf yn gwbl hanfodol o ran symud ymlaen at economi carbon-isel, sy'n dibynnu llai ar olew, a fydd yn arwain at ostyngiad ym mhrisiau bwyd yn y tymor canolig a phobl yn gweld bod costau byw'n gostwng, ond ni allwn, fel cymdeithas,

society, that somehow the price of oil will decrease to historically low levels, because the amount of oil that is in the ground that can be easily accessed is diminishing.

gymryd arnom y bydd pris olew rywsut yn gostwng i lefelau isel yn hanesyddol, oherwydd prinhaus y mae'r olew sydd yn y ddaear y gellir cael gafael arno'n rhwydd.

3.15 p.m.

Nerys Evans: Clywsom ateb y Prif Weinidog yn gynharach i gwestiwn am roi datganiad am gau mwy o swyddfeydd post yng ngorllewin Cymru. Yn sgîl yr ymosodiadau cwbl ddiegwyddor hyn ar gymunedau Cymru, a fyddai modd cael datganiad yn ystod amser y Llywodraeth ar sut y bydd Llywodraeth Cymru'n Un yn helpu'r cymunedau a fydd yn colli'r gwasanaeth pwysig hwn yn y dyfodol? O ystyried nad yw'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yng Nghymru, er eu bod yn effeithio'n enfawr ar ein cymunedau, a oes modd cael datganiad yn amser y Llywodraeth ar sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu cryfhau cynrychiolaeth a llais Cymru o ran y penderfyniadau annheg hyn sydd yn cael eu gwneud ar ein rhan nes y byddwn yn cael senedd go iawn?

Nerys Evans: We heard the First Minister's answer to a question earlier about giving a statement on more post offices closing in west Wales. In the wake of the unprincipled attacks on Welsh communities, would it be possible to have a debate in Government time on how the One Wales Government will assist the communities that are going to lose this important service in the future? Given that these decisions are not taken in Wales, even though they have a massive impact on our communities, would it be possible to have a statement in Government time on how the Government intends to strengthen Wales's representation and voice with regard to these unfair decisions that are being made on our behalf until such time as we have a proper parliament?

Carwyn Jones: Y broblem gyda rhai o'r swyddfeydd post yw bod eu perchennogion am eu cau. Mae hynny'n broblem mewn sawl rhan o Gymru, ond nid ym mhobman, wrth gwrs. Mae rhai am sefyll ar agor, ac mae'r cymunedau sydd â swyddfeydd post, yn naturiol, am iddynt aros ar agor. Ni allaf ychwanegu at yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog, sef ei bod yn bwysig bod pobl yn defnyddio'r swyddfeydd post yn eu hardaloedd. Nid yw hynny'n digwydd, a gwyddom hynny wrth edrych ar y ffigurau. Mae'n bwysig bod pobl yn defnyddio'r hyn sydd ganddynt os ydynt am ei gadw.

Carwyn Jones: The problem with some of the post offices is that their owners want to close them. That is a problem in many parts of Wales, but not everywhere of course. Some want to remain open, and, naturally, the communities that have post offices want to keep them open. I cannot add anything to what the First Minister said, namely that it is important that people use the post offices in their areas. That is not happening, and we know that from looking at the figures. It is important that people use what they have if they want to keep it.

O ran yr hyn y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud, gwn fod cynlluniau i ailystyried y gronfa datblygu yn y dyfodol, ond mae'n bwysig nad yw arian yn cael ei roi i swyddfeydd post a fydd yn cau beth bynnag, oherwydd efallai y byddai'n rhaid i'r perchennogion ad-dalu'r arian. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod yr arian yn mynd i swyddfeydd post sydd â dyfodol ac a fydd yn gallu aros ar agor ac nid i'r swyddfeydd post a fydd yn cau beth bynnag. Mae honno'n egwyddor bwysig.

On what the Government can do, I know that there are plans to reconsider the development fund in the future, but it is important that funding is not given to post offices that will close anyway, because the owners might have to pay the money back. Therefore, it is important to ensure that the money goes to post offices that have a future and which can remain open and not to the post offices that will close anyway. That is an important principle.

Alun Cairns: Many teachers, headteachers, governors and parents are confused about the roll-out of the foundation phase in September. Given that there are just five weeks before the end of the term, by which time the whole arrangement should be in place for September, and that the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills is meeting the unions on 9 June, will the Leader of the House advise us on what opportunity he will make available for the Minister to make a statement and for a full and frank debate about the crisis in this area of policy, which is a flagship policy for the Assembly Government, soon after 9 June?

Carwyn Jones: I do not accept that there is a crisis. Local authorities have been notified of the conditions for the grant available in 2008-09 to roll out the foundation phase. The grant conditions require local authorities to submit revised plans for utilising their share of the grant for 2008-09 by 30 May. I hope that they are responding this time around, because so many did not do so last time around. Officials have met all local authorities to discuss their plans and concerns over funding, and they have discussed what can be delivered within the available resources. I know that the Finance Committee is currently considering this matter, and I understand that it was considered in the meeting on 22 May. The Minister held the first meeting of the foundation phase implementation task and finish group on 6 May and a second meeting is planned for 9 June. Therefore, much has been done to ensure that the foundation phase rolls out as planned.

Angela Burns: I too would like to request a debate on the post office closure programme. I heard your answer to my colleague, Nerys Evans, and I also heard what the First Minister said earlier. The opposition parties have put this forward as a subject for debate a number of times because it is very important to the people of Wales and it is important that we understand the matter. I totally understand that it is not a devolved issue, but, nonetheless, surely one of the Assembly's duties is to help to inform the Government in Westminster of public opinion, and to advise

Alun Cairns: Mae llawer o athrawon, penaeithiaid, llywodraethwyr a rhieni'n teimlo'n ddryslyd ynglŷn â chyflwyno'r cyfnod sylfaen ym mis Medi. O gofio mai dim ond pum wythnos sydd cyn diwedd y tymor, ac y dylai'r holl drefniadau fod wedi'u gwneud ar gyfer mis Medi erbyn hynny, a bod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'n cyfarfod â'r undebau ar 9 Mehefin, a wnaiff Arweinydd y Tŷ ddweud wrthym pa gyfle y bydd yn ei ddarparu i'r Gweinidog roi datganiad ac inni gael dadl lawn ac agored am yr argyfwng yn y maes polisi hwn, un o brif bolisiau Llywodraeth y Cynulliad, yn fuan ar ôl 9 Mehefin?

Carwyn Jones: Nid wyf yn derbyn bod argyfwng. Mae awdurdodau lleol wedi cael gwybod am yr amodau ar gyfer y grant a fydd ar gael yn 2008-09 i gyflwyno'r cyfnod sylfaen. Yn ôl amodau'r grant, mae gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau diwygiedig ar gyfer defnyddio'u cyfran hwy o'r grant ar gyfer 2008-09 erbyn 30 Mai. Gobeithiaf eu bod yn ymateb y tro hwn, gan fod cynifer heb wneud hynny y tro diwethaf. Mae swyddogion wedi cyfarfod â phob awdurdod lleol i drafod eu cynlluniau a'u pryderon ynglŷn ag ariannu, ac maent wedi trafod yr hyn y gellir ei ddarparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Gwn fod y Pwyllgor Cyllid wrthi'n ystyried y mater hwn ar hyn o bryd, a deallaf iddo gael ei ystyried yn y cyfarfod ar 22 Mai. Cynhaliodd y Gweinidog gyfarfod cyntaf y grŵp gorchwyl a gorffen ynghylch rhoi'r cyfnod sylfaen ar waith ar 6 Mai, a threfnwyd cyfarfod arall ar gyfer 9 Mehefin. Felly, mae llawer wedi'i wneud i sicrhau bod y cyfnod sylfaen yn cael ei gyflwyno yn ôl yr hyn sydd wedi'i gynllunio.

Angela Burns: Hoffwn innau ofyn am gael dadl ynglŷn â'r rhaglen i gau swyddfeydd post. Clywais eich ateb i'm cyd-Aelod, Nerys Evans, a chlywais hefyd yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog yn gynharach. Mae'r gwrthbleidiau wedi cynnig y pwnc hwn ar gyfer dadl droeon oherwydd ei fod yn bwysig iawn i bobl Cymru ac mae'n bwysig inni ddeall y mater. Deallaf yn llwyr nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ond, er hynny, onid un o ddyletswyddau'r Cynulliad yw cynorthwyo i oleuo'r Llywodraeth yn San Steffan ynglŷn â barn y cyhoedd, a'i

it and lobby it on behalf of the people of Wales.

3.20 p.m.

You said that many post office owners wanted to take compensation packages and close down, but the ones that I have met would like to retire and sell their business as a going concern. These are businesses that they have been unable to develop over the last few years because this threat has been hanging over them. The closures for Pembrokeshire, Carmarthenshire, and south-west Wales have been announced, but there are post offices that still do not know their fate and will be in limbo for months to come. Those guys need an answer now; they need to know where we stand and how we will support them. If you flick through the Post Office's access strategies for rural communities, you will see that they say that if you are elderly or disabled, you can hop on a bus and get to a post office nearby, but many of the buses do not have disabled access. Many things need to be talked about and need the backing of this Government so that we can go back to Westminster and say that this is not appropriate in all areas, and that the wishes of the people of Wales need to be considered. I ask you most respectfully to reconsider your decision on that.

Carwyn Jones: I have not taken a decision on whether there should be a debate on post office closures in Government time, but there have already been several debates in the Chamber, and the views of Members on all sides of the Chamber have been made clear. However, there are Members of Parliament who represent Wales in Westminster, and a situation like this shows why we need 40 Members of Parliament and why there should not be a reduction, as has been suggested by some parties in the Chamber. MPs are in a position to represent their constituents on non-devolved issues as they see fit. We have had debates here, which have enabled Members to have a full and frank airing of the issues. I know that the concerns are shared by many Members from all parties in the Chamber.

chyngori a'i lobio ar ran pobl Cymru?

Dywedasoch fod llawer o berchenogion swyddfeydd post yn awyddus i dderbyn pecynnau iawndal a chau, ond byddai'r rhai yr wyf fi wedi cyfarfod â hwy'n hoffi ymddeol a gwerthu eu busnes fel busnes gweithredol. Busnesau yw'r rhain nad ydynt wedi gallu datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd bod y bygythiad hwn wedi bod yn amharu arnynt. Mae'r rhaglenni cau ar gyfer sir Benfro, sir Gaerfyrddin a'r de-orllewin wedi'u cyhoeddi, ond mae rhai swyddfeydd post o hyd sydd heb glywed beth fydd eu tynged ac a fydd yn nhir neb am fisoedd eto. Mae angen ateb ar y bobl hynny yn awr; mae angen iddynt gael gwybod beth yw ein safbwynt a sut y byddwn yn eu cefnogi. Os tarwch olwg drwy strategaethau mynediad Swyddfa'r Post ar gyfer cymunedau gwledig, gwelwch eu bod yn dweud os ydych yn oedrannus neu'n anabl, y gallwch neidio ar fws a chyrraedd swyddfa bost gyfagos, ond mae llawer o'r bysiau'n anhwylyd i bobl anabl. Mae angen trafod llawer o bethau ac mae angen cefnogaeth y Llywodraeth hon fel y gallwn fynd yn ôl at San Steffan a dweud nad yw hyn yn briodol ym mhob ardal, a bod angen ystyried dymuniadau pobl Cymru. Gofynnaf yn barchus iawn ichi ailystyried eich penderfyniad ynglŷn â hynny.

Carwyn Jones: Nid wyf wedi penderfynu a ddylid cynnal dadl ynglŷn â chau swyddfeydd post yn amser y Llywodraeth, ond mae amryw o ddadleuon wedi'u cynnal eisoes yn y Siambr, ac mae barn Aelodau ar bob ochr i'r Siambr wedi'i mynegi'n glir. Fodd bynnag, mae gan Gymru Aelodau Seneddol i'w chynrychioli yn San Steffan, ac mae sefyllfa fel hon yn dangos pam mae angen 40 Aelod Seneddol arnom, a pham na ddylid cwtogi'r nifer, fel y mae rhai pleidiau yn y Siambr wedi awgrymu. Gall ASau gynrychioli eu hetholwyr yng nghyswllt materion sydd heb eu datganoli, fel y gwelant yn dda. Yr ydym wedi cynnal dadleuon yma, sydd wedi galluogi Aelodau i fynegi barn yn llawn ac yn agored ynglŷn â'r materion dan sylw. Gwn fod llawer o Aelodau o bob plaid yn y Siambr yn poeni am hyn.

Darren Millar: Would you table some time for a statement from the Minister for Rural Affairs on the closure of telephone boxes in Wales? These have an enormous impact on rural communities, such as Gwytherin in my constituency, where mobile telephone reception is poor and telephone services are not reliable. I know that other places in Wales could be affected in a similar way. Will there be sufficient time in the programme for a statement on that please?

Carwyn Jones: Again, the closure of telephone boxes is not a devolved issue. I understand the difficulties that there have been in Gwytherin, particularly in terms of access to telephone services. However, access to public call boxes comes under the universal service obligation that BT, the telephone operators have. Incumbent telephone operators have to ensure that there is adequate coverage of public call boxes to fulfil their obligation. That does not mean that you keep exactly the same number of call boxes as in the past, because they are used far less than they were. I was in Ceredigion last week, and I noted that several call boxes there do not accept coins; they accept cards. It is clearly becoming more difficult to collect coins in some of the more rural parts of Wales and to make that service cost-effective. If there is no mobile phone coverage of any network in a particular part of Wales, there is obviously a strong case for keeping a public call box in such an area. However, it becomes more difficult in areas where there is substantial mobile phone coverage and where the usage of public call boxes has declined in the past few years. There still have to be some, of course, but it is difficult to make the case that there should be as many as there were, particularly in the more urban areas of Wales.

Mark Isherwood: A significant concern for my region of north Wales at the moment is the agreed merger between the hospital trusts, particularly North East Wales NHS Trust and Conwy and Denbighshire NHS Trust. I hope

Darren Millar: A fydddech yn neilltuo rhywfaint o amser inni gael datganiad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig ynglŷn â chau blychau ffôn yng Nghymru? Mae'r rhain yn cael effaith aruthrol ar gymunedau cefn gwlad, megis Gwytherin yn fy etholaeth i, lle y mae derbyniad ffonau symudol yn wael a lle nad oes modd dibynnu ar wasanaethau ffôn. Gwn y gallai hyn effeithio yn yr un modd ar fannau eraill yng Nghymru. A fydd digon o amser yn y rhaglen inni gael datganiad ynglŷn â hynny os gwelwch yn dda?

Carwyn Jones: Unwaith eto, nid yw cau blychau ffôn yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Deallaf yr anawsterau sydd wedi bod yng Ngwytherin, yn enwedig o ran cael gwasanaethau ffôn. Fodd bynnag, mae darparu gwasanaeth blychau ffôn cyhoeddus yn rhan o ddyletswydd gyffredinol BT, y cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth. Rhaid i'r cwmni sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ffôn sicrhau bod digon o flychau ffôn cyhoeddus ar gael er mwyn cyflawni eu dyletswydd. Nid yw hynny'n golygu eich bod yn cadw'r un nifer o flychau ffôn yn union ag o'r blaen, oherwydd y mae llawer llai o ddefnyddio arnynt erbyn hyn. Yr oeddwn yng Ngheredigion yr wythnos diwethaf, a sylwais fod nifer o flychau ffôn yno nad oes modd defnyddio arian ynddynt; rhaid defnyddio cerdyn. Mae'n amlwg ei bod yn dod yn anos casglu'r arian mewn rhai o ardaloedd mwy gwledig Cymru a sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw'n gosteffeithiol. Os nad oes yr un rhwydwaith ffôn symudol ar gael mewn rhan benodol o Gymru, mae'n amlwg bod dadl gref dros gadw blwch ffôn cyhoeddus mewn ardal o'r fath. Fodd bynnag, daw'n anos mewn ardaloedd lle y mae gwasanaeth ffonau symudol sylweddol ar gael a lle y mae defnyddio blychau ffôn cyhoeddus wedi edwino yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wrth gwrs, mae'n rhaid cadw rhai, ond mae'n anodd dadlau o blaid cadw cynifer ag o'r blaen, yn enwedig yn ardaloedd mwy trefol Cymru.

Mark Isherwood: Un peth sy'n destun pryder sylweddol i'm hardal i yn y gogledd ar hyn o bryd yw'r uno y cytunwyd arno rhwng ymddiriedolaethau'r ysbytai, yn enwedig Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain

that you and your colleague, the Minister for Health and Social Services, will agree to find time for a statement on this. When the two health boards agreed the merger, they were concerned that they would be able to agree the protocol for merging the two organisations by the end of the financial year, March 2009. However, we now understand that the Minister has stated that the merger will go through in July. There is concern that that will not even give time for a Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006 communication with staff, or time to develop a full business plan. There is a related concern that if the third trust, North West Wales NHS Trust, changed its mind and decided to engage in merger discussions part way down the line, before the merger has bedded in, that could have a negative impact on patient care. There is real and pressing concern on this matter, and I would be grateful for your consideration accordingly.

Carwyn Jones: I am not aware of any concern, other than that which you have expressed in the Chamber. Perhaps this can be dealt with in correspondence with the Minister.

Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych. Gobeithiaf y gwnewch chi a'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gytuno i ddod o hyd i amser inni gael datganiad ynglŷn â hyn. Pan gytunodd y ddau fwrdd iechyd i uno, yr oeddent yn poeni a fyddai modd iddynt gytuno ynghylch y protocol ar gyfer uno'r ddau sefydliad erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, Mawrth 2009. Fodd bynnag, cawn ar ddeall erbyn hyn fod y Gweinidog wedi dweud yr aiff yr uno rhagddo ym mis Gorffennaf. Mae'n destun pryder na fydd hynny hyd yn oed yn rhoi amser i gysylltu â'r staff yn unol â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006, nac amser i ddatblygu cynllun busnes llawn. Mae rhai'n poeni hefyd, yn gysylltiedig â hyn, petai'r drydedd ymddiriedolaeth, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru, yn newid ei meddwl ac yn penderfynu cynnal trafodaethau ynglŷn ag uno ar ôl i'r uno gychwyn ond cyn iddo fwrw gwreiddiau, y gallai hynny effeithio'n negyddol ar y gofal a gaiff cleifion. Mae hyn yn destun pryder difrifol sy'n gofyn sylw ar frys, a byddwn yn ddiolchgar felly petaech yn ei ystyried.

Carwyn Jones: Nid wyf yn gwybod am bryder o gwbl, heblaw'r hyn yr ydych wedi'i fynegi yn y Siambr. Efallai y gellir ymdrin â hyn drwy ohebu â'r Gweinidog.

Pwynt o Drefn Point of Order

Alun Cairns: Point of order. I seek your guidance on the inquiry into rural schools that is due to be conducted by the Rural Development Sub-Committee, at the request of the Sustainability Committee, which was at the request of the Petitions Committee. As a member of the Enterprise and Learning Committee, I am concerned that our committee will not have the opportunity to feed into this inquiry. I question the suitability of a sub-committee handling such an inquiry, and I wonder whether the Enterprise and Learning Committee might not have been the appropriate committee instead.

Alun Cairns: Pwynt o drefn. Gofynnaf am arweiniad gennych ynglŷn â'r ymchwiliad i ysgolion gwledig sydd ar fin cael ei gynnal gan yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig, ar gais y Pwyllgor Cynaliadwyedd, a hynny ar gais y Pwyllgor Deisebau. A minnau'n aelod o'r Pwyllgor Menter a Dysgu, yr wyf yn poeni na chaiff ein pwyllgor ni gyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn. Tybed a ddylai is-bwyllgor ymdrin ag ymchwiliad o'r fath, ac, yn hytrach, onid y Pwyllgor Menter a Dysgu fuasai'r pwyllgor mwyaf priodol?

The Presiding Officer: This is not directly a point of order for me to address in the Chamber. However, the Business Committee, which meets weekly and the business of which is private, has clear responsibilities under Standing Order Nos. 12 and 10 in relation to the position of scrutiny committees and, indeed, the proper constitution of sub-committees formed by a scrutiny committee.

I share your concern, and I will certainly ensure that the Business Committee discusses the matter further at its next meeting. I will also have a discussion with the Chair of the Enterprise and Learning Committee on this matter. Clearly, it is important that our scrutiny committees function effectively and that the appropriate scrutiny committee should handle each inquiry undertaken on behalf of the National Assembly. Indeed, since those committees, including sub-committees via their parent committee as it were, report to the Assembly eventually, these are matters that are relevant to the content of our debates in Plenary. I am grateful to you for giving me notice of that point of order so that I could respond in some detail. I will pursue the matter in line with my role as Chair of the Business Committee, which is a fine committee, albeit a committee that meets in private—although I understand that it may meet in public soon to discuss matters of procedure.

Alun Davies: Order. [*Laughter.*] Further to that point of order—

The Presiding Officer: I do not believe that there is anything further to that point of order. However, as I have spent the last week very happily in Blaenau Ffestiniog, I will be generous to you.

Alun Davies: You are very kind, Presiding Officer. I feel that I should respond to that point of order as the Chair of the Rural Development Sub-Committee. This matter was passed to us by the Petitions Committee. I have received a letter from the Chair of the Enterprise and Learning Committee informing us that that committee is content for us to go ahead with our inquiry. It was subsequent to receipt of that letter that the

Y Llywydd: Nid pwynt o drefn uniongyrchol imi roi sylw iddo yn y Siambr yw hwn. Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor Busnes, sy'n cyfarfod bob wythnos i drafod busnes yn breifat, gyfrifoldebau clir dan Reol Sefydlog Rhif 12 a Rheol Sefydlog Rhif 10 o ran sefyllfa pwyllgorau craffu, ac, yn wir, o ran cyfansoddiad priodol is-bwyllgorau a grëir gan bwyllgor craffu.

Yr wyf finnau'n pryderu am hyn, ac yn bendant, sicrhaf fod y Pwyllgor Busnes yn trafod y mater ymhellach yn ei gyfarfod nesaf. Trafodaf y mater hwn hefyd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu. Mae'n amlwg ei bod yn bwysig i'n pwyllgorau craffu weithio'n effeithiol a bod y pwyllgor craffu priodol yn ymdrin â phob ymchwiliad a gynhelir ar ran y Cynulliad Cenedlaethol. Yn wir, gan fod y pwyllgorau hynny, gan gynnwys is-bwyllgorau drwy gyfrwng eu rhiant-bwyllgor, fel petai, yn adrodd i'r Cynulliad yn y pen draw, mae'r rhain yn faterion sy'n berthnasol i gynnwys ein dadleuon yn y Cyfarfod Llawn. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am roi rhybudd imi ynglŷn â'r pwynt o drefn hwnnw er mwyn imi allu ymateb yn fanwl. Af ar drywydd y mater yn rhinwedd fy rôl fel Chadeirydd y Pwyllgor Busnes, sy'n bwyllgor gwerth chweil, er ei fod yn bwyllgor sy'n cyfarfod yn breifat—er imi gael ar ddeall ei bod yn bosibl y bydd yn cyfarfod yn gyhoeddus cyn bo hir i drafod materion sy'n ymwneud â gweithdrefnau.

Alun Davies: Trefn. [*Chwerthin.*] Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw—

Llywydd: Ni chredaf fod rhagor i'w ddweud ynglŷn â'r pwynt o drefn hwnnw. Fodd bynnag, gan fy mod newydd dreulio wythnos hapus iawn ym Mlaenau Ffestiniog, byddaf yn haelfrydig wrthyh.

Alun Davies: Yr ydych yn garedig iawn, Lywydd. Teimlaf y dylwn ymateb i'r pwynt o drefn hwnnw, a minnau'n Gadeirydd yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig. Trosglwyddwyd y mater hwn inni gan y Pwyllgor Deisebau. Yr wyf wedi cael llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu i roi gwybod inni fod y pwyllgor hwnnw'n fodlon inni fwrw ymlaen â'n hymchwiliad. Ar ôl cael y llythyr hwnnw y penderfynwyd

decision was made to launch the inquiry tomorrow.

The Presiding Officer: Well, the Chair of the committee may be content, but the Business Committee may not be content, because these matters must proceed according to our Standing Orders and our practice. I do not wish to continue this debate in public, but I see that we have now generated a debate and that the leader of the Welsh Liberal Democrat Group is anxious to take part.

Michael German: I rise to speak as someone with three roles, one of which is being a member of the Petitions Committee. As you will note from Standing Orders, the Petitions Committee can refer a petition to a committee. That is one of the choices open to it, and how it does that is its choice. That, it seems to me, is part of the role of the Petitions Committee as set out in Standing Orders.

Secondly, as temporary Chair of the Sustainability Committee, the parent committee of the Rural Development Sub-Committee, which is to undertake the inquiry, it is my understanding that the clerk of the Petitions Committee approached both committees and that difficulty with timing meant that we had to go in this direction.

My third point relates to the role of the Business Committee in respect of committees. In reference to Standing Order No. 11, I would be grateful if you could point to the area of the Business Committee's work that relates to the role of committees. That would help me in my thinking.

The Presiding Officer: I will respond to that point in due course.

3.30 p.m.

Datganiad am Adolygiad Alan Axford o Wasanaethau yng Ngheredigion Statement on Alan Axford's Review of Services in Ceredigion

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): Members will recall the announcement by the Welsh Assembly Government last year of a

lansio'r ymchwiliad yfory.

Y Llywydd: Wel, efallai fod Cadeirydd y pwyllgor yn fodlon, ond efallai nad yw'r Pwyllgor Busnes yn fodlon, oherwydd rhaid i'r materion hyn fynd rhagddynt yn unol â'n Rheolau Sefydlog a'n harferion. Nid wyf am fwrw ymlaen â'r ddadl hon yn gyhoeddus, ond gwelaf ein bod yn awr wedi cychwyn dadl a bod arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn awyddus i gyfrannu.

Michael German: Codaf i siarad fel rhywun sydd â thair rôl. Un o'r rheini yw fy mod yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau. Fel y gwelwch yn y Rheolau Sefydlog, caiff y Pwyllgor Deisebau gyfeirio deiseb at bwyllgor. Dyna un o'r dewisiadau sydd ar gael iddo, a chaiff ddewis sut y mae'n gwneud hynny. Mae'n ymddangos i mi fod hynny'n rhan o waith y Pwyllgor Deisebau, fel y'i disgrifir yn y Rheolau Sefydlog.

Yn ail, a minnau'n Gadeirydd dros dro y Pwyllgor Cynaliadwyedd, sef rhiant-bwyllgor yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig, sydd i gynnal yr ymchwiliad, cefais ar ddeall fod clerch y Pwyllgor Deisebau wedi mynd at y ddau bwyllgor a'n bod wedi gorfod dilyn y trywydd hwn oherwydd anhawster o ran amseru.

Mae a wnelo fy nhrydydd pwynt â rôl y Pwyllgor Busnes yng nghyswllt pwyllgorau. Gan gyfeirio at Reol Sefydlog Rhif 11, byddwn yn ddiolchgar petaech yn gallu dweud wrthyf pa un o feysydd gwaith y Pwyllgor Busnes sy'n ymwneud â rôl pwyllgorau. Byddai hynny'n gymorth imi weld pethau'n glir.

Llywydd: Ymatebaf i'r pwynt hwnnw maes o law.

moratorium on service change within district general hospitals and community hospitals in Wales until a number of key reviews on the development of primary and community care services had been undertaken.

In response to significant concerns being expressed in the Ceredigion area by community leaders and the local population, concerning plans to change their community hospital services, I asked Dr Alan Axford, medical director of the then Ceredigion and Mid Wales NHS Trust, to undertake a review of the alignment of services between the proposals for the development of new community health facilities at Aberaeron, Cardigan and Tregaron and services provided from Bronglais hospital, Aberystwyth.

These proposals for change were developed in the context of the wider plan for service reconfiguration across mid and west Wales, which had also raised considerable concern across communities.

I have today received a copy of Dr Axford's final report, which provides an informative insight into the considerations that need to be addressed in consistently delivering good-quality services to the population of Ceredigion, and also the important relationships that exist with neighbouring areas. Dr Axford's report describes a model of health service delivery that will enhance the care that all people might receive in that area, pointing to a real potential for increasing the care that could be delivered more locally and in people's homes.

Dr Axford's recommendations are in line with our strategic goal of rebalancing the healthcare system to maximise the care that can be delivered locally and within our developing thinking about the more effective management of chronic conditions in Wales.

The existence of robust clinical governance arrangements is central to the concerns regarding the sustainability of local services. The steps that I have recently taken to create the new Hywel Dda NHS Trust will ensure that the new service models for Ceredigion

newid gwasanaethau o fewn ysbytai cyffredinol dosbarth ac ysbytai cymuned yng Nghymru nes byddai nifer o adolygiadau allweddol ar ddatblygiad gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol wedi'u cynnal.

Mewn ymateb i bryderon sylweddol a fynegid yn ardal Ceredigion gan arweinwyr cymunedol a'r boblogaeth leol, ynglŷn â chynlluniau i newid eu gwasanaethau ysbyty cymunedol, gofynnais i Dr Alan Axford, cyfarwyddwr meddygol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a'r Canolbarth fel yr oedd ar y pryd, gynnal adolygiad o aliniad gwasanaethau rhwng y cynigion ar gyfer datblygu cyfleusterau iechyd cymunedol newydd yn Aberaeron, Aberteifi a Thregaron a gwasanaethau a ddarperir o ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

Cafodd y cynigion hyn ar gyfer newid eu datblygu yng nghyd-destun y cynllun ehangach ar gyfer ailgyflunio gwasanaethau ar draws y canolbarth a'r gorllewin, a oedd hefyd wedi codi cryn bryder ar draws cymunedau.

Heddiw cefais gopi o adroddiad terfynol Dr Axford, sy'n rhoi goleuni treiddgar ar yr ystyriaethau y mae angen rhoi sylw iddynt wrth sicrhau gwasanaethau o ansawdd da yn gyson i boblogaeth Ceredigion, ynghyd â'r berthynas bwysig sy'n bodoli ag ardaloedd cyfagos. Mae adroddiad Dr Axford yn disgrifio model o ddarpariaeth gwasanaeth iechyd a fydd yn gwella'r gofal y gallai pawb ei gael yn yr ardal honno, gan dynnu sylw at wir botensial i gynyddu'r gofal y gellid ei ddarparu'n fwy lleol ac yng nghartrefi pobl.

Mae argymhellion Dr Axford yn cyd-fynd â'n nod strategol o ailgydbwysu'r system gofal iechyd i wneud y mwyaf o'r posibilïadau ar gyfer darparu gofal yn lleol ac o fewn ein syniadaeth sy'n datblygu ynghylch rheoli cyflyrau cronig yn fwy effeithiol yng Nghymru.

Mae bodolaeth trefniadau rheolaeth glinigol cadarn yn ganolog o ran y pryderon ynghylch cynaliadwyedd gwasanaethau lleol. Bydd y camau a gymerais yn ddiweddar i greu Ymddiriedolaeth GIG newydd Hywel Dda yn sicrhau bod modd cyflwyno'r modelau

are capable of being delivered in a clinically effective way, and that the new services are fully integrated with the clinical networks across central and west Wales.

On the specific conclusions of Dr Axford's report, for the Aberaeron area, he endorses the proposals that have already been advanced by the local authority and the local health board, namely for an integrated facility providing general practice services in new accommodation, nurse and consultant clinics, and enhanced screening and diagnostic services, with improved physiotherapy, occupational therapy, audiology, podiatry and social care services.

In the Tregaron area, Dr Axford has taken into consideration the concerns expressed locally about the future plans for services in the area. Many of the health and social care facilities currently available are in need of replacement. However, Dr Axford recognises the important role undertaken by the good-quality patient care services for rehabilitation that exist for the local community, and the potential to strengthen further the strong clinical links that currently exist between Tregaron Hospital and Bronglais hospital.

The report also details the steps that can be taken by health and social services to support and develop earlier discharge from hospital, when appropriate.

For the planned development in the Cardigan area, Dr Axford endorses the health and social care service model contained in the business case for the redevelopment of Cardigan Hospital. However, he has expressed his concerns to me about the availability of the proposed site for the new service, particularly as there would seem to be no suitable alternative site for a new facility in Cardigan, which would serve so well the populations of south Ceredigion, west Carmarthenshire and particularly north Pembrokeshire. If a suitable site with planning permission cannot be secured, his view is that serious thought would have to be

gwasanaeth newydd i Geredigion mewn modd effeithiol yn glinigol, a bod y gwasanaethau newydd yn cael eu hintegreiddio'n llawn â'r rhwydweithiau clinigol ar draws y canolbarth a'r gorllewin.

O ran casgliadau penodol adroddiad Dr Axford, ar gyfer ardal Aberaeron, mae'n cymeradwyo'r cynigion sydd eisoes wedi'u gwneud gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol, sef ar gyfer cyfleuster integredig yn darparu gwasanaethau practis cyffredinol mewn canolfannau newydd, clinigau nyrsys ac ymgynghorwyr, a gwell gwasanaethau sgrinio a diagnostig, gyda gwell gwasanaethau ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, clywedeg, podiatreg a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Yn ardal Tregaron, mae Dr Axford wedi ystyried y pryderon a fynegwyd yn lleol am y cynlluniau ar gyfer gwasanaethau yn yr ardal yn y dyfodol. Mae angen cyfleusterau newydd yn lle llawer o'r cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Dr Axford yn cydnabod y rhan bwysig a chwaraeir gan y gwasanaethau o ansawdd da ym maes gofal i gleifion ar gyfer adsefydlu sy'n bodoli i'r gymuned leol, a'r potensial i gryfhau ymhellach y cysylltiadau clinigol cryf sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng Ysbyty Tregaron ac ysbyty Bronglais.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi manylion ynghylch y camau y gall gwasanaethau iechyd a chymdeithasol eu cymryd i gefnogi a datblygu rhyddhau'n gynharach o'r ysbyty, pan fydd hynny'n briodol.

O ran y datblygiad arfaethedig yn ardal Aberteifi, mae Dr Axford yn ategu'r model gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol a geir yn yr achos busnes dros ailddatblygu Ysbyty Aberteifi. Fodd bynnag, mae wedi mynegi'i bryderon i mi ynghylch i ba raddau y mae'r safle arfaethedig i'r gwasanaeth newydd ar gael, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos nad oes safle arall addas ar gyfer cyfleuster newydd yn Aberteifi, a fyddai'n rhoi gwasanaeth cystal i boblogaethau de Ceredigion, gorllewin sir Gaerfyrddin ac yn enwedig gogledd sir Benfro. Os na ellir sicrhau safle addas gyda chaniatâd cynllunio, ei farn ef yw y byddai'n rhaid meddwl o

given to relocating the services to the Lampeter and Felinfach area, but this would be a definite disadvantage to people in north Pembrokeshire. I shall discuss the pressing issue of a site for this important development, as I would be unhappy if we had to adopt a poorer solution due to the absence of an appropriate site.

Although outside the terms of reference for this review, Dr Axford has drawn attention to the strategic importance of the services at Tywyn and Machynlleth, and the potential development opportunities for enhanced services to be provided to those areas through their association with Bronglais hospital. I have asked Dr Axford to investigate these opportunities further, in consultation with neighbouring organisations and stakeholders.

I have been much reassured by the work undertaken by Dr Axford, and I am most grateful to him for his efforts. He details clearly in his report the ways in which high-quality sustainable care might be delivered for the Ceredigion community, building on the opportunities via telemedicine links to Bronglais hospital to increase the clinical supervision of the good-quality staff in these communities, to allow them to expand their skills and to develop their services further.

Looking further at the wider implications of this review, Dr Axford's report confirms to me the important role that Bronglais hospital will continue to play within the network of larger hospitals in Wales, acting as the clinical hub for more specialised care in this part of Wales, and as the first line of support for smaller hospitals and community-based services. The planned capital investments that we are making to improve services at Bronglais will further support that role.

Dr Axford has emphasised the need for us to think more creatively about the role that traditional community hospitals have played, and to recognise that we cannot take a simplistic view that a single model or view about size and the number of beds will be applicable in different communities. He

ddifrif am symud y gwasanaethau i ardal Llanbedr Pont Steffan a'r Felin-fach, ond byddai hyn yn anfantais bendant i bobl yng ngogledd sir Benfro. Trafodaf gwestiwn llosg safle ar gyfer y datblygiad pwysig hwn, oherwydd byddwn yn anhapus petai'n rhaid inni dderbyn ateb salach oherwydd diffyg safle priodol.

Er bod hyn y tu allan i gylch gorchwyl yr adolygiad hwn, mae Dr Axford wedi tynnu sylw at bwysigrwydd strategol y gwasanaethau yn Nhywyn a Machynlleth, a'r cyfleoedd datblygu posibl ar gyfer darparu gwasanaethau gwell i'r ardaloedd hynny drwy eu cysylltiad ag ysbyty Bronglais. Yr wyf wedi gofyn i Dr Axford ymchwilio ymhellach i'r cyfleoedd hyn, mewn ymgynghoriad â sefydliadau cyfagos a rhanddeiliaid.

Yr wyf wedi fy modloni'n fawr gan waith Dr Axford, ac yr wyf yn ddiolchgar dros ben iddo am ei ymdrechion. Mae'n manylu'n glir yn ei adroddiad ynghylch y ffyrdd y gellid darparu gofal cynaliadwy o ansawdd da i gymuned Ceredigion, gan adeiladu ar y cyfleoedd drwy gysylltiadau telefeddygaeth ag ysbyty Bronglais i gynyddu'r oruchwyliaeth glinigol ar y staff da yn y cymunedau hyn, i ganiatáu iddynt ehangu eu sgiliau a datblygu eu gwasanaethau ymhellach.

Ac edrych ymhellach ar oblygiadau ehangach yr adolygiad hwn, mae adroddiad Dr Axford yn cadarnhau i mi y rôl bwysig y bydd ysbyty Bronglais yn parhau i'w chwarae o fewn y rhwydwaith o ysbytai mwy yng Nghymru, gan weithredu fel y canolbwynt clinigol ar gyfer gofal mwy arbenigol yn y rhan hon o Gymru, a chan roi'r gefnogaeth flaenaf i ysbytai llai a gwasanaethau yn y gymuned. Bydd y buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig yr ydym yn eu gwneud i wella gwasanaethau ym Mronglais yn cefnogi'r rôl honno ymhellach.

Mae Dr Axford wedi pwysleisio'r angen inni feddwl yn fwy creadigol am y rôl y mae ysbytai cymuned traddodiadol wedi'i chwarae, a chydabod na allwn farnu'n orsyml y bydd un model neu farn ynghylch maint a nifer y gwelyau mewn gwahanol gymunedau yn gymwys. Mae'n tynnu sylw at

highlights a number of other developments in Wales, such as in south Pembrokeshire, and Tenby particularly, Monmouthshire and Builth Wells, where new models either in place or being developed are changing the way in which we provide local health services in Wales. I concur wholeheartedly with his views that the services that we provide in future must be delivered in premises that are fit for the purpose intended.

Finally, Dr Axford's report provides valuable practical evidence for my rural health strategy. The steering group, chaired by Lord Elystan-Morgan, has already considered several of the other reviews that I have commissioned, and I have forwarded a copy of Dr Axford's report to Lord Elystan-Morgan for consideration by his group. I have no doubt that the steering group will wish to meet with Dr Axford to discuss his conclusions more fully.

Earlier today, I made the report available in full to Assembly Members, and I have asked the local health boards and the NHS trusts in Wales serving rural communities to pay due regard to its conclusions and recommendations in planning their future community and primary care services.

Nick Bourne: I thank the Minister for the statement and Alan Axford for the review that he conducted. Broadly speaking, we would certainly welcome it, as it brings forward many points that we agree with. I will treat each of the sites at Aberaeron, Tregaron and Cardigan in turn.

On Aberaeron, I note what the Minister has said about the proposed new site next to the local authority building. That is on something of a hill and, while I know that there are public transport links, as I have used the buses there, they are not that frequent. If older people and others are to use that service to access the facility there, that will need looking at. In addition, does the Minister know—and if not, perhaps she could find out—when work is likely to start on the construction programme, given the delay, and when work is likely to finish on that facility,

nifer o ddatblygiadau eraill yng Nghymru, megis yn ne sir Benfro, ac yn enwedig Dinbych-y-pysgod, sir Fynwy a Llanfair ym Muallt, lle y mae modelau newydd sydd naill ai'n weithredol neu ar y gweill yn newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau iechyd lleol yng Nghymru. Cytunaf yn llwyr â'i farn bod yn rhaid i'r gwasanaethau a ddarparwn yn y dyfodol gael eu darparu mewn adeiladau sy'n addas i'r diben.

Yn olaf, mae adroddiad Dr Axford yn darparu tystiolaeth ymarferol werthfawr ar gyfer fy strategaeth iechyd gwledig. Mae'r grŵp llywio, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Elystan-Morgan, eisoes wedi ystyried amryw o'r adolygiadau eraill a gomisiynwyd gennyf, ac yr wyf wedi anfon copi o adroddiad Dr Axford at yr Arglwydd Elystan-Morgan i'w ystyried gan ei grŵp. Nid oes gennyf amheuaeth o gwbl na fydd y grŵp llywio'n dymuno cwrdd â Dr Axford i drafod ei gasgliadau'n llawnach.

Yn gynharach heddiw, trefnais fod yr adroddiad llawn ar gael i Aelodau'r Cynulliad, ac yr wyf wedi gofyn i'r byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig roi sylw priodol i'w gasgliadau a'i argymhellion wrth gynllunio'u gwasanaethau gofal cymunedol a sylfaenol ar gyfer y dyfodol.

Nick Bourne: Diolch i'r Gweinidog am y datganiad ac i Alan Axford am yr adolygiad a wnaeth. A siarad yn gyffredinol, byddem yn sicr yn ei groesawu, gan ei fod yn cyflwyno llawer o bwyntiau yr ydym yn cytuno â hwy. Trafodaf y safleoedd yn Aberaeron, Tregaron ac Aberteifi bob un yn ei dro.

Ynghylch Aberaeron, sylwaf ar yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am y safle newydd arfaethedig wrth ochr adeilad yr awdurdod lleol. Mae hynny ar dipyn o riw ac, er y gwn fod cysylltiadau cludiant cyhoeddus ar gael, gan fy mod wedi defnyddio'r bysus yno, nid ydynt cyn amled â hynny. Os bydd yn rhaid i bobl hŷn ac eraill ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw i fynd i'r cyfleuster yno, bydd angen edrych ar hynny. Yn ogystal, a ydyw'r Gweinidog yn gwybod—ac os nad yw, efallai y gallai ganfod—pryd y mae'r gwaith yn debygol o ddechrau ar y rhaglen adeiladu, o

because it is important to the people of Aberaeron and district?

Tregaron, traditionally, has had a high bed-occupancy rate, with just 29 in-patient beds, and I feel that that will have to continue at that level. I hope to get the Minister's assurance that it will continue at that sort of level on the assumption that a facility is retained at Cardigan. I understand what she is saying about Lampeter and Felinfach, and I will come to that in a minute, but Tregaron has a high bed-occupancy rate, and those in-patient beds are needed there.

On Cardigan, the Minister has quite rightly said that the facility there is important, if not vital, to the people of north Pembrokeshire, and I am sure that my colleague, Paul Davies, will want to contribute on that point. It is also vital for the people of Cardigan and that coastal strip around the Aberporth area. Therefore, a facility in the second town of Ceredigion is very much still needed. It has 22 in-patient beds, which I think is the minimum needed there, as is broadly accepted.

With those important provisos in relation to each of the sites, the Welsh Conservatives would give the report a broad welcome. Two matters that Alan Axford touched on, which, strictly speaking, are outside the terms of his review, although I can well understand why he touched on them, are the facilities at Machynlleth and Tywyn, which are in my region. They certainly look towards Bronglais at the moment, and Powys Local Health Board, under Judith Paget, has been looking at the importance of Machynlleth, certainly, looking to develop stronger links with Bronglais, but I am sure that the same is true of Tywyn. We would also support that.

Edwina Hart: I thank the leader of the opposition for his broad welcome of this review. To deal with some of the specific points that he made, I am aware of the issues around the site in Aberaeron and I understand

ystyried yr oedi, a phryd y mae'r gwaith yn debygol o ddod i ben ar y cyfleuster hwnnw, oherwydd y mae'n bwysig i bobl Aberaeron a'r cylch?

Yn draddodiadol, mae cyfradd defnydd gwllau uchel wedi bod gan Dregaron, heb ddim ond 29 gwely i gleifion mewnol, a theimlaff y bydd yn rhaid i hynny barhau ar y lefel honno. Gobeithiaf gael sicrwydd gan y Gweinidog y bydd yn parhau ar y math hwnnw o lefel ar sail y dybiaeth y cedwir cyfleuster yn Aberteifi. Deallaf yr hyn y mae hi'n ei ddweud am Lanbedr Pont Steffan a'r Felin-fach, a deuafl at hynny toc, ond mae gan Dregaron gyfradd defnydd gwllau uchel, ac mae angen y gwllau hynny i gleifion mewnol yno.

Ynghylch Aberteifi, mae'r Gweinidog yn gwbl gywir wedi dweud bod y cyfleuster yno'n bwysig, os nad yn hanfodol, i bobl gogledd sir Benfro, ac yr wyf yn siŵr y bydd fy nghyd-Aelod, Paul Davies, yn dymuno cyfrannu ar y pwynt hwnnw. Mae'n hanfodol hefyd i bobl Aberteifi a'r llain arfordirol honno o gwmpas ardal Aberporth. Felly, mae angen gwirioneddol o hyd am gyfleuster yn ail dref Ceredigion. Mae yno 22 o wllau i gleifion mewnol, sef yr isafswm angenrheidiol yno yn fy marn i, fel y derbynnir yn gyffredinol.

Gyda'r amodau pwysig hynny mewn perthynas â phob un o'r safleoedd, byddai Ceidwadwyr Cymru'n rhoi croeso cyffredinol i'r adroddiad. Dau fater a grybwyllodd Alan Axford, sydd, a bod yn fanwl gywir, y tu allan i gylch ei adolygiad, er y gallaf ddeall yn iawn pam y crybwyllodd hwy, yw'r cyfleusterau ym Machynlleth a Thywyn, sydd yn fy rhanbarth i. Maent yn sicr yn edrych tua Bronglais ar hyn o bryd, ac mae Bwrdd Iechyd Lleol Powys, dan Judith Paget, wedi bod yn edrych ar bwysigrwydd Machynlleth, yn sicr, gyda golwg ar ddatblygu cysylltiadau cryfach â Bronglais, ond yr wyf yn siŵr bod yr un peth yn wir am Dywyn. Byddem yn cefnogi hynny hefyd.

Edwina Hart: Diolch i arweinydd yr wrthblaid am groesawu'r adolygiad hwn yn gyffredinol. O ran rhai o'r pwyntiau penodol a wnaeth, yr wyf yn ymwybodol o'r problemau ynghylch y safle yn Aberaeron a

the points that he raised. I have been looking at the transport links recently, after we discussed the sites and how matters were moving forward, and at the level nature of sites and what we can do about that, because, sometimes, only certain sites are available to us for a facility. I will drop Members a detailed note on the timescales on those issues and on anything else that I have reported.

I was impressed when I visited Tregaron Hospital with Elin Jones, which is an excellent facility. I was impressed to see how patients are treated there and how useful it is for the community, and so I concur with you. We need to get that facility into better condition, and recognise how valuable it is for the community, especially if people's treatment is moved from Bronglais hospital to Tregaron Hospital for rehabilitation. It is vital that we have these facilities in rural areas.

3.40 p.m.

On Cardigan, I am sick and tired of having difficulties acquiring the necessary land in some areas to secure health facilities. I am particularly fed up when there are issues with ransom strips, as it is more than irritating. To an extent, I can understand the issue if land is privately owned, but when the difficulties turn out to be with other public sector organisations, I could scream. Why can we not just get on with providing the necessary facilities and recognise that it is all public money, as the land is all in public ownership? Therefore, I am concerned about the position in Cardigan, and I will become personally involved to get at the devil in the detail of all this. I want that facility to be up and running in Cardigan, not just for the people of Cardigan, but also for the population of north Pembrokeshire, who will face serious issues if there is no facility in place for them.

Machynlleth and Tywyn were strictly outside the terms of reference of this review but, on the other hand, I can understand why Dr Axford raised those points. It is good that these hospitals look towards Bronglais

deallaf y pwyntiau a gododd. Yr wyf wedi bod yn edrych ar y cysylltiadau trafniadaeth yn ddiweddar, wedi inni drafod y safleoedd a sut yr oedd pethau'n symud ymlaen, ac ar natur wastad safleoedd a'r hyn y gallwn ei wneud ynghylch hynny, oherwydd, ambell dro, dim ond rhai safleoedd sydd ar gael inni ar gyfer cyfleuster. Anfonaf nodyn manwl at Aelodau ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer y materion hynny ac am unrhyw beth arall yr wyf wedi adrodd arno.

Cefais argraff dda wrth ymweld ag Ysbyty Tregaron gydag Elin Jones; mae'n gyfleuster rhagorol. Yr oedd yn dda gweld sut y caiff cleifion eu trin yno ac mor fuddiol ydyw i'r gymuned, ac felly yr wyf yn cytuno â chi. Mae angen inni godi'r cyfleuster hwnnw i gyflwr gwell, a chydabod mor werthfawr ydyw i'r gymuned, yn enwedig os symudir triniaeth pobl o ysbyty Bronglais i Ysbyty Tregaron ar gyfer adsefydlu. Mae'n hanfodol inni gael y cyfleusterau hyn mewn ardaloedd gwledig.

Ynghylch Aberteifi, yr wyf wedi blino'n lân ynghylch yr anawsterau ynglŷn â phrynu'r tir angenrheidiol mewn rhai ardaloedd i sicrhau cyfleusterau iechyd. Yr wyf wedi cael llond bol yn arbennig pan geir problemau gyda lleiniau priddwerth, gan fod hynny'n dân ar fy nghroen. I raddau, gallaf ddeall y broblem os yw tir mewn meddiant preifat, ond pan welaf mai gyda chyrrff sector cyhoeddus eraill y mae'r anawsterau, gallwn sgrechian. Pam na allwn fwrw ati i ddarparu'r cyfleusterau angenrheidiol a chydabod mai arian cyhoeddus yw hyn i gyd, gan fod y tir i gyd yn eiddo cyhoeddus? Felly, yr wyf yn bryderus am y sefyllfa yn Aberteifi, ac af ati'n bersonol i fynd at wraidd y drwg yn hyn i gyd. Mae arnaf eisiau i'r cyfleuster hwnnw fod ar waith yn Aberteifi, nid dim ond er mwyn pobl Aberteifi, ond hefyd er mwyn poblogaeth gogledd sir Benfro, a fydd yn wynebu problemau dybryd os na fydd cyfleuster ar eu cyfer.

Mewn gwirionedd yr oedd Machynlleth a Thywyn y tu allan i gylch gorchwyl yr adolygiad hwn ond, ar y llaw arall, gallaf ddeall pam y cododd Dr Axford y pwyntiau hynny. Mae'n dda bod yr ysbytai hynny'n

District General Hospital, because it is the jewel in the crown of west Wales. We need to recognise that, in rural areas, we will sometimes have to operate district general hospitals differently. However, with telemedicine and so on, it has now become a viable option for us. I am also keen to ensure that the necessary facilities are in place at Machynlleth and Tywyn. Although we need to do further work in those areas, a consensus is emerging. I also praise the way in which Judith Paget of Powys Local Health Board has dealt with the complex issues that have arisen, and with the alignment to other services.

Helen Mary Jones: I thank the Minister for her statement, and the Plaid Cymru group welcomes the report. It reflects a different approach to the provision of healthcare in rural areas from that which we have seen previously, and I am sure that it will reassure people in those communities that their concerns have been listened to. It also demonstrates that there can be a positive future for community hospitals. The possibilities of telemedicine and new techniques give community hospitals a strong future, but also strengthen the future of more rural district general hospitals. Therefore, by working in partnership, the two levels can deliver first-class services for people in rural communities without their necessarily needing to travel hundreds of miles to access those services.

With regard to Cardigan, there have clearly been issues with the site, although I do not have the detailed local knowledge that some other Members have. Before the Cardigan option is abandoned or reconsidered, will the Minister give an assurance that all possible sites in Cardigan will be explored first, because I concur with the point that it would be difficult for people in north Pembrokeshire to access services from the alternative sites? Looking at the geography of the whole area, that seems to make sense.

You also mentioned the rural health strategy in your statement, in which the issues that we are discussing will no doubt form a key part. Are you in a position to give us more of an

edrych tuag at Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais, oherwydd hwnnw yw prif drysor y gorllewin. Mae angen inni gydnabod y bydd yn rhaid inni redeg ysbytai cyffredinol dosbarth yn wahanol weithiau mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, gyda thelefeddygaeth ac yn y blaen, mae'n opsiwn dichonadwy inni erbyn hyn. Yr wyf yn awyddus hefyd i sicrhau bod y cyfleusterau angenrheidiol ar gael ym Machynlleth a Thywyn. Er bod angen inni wneud mwy o waith yn yr ardaloedd hynny, mae consensws yn dod i'r wyneb. Hoffwn ganmol hefyd y modd y mae Judith Paget o Fwrdd Iechyd Lleol Powys wedi delio â'r materion cymhleth sydd wedi codi, ac â'r alinio â gwasanaethau eraill.

Helen Mary Jones: Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad, ac mae grŵp Plaid Cymru yn croesawu'r adroddiad. Mae'n adlewyrchu dull o fynd ati i ddarparu gofal iechyd mewn ardaloedd gwledig sy'n wahanol i'r hyn a welsom o'r blaen, ac yr wyf yn siŵr y bydd yn calonogi pobl yn y cymunedau hynny fod eu pryderon wedi cael gwrandawriad. Mae'n dangos hefyd y gall fod dyfodol cadarnhaol i ysbytai cymuned. Mae posibiladau telefeddygaeth a thechnegau newydd yn cynnig dyfodol cryf i ysbytai cymuned, ond maent hefyd yn cryfhau dyfodol ysbytai cyffredinol dosbarth mwy gwledig. Felly, drwy weithio mewn partneriaeth, gall y ddwy lefel gynnig gwasanaethau o'r radd flaenaf i bobl mewn cymunedau gwledig heb iddynt orfod teithio cannoedd o filltiroedd o reidrwydd i gael y gwasanaethau hynny.

Ynglŷn ag Aberteifi, yn amlwg cafwyd problemau gyda'r safle, er nad yw'r wybodaeth leol fanwl sydd gan rai Aelodau eraill gennyf. Cyn rhoi heibio neu ailystyried opsiwn Aberteifi, a wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd yr ymchwilir i bob safle posibl yn Aberteifi yn gyntaf, oherwydd yr wyf yn cydfynd â'r pwynt y byddai'n anodd i bobl yng ngogledd sir Benfro gael gwasanaethau yn y lleoliadau eraill sydd wedi'u cynnig? Ac edrych ar ddaearyddiaeth yr ardal gyfan, mae hynny fel petai'n gwneud synnwyr.

Cyfeiriasoch hefyd at y strategaeth iechyd gwledig yn eich datganiad, a bydd y materion yr ydym yn eu trafod yn chwarae rhan allweddol yn hynny'n ddi-os. A ydych yn

idea about the timescale by when we may see a draft of that strategy, and have an opportunity to debate it in the Assembly?

Edwina Hart: Thank you very much, Helen. I concur with your comments about the role of community hospitals. We have to look at what is required by individual communities and think about how we can link them in with district general hospitals. We cannot have a model plan that will fit everywhere in Wales, because we must take a lot of issues into account, such as transport issues. When we talk about rurality, we must also look at some of the issues around community hospitals in urban Wales, given the geography of the Valleys and so on. Therefore, this is really about what is fit for purpose for communities. That is our starting point, and Alan Axford drew out those points well in his report.

I do not intend to abandon the existing option for Cardigan in any shape or form; I will fight for where we want the site to be now, because, at the end of the day, that is the ideal site for the people of Cardigan and of north Pembrokeshire. However, I take on board your view that, even though that is probably the only suitable site, we also have to look at other sites in the area. However, the first step must be to try to resolve the issue of where we want to put the new facility in Cardigan.

On the rural health strategy, I understand that work is progressing well, and by September they will be in a position to make a draft outline of where they are going, with a final report coming to me in December. Therefore, it will not be long until we discuss that in the Assembly. Once we have the rural health plan, I want to cost it, because I have no doubt that there will be financial implications. I want to have a good discussion on it, but then I want to implement it as soon as possible, and make the kind of changes that it will say we have to deliver.

Jenny Randerson: Thank you for the statement, Minister. I welcome the positive

gallu rhoi inni well syniad ynghylch pryd y gallem ddisgwyl gweld drafft o'r strategaeth honno, a chael cyfle i'w drafod yn y Cynulliad?

Edwina Hart: Diolch yn fawr, Helen. Yr wyf yn cyd-fynd â'ch sylwadau am rôl ysbytai cymuned. Rhaid inni edrych ar yr hyn y mae ar gymunedau unigol ei eisiau a meddwl sut y gallwn eu cysylltu ag ysbytai cyffredinol dosbarth. Ni allwn gael cynllun model a fydd yn gweithio ym mhobman yng Nghymru, oherwydd y mae'n rhaid ystyried llawer o bethau, megis materion trafnidiaeth. Pan soniwn am ardaloedd gwledig, rhaid inni edrych hefyd ar rai o'r problemau ynghylch ysbytai cymuned yn nhrefi Cymru, o feddwl am ddaeryddiaeth y Cymoedd ac yn y blaen. Felly, mae a wnelo hyn mewn gwirionedd â'r hyn sy'n addas i ddibenion cymunedau. Hynny yw ein man cychwyn, a phwysleisiodd Alan Axford y pwyntiau hynny'n dda yn ei adroddiad.

Nid wyf yn bwriadu rhoi heibio'r opsiwn presennol i Aberteifi o gwbl; ymladdaf dros y fan lle y mae arnom eisiau i'r safle fod yn awr, oherwydd, yn y pen draw, hwnnw yw'r safle delfrydol i bobl Aberteifi a gogledd sir Benfro. Fodd bynnag, derbynïaf eich pwynt, er mai dyna'r unig safle addas yn ôl pob tebyg, fod yn rhaid inni edrych ar safleoedd eraill yn yr ardal. Fodd bynnag, y cam cyntaf o reidrwydd fydd ceisio datrys y broblem ynglŷn â lle yr ydym am roi'r cyfleuster newydd yn Aberteifi.

Ynglŷn â'r strategaeth iechyd gwledig, deallaf fod gwaith yn mynd rhagddo'n dda, ac erbyn mis Medi byddant yn gallu llunio amlinelliad drafft i ddangos i ble y maent yn anelu, a minnau'n cael adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr. Felly, byddwn yn trafod hynny cyn bo hir yn y Cynulliad. Cyn gynted ag y bydd y cynllun iechyd gwledig gennym, yr wyf am ei gostio, oherwydd nid oes gennyf ddim amheuaeth na fydd goblygiadau ariannol. Yr wyf am gael trafodaeth dda arno, ond yna yr wyf am ei weithredu cyn gynted â phosibl, a gwneud y math o newidiadau y bydd yn dweud bod yn rhaid inni eu cyflawni.

Jenny Randerson: Diolch ichi am y datganiad, Weinidog. Yr wyf yn croesawu

tone of both your statement and the report as a whole. I particularly welcome the reinforcement of the role of Bronglais hospital.

One useful thing about this report is that it highlights some of the frustration with accommodation problems, particularly regarding Tregaron. However, I am conscious, having once visited Aberaeron Hospital, that it has similar problems. In relation to Tregaron, the report states that the outline business case is on hold—understandably so, given the circumstances—but obviously, people are anxious for it to develop. Can you give us a date by which you think it might be completed?

In relation to Cardigan, you referred to ransom strips, and the report mentions a deadline for planning permission in August. It would be helpful to know whether you think that there is a realistic prospect of securing this site, or whether you are actively looking at other sites in Cardigan. My view is that Cardigan is the right option, and is by far the best and most central site available. I wonder whether the situation is fully appreciated in Cardigan—do local people realise that there may be no other appropriate site?

I am concerned to read that the project team members working on that site option have concerns that the new building would provide little potential for expansion and future-proofing. The report blames this on the funding process involving a third-party developer, but modern schemes of this kind can give you the necessary flexibility for future-proofing. I would welcome your comments on whether it is possible at this stage to provide a more flexible solution. It seems rather short-sighted, in this day and age, at a time of rapidly evolving healthcare, to build a state-of-the-art facility that, in 10 years' time, will be way out of date. It must be able to withstand the test of time.

I welcome the comments about Machynlleth and Tywyn—it is good that Dr Axford strayed outside his terms of reference slightly

tôn gadarnhaol eich datganiad a'r adroddiad drwyddo draw. Croesawaf yn arbennig y ffaith bod rôl ysbyty Bronglais yn cael ei chryfhau.

Un peth defnyddiol am yr adroddiad hwn yw ei fod yn amlygu rhywfaint o'r rhwystredigaeth gyda phroblemau adeiladau, yn enwedig ynghylch Tregaron. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol, a minnau wedi ymweld unwaith ag Ysbyty Aberaeron, fod ganddo yntau broblemau tebyg. O ran Tregaron, dywed yr adroddiad fod yr achos busnes amlinellol wedi cael ei atal—yn ddealladwy, o ystyried yr amgylchiadau—ond yn amlwg, mae pobl yn awyddus iddo ddatblygu. A allwch roi dyddiad inni pryd y tybiwch y bydd yn cael ei gwblhau efallai?

Yng nghyswllt Aberteifi, cyfeiriasoch at leiniau priddwerth, ac mae'r adroddiad yn sôn am ddyddiad cau ar gyfer caniatâd cynllunio ym mis Awst. Byddai'n fuddiol gwybod a oes gobaith realistig o sicrhau'r safle hwn, ynteu a ydych wrthi'n edrych ar safleoedd eraill yn Aberteifi. Fy marn i yw mai Aberteifi yw'r opsiwn iawn, ac mai dyma'r safle gorau a mwyaf canolog o bellffordd. Tybed a yw pobl yn llwyr sylweddoli beth yw'r sefyllfa yn Aberteifi—a yw pobl leol yn sylweddoli nad oes safle arall priodol o bosibl?

Yr wyf yn pryderu o ddarllen bod gan aelodau'r tîm prosiect sy'n gweithio ar opsiwn y safle hwnnw bryderon na fyddai gan yr adeilad newydd fawr o botensial i ehangu a darparu ar gyfer anghenion y dyfodol. Mae'r adroddiad yn rhoi'r bai am hyn ar y broses gyllido sy'n cynnwys datblygwr trydydd parti, ond gall cynlluniau modern o'r math hwn roi ichi'r hyblygrwydd angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn croesawu eich sylwadau ynghylch a yw'n bosibl darparu ateb mwy hyblyg ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos braidd yn gibddall, yn yr oes hon, a gofal iechyd yn faes sy'n datblygu'n gyflym, adeiladu cyfleuster o'r radd flaenaf a fydd, ymhen 10 mlynedd, yn gwbl annigonol i'r oes. Rhaid iddo allu para am gryn amser.

Croesawaf y sylwadau am Fachynlleth a Thywyn—mae'n dda bod Dr Axford wedi crwydro ychydig y tu hwnt i'w gylch

to give us a broader picture. You refer in your statement to the Hywel Dda Trust, and the role that it should play in relation to all this. Obviously, the trust has a key role. I am sure that you are aware that there is concern in Ceredigion that none of the four community non-executive directors who were appointed came from Ceredigion—there are two from Pembrokeshire, one from Llanelli, and one from Brecon. I would welcome a response on whether you are planning to appoint an additional non-executive director, not exactly to represent Ceredigion, because I know that that is not their role, but to ensure that the situation there is fully appreciated. It would also be useful to have an update from you on when you think that you will be able to appoint a permanent chief executive to the trust.

3.50 p.m.

Edwina Hart: Thank you for the broad welcome that you have given to Alan Axford's report, which I think is excellent. I will be writing to thank him on behalf of all Members for the work that he has done.

The appointment of the chief executive is a matter for the board, and as soon as I have any information available, I will share it with Members.

On the position of appointees to the Hywel Dda board, with regard to public appointments I am governed by a process of interview that is overseen by an independent assessor. I do understand the point that you make, however. Boards can, of course, appoint associate directors, if they wish. I will take up the point that you made.

Like you, I welcome the fact that Alan has strayed into Tywyn and Machynlleth, as that completes the picture for us. I am thinking of the responsibilities of Bronglais and the wider area. However, to concentrate on your remarks about Bronglais, the report has given us an opportunity to see the value of that hospital in its setting with regard to what more it can do and what we can deliver.

gorchwyl i roi darlun ehangach inni. Cyfeiriwch yn eich datganiad at Ymddiriedolaeth Hywel Dda, a'r rôl y dylai ei chwarae yng nghyswllt hyn oll. Yn amlwg, mae gan yr ymddiriedolaeth rôl allweddol. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod pryder yng Ngheredigion nad oedd yr un o'r pedwar cyfarwyddwr anweithredol cymunedol a benodwyd yn dod o Geredigion—mae dau o sir Benfro, un o Lanelli, ac un o Aberhonddu. Byddwn yn croesawu ymateb ynghylch a ydych yn bwriadu penodi cyfarwyddwr anweithredol ychwanegol, nid i gynrychioli Ceredigion yn union, oherwydd gwn nad hynny yw eu rôl, ond i sicrhau bod pobl yn deall yn iawn beth yw'r sefyllfa yno. Byddai'n fuddiol hefyd cael y wybodaeth ddiweddaraf gennych ynghylch pryd y tybiwch y byddwch yn gallu penodi prif weithredwr parhaol i'r ymddiriedolaeth.

Edwina Hart: Diolch ichi am y croeso cyffredinol yr ydych wedi'i roi i adroddiad Alan Axford, sydd, yn fy marn i, yn rhagorol. Byddaf yn ysgrifennu ato ar ran yr Aelodau i gyd i ddiolch iddo am y gwaith y mae wedi'i wneud.

Mater i'r bwrdd yw penodi'r prif weithredwr, a chyn gynted ag y bydd unrhyw wybodaeth ar gael imi, byddaf yn ei rhannu gyda'r Aelodau.

O ran penodi aelodau i fwrdd Hywel Dda, o safbwynt penodiadau cyhoeddus mae'r hyn a wnaef yn cael ei lywodraethu gan broses gyfswlled sy'n cael ei goruchwylio gan asesydd annibynnol. Yr wyf yn deall y pwynt yr ydych yn ei wneud, fodd bynnag. Gall byrddau benodi cyfarwyddwyr cyswllt, wrth gwrs, os ydynt yn dymuno. Ystyriaif y pwynt a wnaethoch.

Fel chithau, yr wyf yn croesawu'r ffaith bod Alan wedi crwydro cyn belled â Thywyn a Machynlleth, gan fod hynny'n cwblhau'r darlun inni. Yr wyf yn meddwl am gyfrifoldebau Bronglais a'r ardal ehangach. Fodd bynnag, a chanolbwyntio ar eich sylwadau am Fronglais, mae'r adroddiad wedi rhoi cyfle inni weld gwerth yr ysbyty hwnnw yn ei leoliad o ran yr hyn y gall ei

There are many issues about district general hospitals in rural areas and surgeons, as they tend to specialise. In district general hospitals in rural areas, you need more general surgeons. I have found that all the discussions that we have been involved in over the last 12 months have focused some of the issues even more clearly in Alan's report.

On Tregaron, now that I have Alan's report, I expect it to go full speed ahead with its business case, which will have to come before me as part of the process. I will be discussing that with officials in the light of today's statement, and I am happy to advise Members as things proceed.

In Cardigan, like you, I feel passionately that the site that has been earmarked is where the new facility should be—it is the right solution. We have to fight for that solution, if we can get it done. I am reluctant to look at other sites, as they will not be as appropriate. I think that I have to do much more work with my officials in that area to see if we can achieve what we want.

I take on board your point about future-proofing our requirements, however. That is an issue for the NHS, and I do not think that we have necessarily been particularly good at it. When we have looked at building designs, we have always looked at what is good and state of the art now. However, you are quite right in saying that what is thought of as state of the art now can turn out, in 10 years' time, to be something that people think ought to be in a museum; that is especially true in medicine, where things move very quickly. I will therefore take up those points in my discussions with my officials, because I am anxious to get the right solution in Cardigan as quickly as possible.

Joyce Watson: I welcome the review, Minister, and your response to it. All too often, we in the Labour administration are

wneud yn ychwanegol a'r hyn y gallwn ei ddarparu. Mae llawer o faterion yn ymwneud ag ysbytai cyffredinol dosbarth mewn ardaloedd gwledig a llawfeddygon, gan eu bod yn tueddu i arbenigo. Mewn ysbytai cyffredinol dosbarth mewn ardaloedd gwledig, mae angen mwy o lawfeddygon cyffredinol. Yr wyf wedi canfod bod yr holl drafodaethau yr ydym wedi bod â rhan ynddynt dros y 12 mis diwethaf wedi crisialu rhai o'r materion yn gliriach fyth yn adroddiad Alan.

O ran Tregaron, a minnau bellach wedi cael adroddiad Alan, yr wyf yn disgwyl iddo brysuro ymlaen â'i achos busnes, y bydd yn rhaid iddo ddod ger fy mron i fel rhan o'r broses. Byddaf yn trafod hynny gyda'm swyddogion yn ngoleuni'r datganiad heddiw, ac yr wyf yn barod i roi gwybodaeth i'r Aelodau wrth i bethau fynd rhagddynt.

Yn Aberteifi, fel chithau, yr wyf yn teimlo'n gryf iawn mai'r safle a glustnodwyd yw'r man lle y dylai'r cyfleuster newydd fod—dyna'r ateb cywir. Rhaid inni ymladd o blaid yr ateb hwnnw, os oes modd ei wireddu. Yr wyf yn gyndyn o edrych ar safleoedd eraill, gan na fyddant mor addas. Credaf fod yn rhaid imi wneud llawer mwy o waith gyda'm swyddogion yn yr ardal honno i weld a allwn gyflawni'r hyn yr ydym yn ei ddymuno.

Derbyniaf eich pwynt am ddarparu ar gyfer y dyfodol yn ein gofynion, fodd bynnag. Mae hwnnw'n fater i'r GIG, ac ni chredaf ein bod o reidrwydd wedi bod yn arbennig o dda am wneud hynny. Wrth edrych ar ddyluniad adeiladau, yr ydym wastad wedi edrych ar yr hyn sydd o'r radd flaenaf yn awr. Fodd bynnag, yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod yr hyn sy'n cael ei ystyried o'r radd flaenaf yn awr, ymhen 10 mlynedd yn gallu bod yn rhywbeth y mae pobl yn credu y dylai fod mewn amgueddfa; mae hynny'n arbennig o wir mewn meddygaeth, lle y mae pethau'n symud yn gyflym iawn. Felly ystyriaf y pwyntiau hynny yn fy nhrafodaethau gyda'm swyddogion, oherwydd yr wyf yn awyddus i gael yr ateb iawn yn Aberteifi cyn gynted ag sy'n bosibl.

Joyce Watson: Croesawaf yr adolygiad, Weinidog, a'ch ymateb iddo. Yn rhy aml o lawer, yr ydym ni yn y weinyddiaeth Lafur

accused of not seeing the wider picture in rural Wales. I would put on record that you clearly have seen the picture in rural Wales, and are seeking solutions to it. I thank you for that.

I am glad that those involved in the report strayed beyond their remit to include Tywyn within their recommendations, because there was a clear need to look at the whole picture.

My principal concern is the provision of care in Cardigan. Without such provision in the town, an awful lot of this is jeopardised, as is writ large in the report. As one who has close connections with Cardigan, I understand the frustration felt by the town's population and the real fear that they could be left behind or excluded from the picture in getting increased healthcare. I am, therefore, pleased to hear your remarks that you would take this on board and seek action to address the real need in unpicking and resolving the planning issues. Are you able to tell me about any timeframe that you may have for looking at those actions and any of the meetings that you have announced?

Edwina Hart: The actions in respect of Cardigan are immediate.

Paul Davies: Naturally, I want to respond to your statement by concentrating on the Cardigan issue. As has already been said, there is huge concern about the planned development in Cardigan. Dr Axford endorses the health and social care service model for the redevelopment of Cardigan Hospital. It is clear from your statement that, if a suitable site with planning permission cannot be secured, relocating such a facility to the Lampeter or Felinfach area would have a detrimental effect, and would be a disadvantage to my constituents in north Pembrokeshire. I know from what you have already said today that you will be discussing the siting of this new hospital, because of the problems encountered.

What discussions have you had with the local health board and local planners to secure an

yn cael ein cyhuddo o beidio â gweld y darlun ehangach yn y Gymru wledig. Hoffwn ddweud ar goedd eich bod chi yn amlwg wedi gweld y darlun yn y Gymru wledig, a'ch bod yn chwilio am atebion iddo. Diolch ichi am hynny.

Yr wyf yn falch bod y rhai a oedd yn ymwneud â'r adroddiad wedi crwydro y tu hwnt i'w cylch gorchwyl i gynnwys Tywyn yn eu hargymhellion, oherwydd yr oedd yn amlwg bod angen edrych ar y darlun cyfan.

Fy mhrif bryder yw darparu gofal yn Aberteifi. Heb ddarpariaeth o'r fath yn y dref, caiff llawer iawn o hyn ei beryglu, fel y dywedir yn blaen yn yr adroddiad. Fel un sydd â chysylltiadau agos ag Aberteifi, yr wyf yn deall y rhwystredigaeth a deimlir gan boblogaeth y dref a'r ofn gwirioneddol y gallent gael eu gadael ar ôl neu eu cau allan o'r darlun o ran cael mwy o ofal iechyd. Yr wyf, felly, yn falch o glywed eich sylwadau y byddech yn rhoi sylw i hyn ac yn ceisio gweithredu i ymdrin â'r angen gwirioneddol i archwilio a datrys y materion cynllunio. A allwch ddweud wrthyf am unrhyw amserlen sydd gennych ar gyfer edrych ar y camau hynny ac unrhyw rai o'r cyfarfodydd yr ydych wedi'u cyhoeddi?

Edwina Hart: Bydd y camau mewn perthynas ag Aberteifi yn digwydd ar unwaith.

Paul Davies: Yn naturiol, yr wyf am ymateb i'r datganiad drwy ganolbwyntio ar fater Aberteifi. Fel sydd wedi cael ei ddweud eisoes, mae pryder enfawr ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig yn Aberteifi. Mae Dr Axford yn cefnogi'r model gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol o ran ailddatblygu Ysbyty Aberteifi. Mae'n amlwg yn ôl eich datganiad, os na ellir sicrhau safle addas gyda chaniatâd cynllunio, y byddai adleoli cyfleuster o'r fath i ardal Llanbedr Pont Steffan neu Felin-fach yn cael effaith niweidiol, a byddai'n anfantais i'm hetholwyr yng nogledd sir Benfro. Gwn yn ôl yr hyn yr ydych wedi'i ddweud eisoes heddiw y byddwch yn trafod lleoliad yr ysbyty newydd hwn, oherwydd y problemau a wynebwyd.

Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cynnal â'r bwrdd iechyd lleol a chynllunwyr lleol i

appropriate site, because it is crucial for my constituents that this facility is located in the Cardigan area? What sort of timescales are you looking at to resolve this important issue—are you looking at months, or will this go into next year? As has already been said, access to a facility in Lampeter or Felinfach would be unacceptable to my constituents in north Pembrokeshire. May I, therefore, seek your assurance that you will do everything possible to ensure that this development is located in the Cardigan area?

Edwina Hart: I re-emphasise that I want it located in the Cardigan area. If it is not, I will have a problem in dealing with north Pembrokeshire, because I will then have to look at what requirements I have in that area to help with the needs of the population. Therefore, I need this located where we ideally want it located, with the model that I believe everyone is settled on, in terms of the model in Cardigan. My officials have been actively engaged in discussions, but I have decided that, even though officials are normally engaged in those discussions, it is about time that I got engaged in these discussions in a more robust manner, to try to see whether we can sort out some of the problems. Therefore, you have my assurance on that. These types of discussions will take place in the next few weeks.

However, we must recognise that we have to get some sort of shape on what is going on out there with new projects. We are allowing it to go on for too long—and I have noticed this with GP surgeries and LHBs; you think that you can always discuss and that you will come to a compromise. However, sometimes, words such as ‘compulsory purchase orders’ should be stated far earlier in discussions than is currently the case. Otherwise, we will not have primary health facilities and other facilities for years and years, because we just cannot sort out land issues. That is not fair on the population or on the public purse, because we have to pour money into poor buildings to keep them going, when we could have good, new buildings going up. This is a fundamental issue of getting estates policy right, and starting to recognise that the NHS

sicrhau safle priodol, oherwydd y mae’n hanfodol i’r hetholwyr i’r cyfleuster hwn gael ei leoli yn ardal Aberteifi? Pa fath o amserlenni yr ydych yn eu hystyried i ddatrys y mater pwysig hwn—a ydych yn sôn am fisoedd, ynteu a fydd hyn yn parhau tan y flwyddyn nesaf? Fel y dywedwyd eisoes, byddai mynediad at gyfleuster yn Llanbedr Pont Steffan neu’r Felin-fach yn annerbyniol i’r hetholwyr yng ngogledd sir Benfro. A gaf, felly, ofyn am sicrwydd gennyh y byddwch yn gwneud popeth posibl i sicrhau bod y datblygiad hwn yn cael ei leoli yn ardal Aberteifi?

Edwina Hart: Pwysleisiaf eto fy mod am iddo gael ei leoli yn ardal Aberteifi. Os na ddigwydd hynny, bydd gennyf broblem wrth ddelio â gogledd sir Benfro, oherwydd bydd yn rhaid imi wedyn ystyried pa ofynion sydd gennyf yn yr ardal honno i helpu gydag anghenion y boblogaeth. Felly, mae angen i’r ysbyty hwn gael ei leoli yn y man yr ydym am iddo gael ei leoli ynddo yn ddelfrydol, gyda’r model y credaf fod pawb yn gytún arno, o safbwynt y model yn Aberteifi. Mae fy swyddogion wedi bod wrthi’n cynnal trafodaethau, ond yr wyf wedi penderfynu, er mai swyddogion sy’n cynnal y trafodaethau hynny fel arfer, ei bod yn bryd i mi gymryd rhan yn y trafodaethau hyn mewn modd mwy cadarn, i geisio gweld a allwn ddatrys rhai o’r problemau. Felly, rhoddaf sicrwydd ichi o ran hynny. Bydd y mathau hyn o drafodaethau yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnosau nesaf.

Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod yn rhaid inni gael rhyw fath o drefn o ran yr hyn sy’n digwydd gyda phrosiectau newydd. Yr ydym yn caniatáu i bethau bara’n rhy hir—ac yr wyf wedi sylwi ar hyn gyda meddygfeydd meddygon teulu a BILlau; yr ydych yn meddwl bod modd trafod bob amser ac y byddwch yn sicrhau cyfaddawd. Fodd bynnag, weithiau, dylid dweud geiriau fel ‘gorchmynion prynu gorfodol’ yn llawer cynharach mewn trafodaethau nag sy’n digwydd ar hyn o bryd. Fel arall, ni fydd gennym gyfleusterau iechyd sylfaenol a chyfleusterau eraill am flynyddoedd lawer, gan nad ydym yn gallu datrys problemau’n ymwneud â thir. Nid yw hynny’n deg â’r boblogaeth nac â’r pwr cyhoeddus, oherwydd ein bod yn gorfod rhoi llawer iawn o arian at adeiladau gwael i gynnal y rheini,

is a big spender in these areas. We have a lot of clout in terms of the money that we have, and it is about time that we started to exercise our clout more effectively in getting these projects off the ground.

Elin Jones: Diolchaf i'r Gweinidog am y datganiad pwysig hwn ar wasanaethau iechyd yng Ngheredigion, ac am y gwaith arwyddocaol mae Alan Axford wedi ei wneud yn y cyd-destun hwn. Mae Alan Axford yn feddyg sydd yn uchel ei barch yng Ngheredigion, a thu hwnt.

Yr wyf wedi bod yn awyddus dros y blynyddoedd i warchod a datblygu gwasanaethau ar lefel gymunedol yng Ngheredigion. Yr oeddwn yn falch o groesawu'r Gweinidog i Dregaron yn gynharach yn y flwyddyn i drafod pryderon a gobeithion pobl leol am wasanaethau. Mae datganiad heddiw yn gam pwysig ymlaen yng Ngheredigion.

O ran Aberaeron, mae'n bwysig, fel y dywedodd y Gweinidog, i symud ymlaen ar fyrder. Mae consensws yn lleol ynglŷn â'r gwasanaethau hynny, ac mae angen gwireddu'r dyhead hwnnw'n lleol.

Yn ail, cytunaf â phawb sydd wedi dweud mai'r flaenoriaeth yw cadw safle ysbyty cymunedol yn Aberteifi, ac nid ail-leoli yn uwch i fyny dyffryn Teifi, yn Llanbedr Pont Steffan neu yn Felin-fach. Byddai'n drasiedi yng Ngheredigion, a thu hwnt, pe na bai safle ar gael yn Aberteifi i ddiogelu'r gwasanaeth hwnnw i'r ardal benodol honno.

O ran Tregaron, a ydych yn cytuno, ac yn cydnabod y pwynt mae Alan Axford yn ei wneud yn ei ddatganiad, ynglŷn â phwysigrwydd cysylltu'r berthynas agos honno rhwng y gwelyau yn Ysbyty Tregaron a'r rôl bwysig y maent yn ei chwarae o ran dyfodol ysbyty Bronglais? A ydych yn cytuno hefyd nad oes achos ar hyn o bryd i leihau'r gwelyau hynny os nad oes newidiadau i'r gwasanaethau cymunedol yn yr ardal honno, sy'n lleihau'r angen yn y pen draw am welyau iechyd?

pryd y gallem fod wrthi'n codi adeiladau newydd, da. Mae hyn yn fater sylfaenol sy'n ymwneud â sicrhau bod y polisi ystadau yn iawn, a dechrau cydnabod bod y GIG yn wariwr mawr yn y meysydd hyn. Mae gennym lawer o rym o ran yr arian sydd gennym, ac mae'n bryd inni ddechrau arfer ein grym yn fwy effeithiol er mwyn gallu dechrau ar y prosiectau hyn.

Elin Jones: I thank the Minister for this important statement on health services in Ceredigion, and for the significant work that Alan Axford has done in this context. As a doctor, Alan Axford is highly respected in Ceredigion and beyond.

Over the years, I have been keen to safeguard and develop community services in Ceredigion. I was pleased to welcome the Minister to Tregaron earlier this year to discuss the concerns and hopes of local people in terms of services. Today's statement is an important step forward in Ceredigion.

On Aberaeron, it is important, as the Minister said, to move forward quickly. There is local consensus on those services, and those aspirations must be realised locally.

Secondly, I agree with all those who have said that the priority is to secure the site of the community hospital in Cardigan, rather than relocate further up the Teifi valley, to Lampeter or Felinfach. It would be a tragedy for Ceredigion, and beyond, if no site was available in Cardigan to secure the service for that area.

On Tregaron, do you agree, and recognise the point that Alan Axford makes in his statement, about the importance of linking the close relationship between beds at Tregaron Hospital and the important role that they play in terms of the future of Bronglais hospital? Do you also agree that there is no case at present to reduce the number of beds there if there are no changes to community services in that area, reducing the need in the long term for health beds?

4.00 p.m.

Efallai mai'r neges bwysicaf yn adroddiad Alan Axford yw bod angen edrych ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol mewn ardal wledig fel Ceredigion, ac yn hytrach na chael un ateb i'r holl gymunedau gwahanol, mae angen edrych ar gymunedau ar wahân, a datblygu atebion gwahanol i'r sefyllfaoedd gwahanol yn y cymunedau hynny.

Yn olaf, croesawaf y pwyslais ar ddyfodol ysbyty Bronglais, a rôl bwysig yr ysbyty hwnnw. Gobeithiaf y byddwn yn gweld datblygiadau pellach yn yr ysbyty hwnnw yn y dyfodol agos.

Edwina Hart: Clearly, issues regarding the development at Bronglais are essential, now that I have accepted Alan Axford's report in full. We will have to look at the facilities that are available in Bronglais, so that we can ensure that it serves the community in its entirety.

I accept the point that you made about separate solutions for separate communities. We have to recognise the geography and the diversity of communities, and that one size does not fit all. Alan's report has illustrated that one size does not fit all, even within the communities of Ceredigion, and he has moved on to deal with that very well indeed.

I accept what he says about Tregaron, because I think that the relationship with Bronglais and the number of beds that are required are important. If things change in a community, provided that you have a flexible facility, you can move with that change. It is important to recognise that the occupancy rates are high in Tregaron in terms of the demand for beds, but those beds will always be required unless there is a substantial change in what we do in the community. I am pleased to accept Alan's report in full, and I am also pleased that I had the opportunity to go out and about with you in Ceredigion to meet some of the key players when we were discussing these health issues and our initial concerns. Alan Axford's report has come out

Perhaps the most important message of Alan Axford's report is that we need to look at developing community services in a rural area such as Ceredigion, and, rather than having one solution for all the different communities, we need to look at separate communities and develop different solutions to the different situations in those communities.

Finally, I welcome the emphasis placed on the future of Bronglais hospital, and the important role of that hospital. I hope that we will see further developments in that hospital in the near future.

Edwina Hart: Mae'n amlwg bod y materion sy'n ymwneud â'r datblygiad ym Mronglais yn hanfodol, a minnau bellach wedi derbyn adroddiad Alan Axford yn ei gyfanrwydd. Bydd yn rhaid inni ystyried y cyfleusterau sydd ar gael ym Mronglais, fel y gallwn sicrhau y bydd yn gwasanaethu'r gymuned gyfan.

Yr wyf yn derbyn y pwynt a wnaethoch ynglŷn â atebion gwahanol ar gyfer cymunedau gwahanol. Rhaid inni gydnabod daearyddiaeth ac amrywiaeth y cymunedau, ac na wnaiff un ateb y tro ym mhob man. Mae adroddiad Alan wedi dangos na wnaiff un ateb y tro ym mhob man, a hynny hyd yn oed o fewn cymunedau Ceredigion, ac mae wedi mynd ati i ymdrin â hynny'n dda iawn.

Yr wyf yn derbyn yr hyn a ddywed ynglŷn â Thregaron, oherwydd credaf fod y berthynas â Bronglais a nifer y gwelyau sy'n angenrheidiol yn bwysig. Os bydd pethau'n newid mewn cymuned, cyn belled â bod gennych gyfleuster hyblyg, gallwch ymaddasu i'r newid hwnnw. Mae'n bwysig cydnabod bod y cyfraddau llenwi gwllau'n uchel yn Nhregaron o ran y galw am wllau, ond bydd angen y gwllau hynny bob amser oni bai fod newid mawr yn yr hyn a wnawn yn y gymuned. Yr wyf yn falch o dderbyn adroddiad Alan yn ei gyfanrwydd, ac yr wyf yn falch hefyd imi gael cyfle i fynd o amgylch Ceredigion gyda chi i gyfarfod rhai o'r bobl allweddol pan oeddem yn trafod y materion iechyd hyn a'r pryderon

of that, and I hope that people will be pleased with it in general.

The other point that I wish to stress is the point that you made about Cardigan. When we look at this in full, we must make certain that we secure what we require in these areas, and we must not be held to ransom. We must get on and deliver it.

Alun Davies: Thank you for your statement this afternoon, Minister. All of us living in Ceredigion will welcome the statement that you have made. When you appointed Dr Axford to conduct this review, we were all pleased. Dr Axford is enormously respected throughout the healthcare community in Ceredigion and elsewhere. In writing this report, he has set out a very clear blueprint for the delivery of community health services throughout Ceredigion and beyond.

In welcoming your statement this afternoon, I would also like to welcome your comments on Cardigan and the tone that you have used in making those remarks. We often read transcripts and hear people speaking about these issues, but the frustration clearly evident in your words this afternoon will mean a lot to people throughout Cardigan, south Ceredigion, north Pembrokeshire and the Teifi valley. They have been enormously frustrated over the past few years, and have had excuse after excuse from local authorities and public bodies which have failed to deliver the healthcare that the Welsh Assembly Government has committed to provide for those communities. Therefore, we welcome your words and your tone this afternoon.

In terms of taking this review forward, I was pleased to hear that you have initiated discussions with Lord Elystan-Morgan, who is conducting your review of the rural health strategy. That will be crucial for the delivery of healthcare in areas such as Ceredigion. Could you share with us the vision of integration that you have spoken about? Other speakers this afternoon have discussed transport issues and population sparsity in areas such as Tregaron, Fishguard and

cychwynnol a oedd gennym. O hynny y deilliodd adroddiad Alan Axford, a gobeithiaf y bydd pobl yn fodlon arno'n gyffredinol.

Y pwynt arall yr hoffwn ei bwysleisio yw'r pwynt a wnaethoch ynglŷn ag Aberteifi. Ac edrych ar hyn yn gyfan gwbl, rhaid sicrhau ein bod yn cael yr hyn y mae arnom ei angen yn yr ardaloedd hynny, a rhaid sicrhau na chawn ein dal yn wystlon. Rhaid inni fwrw ymlaen a chyflawni hynny.

Alun Davies: Diolch am y datganiad a wnaethoch y prynhawn yma, Weinidog. Bydd pob un ohonom sy'n byw yng Ngheredigion yn croesawu'r datganiad a wnaethoch. Pan benodasoch Dr Axford i gynnal yr adolygiad hwn, yr oeddem oll yn falch. Mae parch mawr at Dr Axford drwy gymuned iechyd Ceredigion ac mewn lleoedd eraill. O ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae wedi gosod glasbrint clir iawn ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd cymunedol ar draws Ceredigion a thu hwnt.

Wrth groesawu eich datganiad y prynhawn yma, hoffwn groesawu hefyd y sylwadau a wnaethoch ynglŷn ag Aberteifi a'r dôn yr ydych wedi ei defnyddio i wneud y sylwadau hynny. Yn aml darllenwn drawsgrifiadau a chlywn bobl yn siarad ynghylch y materion hyn, ond bydd y rhwystredigaeth sydd mor eglur yn eich geiriau y prynhawn yma'n golygu llawer i bobl yn Aberteifi, de Ceredigion, gogledd sir Benfro a dyffryn Teifi. Maent wedi bod yn hynod rwystredig dros y blynyddoedd diwethaf, a chawsant esgusion lu gan awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus sydd wedi methu cyflwyno'r gofal iechyd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i'w ddarparu i'r cymunedau hynny. Felly, yr ydym yn croesawu eich geiriau a'ch tôn y prynhawn yma.

O ran bwrw ati â'r adolygiad hwn, yr oeddw'n yn falch o glywed eich bod wedi dechrau trafod gyda'r Arglwydd Elystan-Morgan, sy'n cynnal eich adolygiad ar y strategaeth iechyd gwledig. Bydd honno'n allweddol o ran darparu gofal iechyd mewn ardaloedd megis Ceredigion. A allech rannu'r weledigaeth ynghylch integreiddio yr ydych wedi siarad amdani gyda ni? Mae siaradwyr eraill y prynhawn yma wedi trafod materion yn ymwneud â thrafnidiaeth a'r boblogaeth

elsewhere. However, when I think of integration, I think of the integration between local authorities, community services, acute facilities, GP primary care services, and the way in which we integrate the whole of our healthcare services in rural areas. Many of us have felt frustrated about the delivery of healthcare in Ceredigion in previous years, and we are delighted that you are getting to grips with it.

Edwina Hart: We have a big challenge in the integration of health services across Wales. I understand that there are arguments between trusts and LHBs about who is responsible for treating which leg of a patient. We cannot run a health service on that basis. Health and social care services should be about patient need and seamlessly meeting that need, whether the patient is going to a GP, into hospital or is coming back into the community. I very much hope that my proposals on NHS reform will move us towards full integration, in the real sense of the phrase.

Thank you for your kind comments about Dr Alan Axford. As you said, he is well regarded not just in Ceredigion, but across the whole of his profession. I am sorry for my tone, but the Presiding Officer has not told me off, so I probably was not too robust. However, some days when I pick up my papers and I have queries from Members about what is going on in their areas, I get irritated about what happens to cause delays, especially when the delay does not have anything to do with finance or any of the parties not wanting the provision, but is to do with simple matters such as how quickly a building design can be dealt with, and who has interfered with that design and who has tried to stop it, and all of the issues around land. I am sorry if my frustration came across strongly today, but I cannot bear these issues, and I think that we go into politics to try to resolve these issues and to get things moving along faster. Like you, I feel intensely frustrated that a wonderful project like Cardigan hospital could be stopped because of one particular issue. That must not be allowed to happen. It

denau mewn ardaloedd megis Tregaron, Abergwaun a mannau eraill. Fodd bynnag, pan fyddaf yn meddwl am integreiddio, byddaf yn meddwl am yr integreiddio rhwng awdurdodau lleol, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau aciwt, gwasanaethau gofal sylfaenol meddygon teulu, a'r ffordd yr ydym yn integreiddio'n holl wasanaethau gofal iechyd yn yr ardaloedd gwledig. Mae llawer ohonom wedi teimlo'n rhwystredig ynglŷn â darparu gofal iechyd yng Ngheredigion yn y blynyddoedd a fu, ac yr ydym yn falch iawn eich bod yn mynd i'r afael â'r mater.

Edwina Hart: Mae her fawr yn ein hwynebu o ran integreiddio gwasanaethau iechyd ar draws Cymru. Deallaf fod dadlau rhwng ymddiriedolaethau a'r byrddau iechyd lleol ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am drin pa goes i glaf. Ni allwn gynnal gwasanaeth iechyd yn y fath fodd. Dylai fod a wnelo gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ag anghenion y claf a dylent gyflawni'r anghenion hynny'n ddi-dor, boed y claf yn mynd at feddyg teulu, i'r ysbyty neu'n dychwelyd i'r gymuned. Mawr obeithiaf y bydd fy nghynigion ynghylch diwygio'r gwasanaeth iechyd gwladol yn ein tywys at integreiddio llawn, yng ngwir ystyr y gair.

Diolch am eich geiriau caredig ynglŷn â Dr Alan Axford. Fel y dywedaso, mae'n uchel ei barch nid yn unig yng Ngheredigion, ond drwy ei broffesiwn i gyd. Ymddiheuraf am fy nhôn, ond nid yw'r Llywydd wedi fy ngheryddu, ac felly mae'n debyg na fŷm yn rhy gadarn. Fodd bynnag, ambell ddiwrnod pan godaf fy mhapurau a chael cwestiynau gan Aelodau ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd, teimlaf yn flin ynglŷn â'r pethau sy'n peri oedi, yn enwedig pan nad oes a wnelo'r oedi ddim â'r cyllido na'r ffaith nad oes yr un o'r partïon yn dymuno cael y ddarpariaeth, ond bod a wnelo'r peth â materion syml megis pa mor gyflym y gellir delio â dyluniad adeilad, a phwy sydd wedi ymyrryd â'r dyluniad hwnnw a phwy sydd wedi ceisio'i atal, a'r holl faterion sy'n ymwneud â thir. Mae'n ddrwg gennyf os cyfleais fy rhwystredigaeth yn amlwg iawn heddiw, ond ni allaf oddef y pethau hyn, a chredaf ein bod mewn gwleidyddiaeth i geisio datrys y materion hyn a hwyluso pethau. Yr wyf yn hynod rwystredig, fel yr ydych chithau, fod posibilrwydd y gallai

would be useful if Members from all parties who are involved in that area could make their views on this issue known publicly.

The Presiding Officer: Thank you, Minister. It is not my job to stop Ministers from being robust, and I look forward to your further statement this afternoon.

prosiect gwych fel Ysbyty Aberteifi gael ei atal oherwydd un mater penodol. Rhaid sicrhau na fydd hynny'n digwydd. Byddai'n fanteisiol pe gallai Aelodau o bob plaid sy'n ymwneud â'r ardal honno fynegi eu barn yn gyhoeddus ynghylch hyn.

Y Llywydd: Diolch, Weinidog. Nid fy lle i yw rhwystro Gweinidogion rhag bod yn gadarn, ac edrychaf ymlaen at ddatganiad pellach gennych y prynhawn yma.

Datganiad am y Mesur Newid yn yr Hinsawdd Statement on the Climate Change Bill

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): Last November, I issued a written statement welcoming the publication of the Climate Change Bill, and acknowledged the positive step that the Bill represents in the fight to tackle climate change. In January, I was pleased to announce the appointment of Lord Adair Turner as the chair designate of the UK Committee on Climate Change. In my written statement, I noted how Lord Turner's significant experience both in business and in leading high-profile advisory bodies to Government will ensure that the committee establishes its independence and the credibility of its advice from the very start. As I reported in April, I was delighted to welcome Lord Turner to Wales and to have the opportunity to discuss the work of the UK Committee on Climate Change with him and members of the Climate Change Commission for Wales. Regrettably, however, last week I was informed that he would be stepping down from this role at the end of the year to chair the Financial Services Authority. I will, of course, keep you informed as to his successor.

I was also pleased, in January, to have the opportunity to discuss the Bill with the Sustainability Committee. I drew the recommendations arising from that session to the attention of the Right Honourable Hilary Benn MP, the Secretary of State for the Environment, expressing my support for them and I have received a positive response

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Fis Tachwedd diwethaf cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yn croesawu cyhoeddi'r Mesur Newid yn yr Hinsawdd, gan gydnabod y cam cadarnhaol y mae'r Mesur yn ei olygu yn yr ymdrech i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Ym mis Ionawr, yr oeddwn yn falch o gyhoeddi penodi'r Arglwydd Adair Turner yn ddarpar gadeirydd Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar Newid Hinsawdd. Yn fy natganiad ysgrifenedig, nodais sut y byddai'r profiad mawr sydd gan yr Arglwydd Turner mewn busnes ac o ran arwain cyrff ymgynghorol blaenllaw uchel eu proffil ar ran y Llywodraeth yn sicrhau y bydd y pwyllgor yn sefydlu ei annibyniaeth a hygredd ei gyngor o'r cychwyn cyntaf. Fel y dywedais ym mis Ebrill, yr oeddwn yn falch iawn o groesawu'r Arglwydd Turner i Gymru ac o'r cyfle i drafod gwaith Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd gydag ef ac aelodau Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Yn anffodus, fodd bynnag, yr wythnos diwethaf fe'm hysbyswyd ei fod yn rhoi'r gorau i'r rôl honno ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn cadeirio Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol. Fe'ch hysbysaf wrth reswm ynglŷn â'i olynnydd.

Yr oeddwn yn falch hefyd, ym mis Ionawr, o gael cyfle i drafod y Mesur gyda'r Pwyllgor Cynaliadwyedd. Tynnais sylw'r Gwir Anrhydeddus Hilary Benn AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, at yr argymhellion a gododd o'r sesiwn honno, gan fynegi fy nghefnogaeth iddynt a chefais ymateb cadarnhaol ganddo, yr wyf

from him, which I have shared with the committee Chair. Today, I intend to report on the progress of the Climate Change Bill through Parliament. The Bill completed its passage through the House of Lords on 31 March, and we expect that the Bill will be considered by the House of Commons shortly, although the date for the Second Reading is still to be confirmed at present. The Assembly Government worked alongside the UK Government as the Bill progressed through the House of Lords. My officials worked closely with their colleagues in the UK Government and other devolved administrations. The Bill is an extremely positive example of joint working across the four administrations.

We have taken the opportunity provided by the Climate Change Bill to introduce a number of provisions in relation to Wales. I have mentioned some of them previously: for example, a clause has been introduced requiring Welsh Ministers to lay before the Assembly a report on their objectives, actions and priorities in relation to greenhouse gas emissions and their impact on climate change in Wales. During the passage of the Bill through the House of Lords, an amendment was introduced which provides Welsh Ministers with express powers to produce guidance for public bodies on adapting to the impacts of climate change and to require public bodies to produce a report on an assessment of the current and predicted impacts of climate change in relation to the authority's function, a statement of the authority's proposals and policies for adapting to climate change in the exercise of its functions, and an assessment of the progress made by the authority towards implementing the proposals and policies set out in its previous reports.

These new powers will enable the Assembly Government to provide improved support to public authorities on climate change adaptation, and provide a mechanism to require action if a public body is not taking proper account of the action needed.

4.10 p.m.

wedi ei rannu gyda Chadeirydd y pwyllgor. Heddiw, bwriadaf draethu ynghylch hynt y Mesur Newid yn yr Hinsawdd drwy'r Senedd. Cwblhaodd y Mesur ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 31 Mawrth, a disgwyliwn y caiff y Mesur ei ystyried gan Dŷ'r Cyffredin cyn bo hir, er nad yw dyddiad yr ail ddarlleniad wedi ei gadarnhau eto. Bu Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrth i'r Mesur fynd rhagddo drwy Dŷ'r Arglwyddi. Bu fy swyddogion innau'n cydweithio'n glòs â'u cydweithwyr yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae'r Mesur yn enghraifft hynod gadarnhaol o gydweithio ar draws y pedair gweinyddiaeth.

Yr ydym wedi achub y cyfle a roddodd y Mesur Newid yn yr Hinsawdd i gyflwyno nifer o ddarpariaethau'n ymwneud â Chymru. Yr wyf wedi crybwyll rhai ohonynt o'r blaen: er enghraifft, cyflwynwyd cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron y Cynulliad o'u hamcanion, eu gweithredoedd a'u blaenoriaethau ynglŷn ag allyriadau nwyon tŷ gwydr a'u heffaith ar newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Wrth i'r Mesur fynd drwy Dŷ'r Arglwyddi, cyflwynwyd gwelliant sy'n rhoi pwerau penodol i Weinidogion Cymru lunio canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus ynghylch ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a mynnu bod cyrff cyhoeddus yn llunio adroddiad a fydd yn asesu effeithiau newid yn yr hinsawdd, yr effeithiau ar hyn o bryd a'r rhai a ragwelir, ynglŷn â swyddogaeth yr awdurdod, datganiad o gynigion a pholisïau'r awdurdod ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd wrth weithredu ei swyddogaethau, ac asesiad o'r cynnydd y mae'r awdurdod wedi ei wneud tuag at weithredu'r cynigion a'r polisïau a amlinellir yn ei adroddiadau blaenorol.

Bydd y pwerau newydd hyn yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i roi gwell cefnogaeth i awdurdodau cyhoeddus ynghylch ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, a byddant yn darparu mecanwaith i fynnu bod gweithredu'n digwydd os nad yw corff cyhoeddus yn ystyried yn briodol y camau sy'n angenrheidiol.

During the passage of the Bill in the House of Lords, a number of amendments were agreed by Peers. For example, a provision was added to the Bill that sets up an adaptation sub-committee to provide scrutiny of the UK adaptation programme. We are currently engaging with the UK Government and other devolved administrations in considering the implication of some of these amendments in preparation for consideration of the Bill by the House of Commons. Assembly Government officials are also participating in the analytical and policy working groups that are supporting the establishment of the committee, and a member of Assembly Government staff has been seconded to the secretariat to the committee. In appointing the committee, the UK Government and devolved administrations must have regard to the desirability of the committee's having expertise in the differences in circumstances in different parts of the UK and the committee must also consider these differences in making its advice.

I had the opportunity to explore some of the challenges and opportunities here in Wales when I met Lord Turner in March, and I know that Lord Turner has reflected these issues in his subsequent comments on the work of the committee. Prior to the Bill receiving Royal Assent, a shadow committee has been appointed so that the committee can begin its work. Scientists Sir Brian Hoskins and Lord Robert May, technologist Professor Jim Skea and economists Dr Sam Fankhauser and Professor Michael Grubb have been appointed to the committee, alongside Lord Turner. All the appointments are made jointly by the UK Government and the devolved administrations, and an Assembly Government official has represented the devolved administrations on the public appointment panels for the chair and the committee members. Further appointments are currently under way to ensure that the committee has the breadth of skills and experience that it needs to carry out its role effectively.

I am heartened by the Climate Change Bill's progression through Parliament, and

Wrth i'r Mesur fynd drwy Dŷ'r Arglwyddi, cytunwyd ar nifer o welliannau gan yr Arglwyddi. Er enghraifft, ychwanegwyd darpariaeth at y Mesur sy'n sefydlu isbwyllgor ymaddasu i graffu ar raglen ymaddasu'r Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd yr ydym yn cyd-drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau datganoledig eraill i ystyried goblygiadau rhai o'r gwelliannau hyn i baratoi ar gyfer ystyried y Mesur gan Dŷ'r Cyffredin. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cymryd rhan yn y gweithgorau dadansoddi a pholisi sy'n cefnogi sefydlu'r pwyllgor, ac mae aelod o staff Llywodraeth y Cynulliad wedi ei secondio i ysgrifenyddiaeth y pwyllgor hwnnw. Wrth benodi'r pwyllgor rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ystyried a yw'n ddymunol i'r pwyllgor feddu ar arbenigedd yn y gwahanol amgylchiadau sydd ar waith mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig a rhaid i'r pwyllgor ystyried y gwahaniaethau hynny hefyd wrth lunio'i gyngor.

Cefais gyfle i archwilio rhai o'r heriau a'r cyfleoedd yma yng Nghymru pan gyfarfûm â'r Arglwydd Turner ym mis Mawrth, a gwn fod yr Arglwydd Turner wedi adlewyrchu'r materion hyn yn y sylwadau a wnaeth wedi hynny ynghylch gwaith y pwyllgor. Cyn i'r Mesur gael Cydsyniad Brenhinol, mae pwyllgor cysgodol wedi ei benodi fel y gall y pwyllgor ddechrau ar ei waith. Mae'r gwyddonwyr Syr Brian Hoskins a'r Arglwydd Robert May, y technolegydd yr Athro Jim Skea a'r economegwyr y Dr Sam Fankhauser a'r Athro Michael Grubb wedi eu penodi i'r pwyllgor, ynghyd â'r Arglwydd Turner. Caiff yr holl benodiadau eu gwneud ar y cyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig, a bu swyddog o Lywodraeth y Cynulliad yn cynrychioli'r gweinyddiaethau datganoledig ar y paneli penodiadau cyhoeddus a benododd y cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor. Mae rhagor o benodiadau yn yr arfaeth ar hyn o bryd i sicrhau y bydd gan y pwyllgor y sgiliau a'r profiad angenrheidiol y bydd arno eu hangen i gyflawni ei rôl yn effeithiol.

Mae'n galonogol gweld y Mesur Newid yn yr Hinsawdd yn mynd drwy'r Senedd, ac yn

particularly by the introduction of a number of provisions specific to Wales, demonstrating our commitment to ensuring that we are playing our full part in the fight against climate change. The Bill is now due to be considered by the House of Commons this summer, with the aim of achieving Royal Assent in the autumn.

Darren Millar: Thank you, Minister, for your statement today. I am grateful for your update to Members on what is such an important Bill. Like you, we are heartened to see it making progress through the parliamentary process, unlike the LCO on environmental protection and waste management. You are probably aware that the Welsh Conservatives fully support this Bill, partly because it is our party and its lobbying in Westminster that brought about the Bill in the first place. Therefore, we naturally, on the whole, welcome what the Bill has to offer.

In your statement, you referred to your discussions with the Sustainability Committee, and the committee's recommendations in respect of the Bill. I was pleased that you took on board all of the comments that we made in committee and made strong representations to the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs. The recommendations made by the committee included concerns with regard to aviation and international shipping emissions, and I know that you are also concerned about those. Have you had any further discussions about aviation and international shipping emissions in your more recent discussions with your UK counterpart?

I would be grateful, Minister, if you could clarify a few further points. The Bill contained a number of provisions to establish carbon budget periods of around five years. I would be grateful if you could outline the explanation given by the Secretary of State for a five-year budget period, and whether you endorse that, given your commitment to annual reduction targets in Wales as part of the One Wales Government's commitments. As it stands, it is something of a not-in-my-

enwedig cyflwyno'r darpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, sy'n dangos ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn chwarae rhan lawn yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Caiff y Mesur ei ystyried gan Dŷ'r Cyffredin yn yr Haf, a'r bwriad yw iddo gael Cydsyniad Brenhinol yn yr Hydref.

Darren Millar: Diolch, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Yr wyf yn ddiolchgar am y diweddariad a roesoch i'r Aelodau ynglŷn â'r Mesur tra phwysig hwn. Fel chi, mae'n galonid inni ei weld yn mynd ar ei hynt drwy'r broses seneddol, yn wahanol i'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar ddiogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff. Mae'n siŵr eich bod yn gwybod bod y Ceidwadwyr Cymreig yn llwyr gefnogi'r Mesur hwn, yn rhannol oherwydd mai ein plaid ni a lobïo ganddi yn San Steffan a arweiniodd at y Mesur yn y lle cyntaf. Felly, yn naturiol ddigon, yr ydym, ar y cyfan, yn croesawu'r hyn y mae'r Mesur yn ei gynnig.

Yn eich datganiad, cyfeiriasoch at y trafodaethau a gawsoch â'r Pwyllgor Cynaliadwyedd, ac argymhellion y pwyllgor ynghylch y Mesur. Yr oeddwn yn falch eich bod wedi derbyn yr holl sylwadau a wnaethom yn y pwyllgor a'ch bod wedi cyflwyno sylwadau cryfion gerbron yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yr oedd argymhellion y pwyllgor yn cynnwys pryderon ynghylch allyriadau awyrennau a llongau rhyngwladol, a gwn eich bod chithau hefyd yn pryderu ynglŷn â hynny. A ydych wedi cynnal rhagor o drafodaethau ynglŷn ag allyriadau awyrennau a llongau rhyngwladol yn eich trafodaethau mwy diweddar â'ch Gweinidog cyfatebol yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig?

Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe gallech egluro ychydig o bwyntiau eraill. Yr oedd y Mesur yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i sefydlu cyfnodau cyllidebau carbon o tua phum mlynedd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'r esboniad a gafwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros gyfnod cyllidebol o bum mlynedd, ac a ydych yn cymeradwyo hynny, o ystyried eich ymrwymiad i dargedau blynyddol i leihau carbon yng Nghymru fel rhan o

term-of-office period. It will be difficult for people to be held accountable should there be a change of Government, or a change of ministerial portfolios, for example, after a change of Government.

In addition, the committee recommended that the target for reducing greenhouse gases be set as a specific figure rather than a range of figures. I think that the figures for carbon reduction by 2020 ranged from 26 per cent to 32 per cent. Admittedly, you stated in your written response to the committee that you would support any decision to remove the perceived upper limit of the 2020 reduction target. What explanation has the Secretary of State given for using the lower range of that target as the base figure rather than the upper range, especially given new scientific evidence, which seems to increasingly add weight to the need for bigger carbon dioxide reductions?

Finally, Minister, could you indicate at this stage—and I know that it is quite early in the process—how you are minded to use the provisions in the Bill that relate to the powers to establish a Wales-wide carbon trading scheme, should the Bill receive Royal Assent? From the evidence that we are hearing from all sorts of independent quarters, it seems that personal carbon trading schemes in particular would have a major impact on reducing carbon dioxide emissions from Wales and helping the Government to achieve its targets. Perhaps you could give us an early indication as to your thoughts on that.

Jane Davidson: If you remember, the response that Hilary Benn sent to me, which we made available to the committee, set out very clearly that one of the major areas that Lord Turner and the shadow committee on climate change had to address by December this year was the provision of formal advice on the first three carbon budgets for the committee. Therefore, it is not a not-in-my-term-of-office issue; it is the first time that the budgets have been set up, and they

ymrwymiadau Llywodraeth Cymru'n Un. Fel y mae ar hyn o bryd, mae'n dipyn o gyfnod 'na fydd yn digwydd yn ystod fy nhymor i yn y swydd'. Bydd yn anodd dal neb yn atebol pe bai newid Llywodraeth, neu pe bai portffolios Gweinidogion yn newid, er enghraifft, ar ôl newid Llywodraeth.

Hefyd, argymhellodd y pwyllgor y dylid gosod y targed ar gyfer lleihau nwyon tŷ gwydr fel ffigur penodol yn hytrach nag ystod o ffigurau. Credaf fod y ffigurau a oedd yn ymwneud â lleihau carbon erbyn 2020 yn amrywio rhwng 26 y cant a 32 y cant. Yn ddiamau, dywedasoch yn eich datganiad ysgrifenedig i'r pwyllgor y byddech yn cefnogi unrhyw benderfyniad i ddiddymu'r terfyn uchaf sydd ymhlyg yn y targed ar gyfer lleihau carbon erbyn 2020. Pa esboniad a gafwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros ddefnyddio amrediad isaf y targed hwnnw'n ffigur sylfaen yn hytrach na'r amrediad uchaf, yn enwedig o ystyried y dystiolaeth wyddonol newydd, sydd yn ôl pob golwg yn rhoi pwys fwyfwy ar yr angen am ostyngiadau mwy mewn carbon deuocsid?

Yn olaf, Weinidog, a allwch roi syniad inni ar hyn o bryd—a gwn ei bod yn weddol gynnar yn y broses—sut yr ydych yn bwriadu defnyddio'r darpariaethau yn y Mesur sy'n ymwneud â'r pwerau i sefydlu cynllun masnachu carbon i Gymru gyfan, petai Cydsyniad Brenhinol yn cael ei roi i'r Mesur? Yn ôl y dystiolaeth yr ydym yn ei chlywed o gylchoedd annibynnol o bob math, mae'n ymddangos y byddai cynlluniau masnachu carbon personol, yn benodol, yn cael effaith fawr o ran lleihau allyriadau carbon deuocsid yng Nghymru a helpu'r Llywodraeth i gyrraedd ei thargedau. Efallai y gallech roi gwybod inni'n fuan am eich barn am hynny.

Jane Davidson: Os cofiwch, dywedwyd yn glir iawn yn yr ymateb a anfonodd Hilary Benn ataf, a ddarparasom i'r pwyllgor, mai un o'r prif feysydd yr oedd yn rhaid i'r Arglwydd Turner a'r pwyllgor cysgodol ar newid hinsawdd roi sylw iddo erbyn mis Rhagfyr eleni oedd darparu cyngor ffurfiol ynghylch y tair cyllideb garbon gyntaf i'r pwyllgor. Felly, nid mater 'na fydd yn digwydd yn ystod fy nhymor i yn y swydd' ydyw; dyma'r tro cyntaf i'r cyllidebau gael

deliberately go across administrations so that they are bound in by Parliament. Secondly, he was asked to advise on the level of the 2050 target in that report in December, because people were concerned that achieving a 60 per cent reduction by 2050 would be insufficient and there was a very strong lobby for a reduction target of 80 per cent. As part of that, he is required to consider the level of the 2020 target. Therefore, the current figure of 26 per cent will not necessarily stay, because it will be taken forward on the basis of the advice of the independent Committee on Climate Change.

On the issue of aviation and international shipping, again, Hilary Benn and I have indicated that we are keen to bring this in. We are already looking at how we do that in the context of Wales with the Climate Change Commission. Clearly, if we are talking about international boundaries, we will have to have some international responses. Aviation comes into the European Union emissions trading scheme from 2012. However, the last specific requirement on Lord Turner before he moves on to his new role is to report on how to bring in the methodology for calculation in terms of aviation.

Leanne Wood: Thank you for your statement, Minister. I welcome many of the provisions in this Bill. You will be aware that the Scottish Climate Change Bill proposes setting a mandatory target for cutting emissions by 80 per cent by 2050. You touched upon the issue of 80 per cent in your answer to Darren Millar, but I would be interested to hear whether you personally think that the 60 per cent target will be sufficient.

With regard to the trading schemes, the Bill states that we will be able to have trading schemes in Wales in areas that are within the competence of the Assembly or in areas that,

'relate to limiting or encouraging the limitation of activities in Wales that consist of the emission of greenhouse gases, other than activities in connection with offshore oil

eu sefydlu, ac maent yn mynd ar draws gweinyddiaethau o fwriad fel eu bod yn cael eu diffinio gan y Senedd. Yn ail, gofynnwyd iddo roi cyngor ar lefel y targed ar gyfer 2050 yn yr adroddiad hwnnw ym mis Rhagfyr, gan fod pobl yn pryderu mai annigonol fyddai sicrhau gostyngiad o 60 y cant erbyn 2050 ac yr oedd rhai'n dadlau'n gryf iawn dros gael targed o ostyngiad o 80 y cant. Fel rhan o hynny, mae'n ofynnol iddo ystyried lefel y targed ar gyfer 2020. Felly, ni fydd y ffigur presennol o 26 y cant yn aros o reidrwydd, gan y bydd yn cael ei wneud ar sail cyngor gan y Pwyllgor annibynnol ar Newid Hinsawdd.

O ran awyrennau a llongau rhyngwladol, unwaith eto, mae Hilary Benn a minnau wedi dweud ein bod yn awyddus i gynnwys hyn. Yr ydym eisoes yn ystyried sut y gwnawn hynny yng nghyd-destun Cymru gyda'r Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd. Wrth gwrs, os ydym yn sôn am ffiniau rhyngwladol, bydd yn rhaid inni gael rhai ymatebion rhyngwladol. Bydd awyrennau'n cael eu cynnwys yng nghynllun masnachu allyriadau'r Undeb Ewropeaidd o 2012. Fodd bynnag, y gofyniad penodol olaf i'r Arglwydd Turner cyn iddo symud ymlaen i'w rôl newydd yw adrodd ar sut i gyflwyno'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo ynglŷn ag awyrennau.

Leanne Wood: Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Croesawaf lawer o'r darpariaethau yn y Mesur hwn. Byddwch yn ymwybodol bod Mesur Newid yn yr Hinsawdd yr Alban yn cynnig pennu targed gorfodol i gwtogi 80 y cant ar allyriadau erbyn 2050. Cyfeiriasoch at fater yr 80 y cant yn eich ateb i Darren Millar, ond byddai o ddiddordeb imi glywed a ydych chi'n bersonol yn credu y bydd y targed o 60 y cant yn ddigonol.

O ran y cynlluniau masnachu, mae'r Mesur yn datgan y byddwn yn gallu cael cynlluniau masnachu yng Nghymru mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu mewn meysydd sydd,

yn ymwneud â chyfyngu neu gymell cyfyngu gweithgareddau yng Nghymru sy'n cynnwys allyrru nwyon tŷ gwydr, heblaw gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwilio

and gas exploration and exploitation.’

I would be grateful to know whether this will enable the National Assembly for Wales to legislate beyond the scope of the current devolution settlement.

Finally, Welsh Ministers are given an express power to allow the purchase of offset credits. Do you think that this possibility may pave the way for Wales to be financially disadvantaged as a result of producing electricity or steel for export?

Jane Davidson: I have indicated on several occasions that I am concerned that the figure of 60 per cent is insufficient. I have also indicated the Assembly Government’s broad support for the figure of 80 per cent. However, what is important is that, in one sense, neither figure is validated by evidence at this time. The figure of 60 per cent came from the Royal Commission on Environmental Pollution back in 2000, and the figure of 80 per cent was a very intelligent assessment of how much greater the risk is now. The Tyndall Centre would suggest that we should be looking at 80 per cent as a minimum now. The important aspect from the independent Committee on Climate Change’s point of view is that it may come out with a figure that is 74 or 83 per cent, but it will do so on the basis of evidence. I will be happy to sign up to the figure on the basis of the evidence that is produced by the independent Committee on Climate Change.

4.20 p.m.

You talked about issues being beyond the devolution settlement. The Climate Change Bill is the first of its kind, and the UK is the first country ever to have legislation in the context of climate change. You can see from the fact that there has been unanimity from the Ministers of Scotland and Northern Ireland, me and Hilary Benn, as the lead UK Government Minister, that we are all happy that the legislation serves our countries and enables us to do what we will need to do in this context. How we use the additional Welsh powers in the Bill will be subject to further discussion. The important message is that those powers come to Wales, because it

am olew a nwy dan y môr a’u defnyddio.

Byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod a fydd hyn yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu y tu allan i gwmpas y setliad datganoli presennol.

Yn olaf, rhoddir pŵer penodol i Weinidogion Cymru i ganiatáu prynu credydau gwrthbwyso. A ydych yn credu y gallai’r posibilrwydd hwn arwain at roi Cymru dan anfantis ariannol o ganlyniad i gynhyrchu trydan neu ddu i’w hallforio?

Jane Davidson: Yr wyf wedi dweud amryw o weithiau fy mod yn pryderu bod y ffigur o 60 y cant yn annigonol. Yr wyf wedi dweud hefyd fod Llywodraeth y Cynulliad yn gefnogol yn gyffredinol i’r ffigur o 80 y cant. Fodd bynnag, yr hyn sy’n bwysig yw nad yw’r naill ffigur na’r llall, ar ryw ystyr, yn cael ei ddilysu gan dystiolaeth ar hyn o bryd. Cafwyd y ffigur o 60 y cant gan y Comisiwn Brenhinol ar Lygredd Amgylcheddol yn 2000, ac yr oedd y ffigur o 80 y cant yn asesiad deallus iawn o gymaint yn fwy yw’r perygl yn awr. Byddai Canolfan Tyndall yn awgrymu y dylem ystyried 80 y cant yn ffigur isaf yn awr. Yr agwedd bwysig o safbwynt y Pwyllgor annibynnol ar Newid Hinsawdd yw y gall gyhoeddi ffigur o 74 neu 83 y cant, ond gwnaiff hynny ar sail dystiolaeth. Byddaf yn fodlon derbyn y ffigur ar sail y dystiolaeth a gynhyrchir gan y Pwyllgor annibynnol ar Newid Hinsawdd.

Soniasoch am faterion sydd y tu allan i gwmpas y setliad datganoli. Y Mesur Newid yn yr Hinsawdd yw’r cyntaf o’i fath, a’r DU yw’r wlad gyntaf erioed i gael deddfwriaeth yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd. Gallwch weld yn sgîl y ffaith bod unfrydedd rhwng Gweinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon, myfi a Hilary Benn, fel y Gweinidog arweiniol yn Llywodraeth y DU, fod pob un ohonom yn fodlon bod y deddfwriaeth yn gwasanaethu ein gwledydd ac yn ein galluogi i wneud yr hyn y bydd angen inni ei wneud yn y cyd-destun hwn. Bydd sut y defnyddiwn y pwerau ychwanegol i Gymru sydd yn y Mesur yn destun

is best for us to exercise them here.

Michael German: Thank you for updating the Assembly on the progress of the Climate Change Bill. Before I ask you questions on the Bill, I think that we should paint a picture of where we are at present in terms of carbon dioxide emissions. The latest evidence is that emissions have not fallen since 1990 and that the domestic target of a 20 per cent cut by 2010 is now not likely to be met. Therefore, we are not making the progress that we want to make. In fact, carbon dioxide emissions have risen by more than 4 per cent since 1999 and the Department for Environment, Food and Rural Affairs states that emissions have risen by 1 per cent in the last year alone. The Assembly wants to go for the higher target because we are falling behind and we need to accelerate faster towards the right target for reducing Wales's carbon footprint.

You recently announced the Stockholm Environment Institute document on the ecological footprint for Wales. The figures are quite stark in that document. It states that, by 2050, Wales would have to reduce its resource use of carbon fuels by 75 per cent. Between then and now, that is 3.5 per cent a year, which would mean an acceleration on the target of 3 per cent a year, which you announced in your 'One Wales' document. Therefore, at the minimum, the 3 per cent target should be pressed for in the Bill. Despite your views on whether there should be evidence for this or not, I believe that we are sufficiently advised. We have had the Stern report and a recent United Nations report, which states that we must make cuts of at least 80 per cent by 2050. Therefore, will you outline how strongly you can press for that 60 per cent to move up to 80 per cent or more, if you needed to do so? You may say that it could be a 74 or 84 per cent target, but the Bill lays out the target, which sets the headline for us all in the future.

Secondly, there is a change of wording in the Climate Change Bill relating to this range of

trafodaeth bellach. Y neges bwysig yw bod y pwerau hynny'n dod i Gymru, am mai'r peth gorau yw inni eu harfer yma.

Michael German: Diolch i chi am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am hyn y Mesur Newid yn yr Hinsawdd. Cyn imi ofyn cwestiynau i chi am y Mesur, credaf y dylem gyfleu lle yr ydym arni ar hyn o bryd o ran allyriadau carbon deuocsid. Y dystiolaeth ddiweddaraf yw nad ydyw allyriadau wedi gostwng ers 1990 a'i bod yn annhebygol bellach y cyrhaeddir y targed domestig o ostyngiad o 20 y cant erbyn 2010. Felly, nid ydym yn gwneud y math o gynnydd y carem ei weld. Mewn gwirionedd, mae allyriadau carbon deuocsid wedi codi mwy na 4 y cant ers 1999 ac mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn datgan bod allyriadau wedi codi 1 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Mae'r Cynulliad yn dymuno dewis y targed uwch am ein bod yn colli tir a bod angen inni symud yn gynt tuag at y targed priodol i leihau ôl-troed carbon Cymru.

Yn ddiweddar, gwnaethoch gyhoeddiad am ddogfen Sefydliad Amgylchedd Stockholm am ôl-troed ecolegol Cymru. Mae'r ffigurau yn y ddogfen honno'n eithaf digalon. Mae'n dweud y byddai'n rhaid i Gymru ddefnyddio 75 y cant yn llai o danwyddau carbon fel adnodd erbyn 2050. Mae hynny'n 3.5 y cant y flwyddyn o hyn tan hynny, a fyddai'n golygu symud yn gynt na'r targed o 3 y cant y flwyddyn, a gyhoeddasoch yn eich dogfen 'Cymru'n Un'. Felly, dylid pwysu am gael y targed o 3 y cant, o leiaf, yn y Mesur. Er gwaethaf eich barn ynghylch a ddylai fod dystiolaeth i ategu hyn neu beidio, credaf ein bod wedi cael digon o gyngor. Yr ydym wedi cael adroddiad Stern ac adroddiad yn ddiweddar gan y Cenhedloedd Unedig, sy'n datgan bod yn rhaid inni wneud toriadau o 80 y cant o leiaf erbyn 2050. Felly, a wnewch amlinellu pa mor gryf y gallwch bwysu am godi'r 60 y cant hwynnw i 80 y cant neu fwy, pe bai angen ichi wneud hynny? Efallai y dywedwch y gallai fod yn darged o 74 neu 84 y cant, ond mae'r Mesur yn pennu'r targed, sy'n gosod y nod i bob un ohonom yn y dyfodol.

Yn ail, mae newid yng ngeiriad y Mesur Newid yn yr Hinsawdd mewn cysylltiad â'r

2020 figures. In the original version, the Bill stated,

‘at least 26 per cent, but not more than 32 per cent, lower than the 1990 baseline’.

However, the Bill now states,

‘at least 26 per cent lower’.

That removes the ambition for getting the figure even higher than 26 per cent. Your 3 per cent reduction until 2020 ambition exceeds that of this Bill. Therefore, I ask you to ensure that that matter is taken forward and that you press the point as strongly as you can with UK Ministers.

I will not re-emphasise the point about the five-year target and carbon trading, but I am glad that you agree that international aviation and shipping should be engaged, because carbon dioxide is not the only gas that we are talking about; we are also talking about greenhouse gases. We need to engage with the international aviation and shipping industries to ensure that we keep that reduction in place.

One might seek to trade outwards, with other countries, to make reductions. Would you anticipate that if we were to get into carbon trading, the majority of our reductions would not come from trade done with overseas countries—in other words, credits that we could buy from them? Could you comment on that?

The overall message from the Bill so far and from your statement is that we must have strong ambition. You have displayed that ambition today by saying that you want to move towards these higher targets. I believe that the strength of your ambition will be shown if you can make the changes in the Bill and get your colleagues in Westminster to agree to it.

Jane Davidson: The Assembly Government is operating on the basis of the basket of the six greenhouse gases, and not just carbon dioxide—and the independent committee is looking at whether all greenhouse gases should be taken into account. We have been

ystod o ffigurau ar gyfer 2020. Yn y fersiwn wreiddiol, y geiriau yn y Mesur oedd,

o leiaf 26 y cant, ond nid mwy na 32 y cant, yn is na llinell sylfaen 1990.

Fodd bynnag, mae’r Mesur yn dweud yn awr,

o leiaf 26 y cant yn is.

Mae hynny’n dileu’r uchelgais i godi’r ffigur hyd yn oed yn uwch na 26 y cant. Mae eich uchelgais i sicrhau gostyngiad o 3 y cant tan 2020 yn fwy na’r hyn sydd yn y Mesur hwn. Felly, gofynnaf ichi sicrhau y gweithredir ar y mater hwnnw ac y byddwch yn dadlau mor gryf ag y gallwch ar y pwynt hwnnw gyda Gweinidogion y DU.

Nid ailbwysleisiaf y pwynt am y targed o bum mlynedd a masnachu carbon, ond yr wyf yn falch eich bod yn cytuno y dylid cynnwys awyrennau a llongau rhyngwladol, oherwydd nid carbon deuocsid yw’r unig nwy yr ydym yn sôn amdano: yr ydym yn sôn hefyd am nwyon tŷ gwydr. Mae angen inni ymgysylltu â’r diwydiannau awyrennau a llongau rhyngwladol i sicrhau ein bod yn cadw’r gostyngiad hwnnw.

Gellid ceisio masnachu tuag allan, â gwledydd eraill, i gael gostyngiadau. A fydech yn rhagweld, petaem yn dechrau masnachu carbon, na fyddai’r rhan fwyaf o’n gostyngiadau’n deillio o fasnach â gwledydd tramor—mewn geiriau eraill, credydau y gallem eu prynu ganddynt? A allech gyflwyno sylwadau am hynny?

Y neges gyffredinol o’r Mesur hyd yn hyn ac o’ch datganiad yw bod yn rhaid inni fod yn uchelgeisiol iawn. Yr ydych wedi dangos uchelgais o’r fath heddiw drwy ddweud eich bod yn dymuno symud tuag at y targedau uwch hyn. Credaf y byddwch yn dangos cryfder eich uchelgais os gallwch wneud y newidiadau yn y Mesur a pheri i’ch cyd-aelodau yn San Steffan dderbyn hynny.

Jane Davidson: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu ar sail y chwe nwy tŷ gwydr yn gyfan gwbl, ac nid carbon deuocsid yn unig—ac mae’r pwyllgor annibynnol yn ystyried a ddylid ystyried pob un o’r nwyon tŷ gwydr. Yr ydym wedi bod

clear about that from the outset.

You issued a set of figures showing a rise in greenhouse gases since 1990, but the latest greenhouse gas inventory report, for example, shows that, for Wales in 2005, there was a 9 per cent decrease in emissions of the six greenhouse gases, compared with the base-year emissions of 1990, and, in 2005, there was a 4 per cent decrease in carbon dioxide emissions, compared with the base-year emissions. Therefore, this issue about when you take your figures from is a critical issue that the Assembly will need to wrestle with as we move forward on our 'One Wales' obligation.

You made the point, which was previously made by other speakers, about the 60 per cent and 26 per cent targets. I will give you the same answer, which is that Hilary Benn and I have given Parliament and the Assembly previous reassurances that the figure that will be set will be the figure endorsed by the independent Committee on Climate Change on the basis of evidence and that that will then feed into the parliamentary process. Therefore, the figure of 60 per cent will not stay in the Bill; the figure in the Bill will be a figure that has been agreed and supported by the independent Committee on Climate Change. That is why those figures have stayed the same for the moment.

You are right to draw attention to the work from the Stockholm Environment Institute at the University of York. I hope that Members will have a look at the statement that I issued at the end of last week looking at a reduction in Wales's ecological footprint. We are the first country that we are aware of that has recalculated its ecological footprint. We have seen a reduction in it—it has gone from 5.24 global hectares per person, as I believe it was, to 5.16 global hectares per person, which still means that we are using over three planets' worth of resources, when we only have one available. That ecological footprint work looks at areas that we most specifically need to address: the residential sector, which accounts for 25 per cent of our ecological footprint; the food sector, which accounts for 20 per cent of our ecological footprint; and

yn glir ynghylch hynny o'r dechrau.

Cyhoeddasoch set o ffigurau sy'n dangos bod nwyon tŷ gwydr wedi cynyddu ers 1990, ond mae'r adroddiad manwl diweddaraf ynghylch nwyon tŷ gwydr, er enghraifft, yn dangos, ar gyfer Cymru yn 2005, fod 9 y cant o ostyngiad yn allyriadau'r chwe nwy tŷ gwydr, o'u cymharu ag allyriadau'r flwyddyn sylfaen yn 1990, ac, yn 2005, cafwyd gostyngiad o 4 y cant mewn allyriadau carbon deuocsid, o'u cymharu ag allyriadau'r flwyddyn sylfaen. Felly, mae'r cwestiwn hwn ynghylch pa bryd yr ydych yn seilio'ch ffigurau arno'n fater hollbwysig y bydd angen i'r Cynulliad fynd i'r afael ag ef wrth inni symud ymlaen ynghylch ein rhwymedigaeth yn 'Cymru'n Un'.

Gwnaethoch y pwynt, a wnaethpwyd cyn hynny gan siaradwyr eraill, ynghylch y targedau o 60 y cant a 26 y cant. Rhoddaf yr un ateb i chi, sef bod Hilary Benn a minnau wedi rhoi sicrwydd i'r Senedd ac i'r Cynulliad cyn hyn y bydd y ffigur a bennir yn un sydd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor annibynnol ar Newid Hinsawdd ar sail tystiolaeth ac y bydd hynny wedyn yn bwydo i'r broses seneddol. Felly, ni fydd y ffigur o 60 y cant yn aros yn y Mesur; bydd y ffigur yn y Mesur yn un sydd wedi'i dderbyn a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor annibynnol ar Newid Hinsawdd. Dyna pam y mae'r ffigurau hynny wedi aros yr un fath am y tro.

Mae'n briodol ichi dynnu sylw at y gwaith gan Sefydliad Amgylchedd Stockholm ym Mhrifysgol Caerefrog. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n bwrw golwg ar y datganiad a gyhoeddais ddiwedd yr wythnos diwethaf ynghylch lleihau ôl-troed ecolegol Cymru. Ni yw'r wlad gyntaf, hyd y gwyddom, sydd wedi ailgyfrifo'i hól-troed ecolegol. Yr ydym wedi'i weld yn mynd yn llai—mae wedi lleihau o 5.24 hectar byd-eang y pen, fel yr oedd yr wyf yn credu, i 5.16 hectar byd-eang y pen, sy'n dal i olygu ein bod yn defnyddio gwerth mwy na thair planed o adnoddau, er mai dim ond un blaned sydd ar gael i ni. Mae'r gwaith hwnnw ar yr ôl-troed ecolegol yn ymdrin â meysydd y mae angen inni roi'r sylw mwyaf iddynt: y sector preswyl, sy'n gyfrifol am 25 y cant o'n hól-troed ecolegol; y sector bwyd, sy'n gyfrifol am 20 y cant o'n

transport, which accounts for 18 per cent of our ecological footprint. That work will also look at how the 'One Wales' agenda, along with our sustainable development aspirations is taking us in the right direction to reduce our ecological footprint appropriately. However, we will need to go further.

All of the messages that you are giving us and that we are giving you are that we will need to go further. We will have to change the way in which we do business in these areas.

Alun Davies: Thank you for your statement, Minister. All of us across the Chamber will welcome the progress of this legislation through Parliament and also recognise and welcome the UK Government's commitment to working with the devolved administrations to ensure that this legislation really is UK-wide legislation on which each administration of the UK works closely together to achieve our common objectives.

One of the issues that you addressed, Minister, when you came to the Sustainability Committee meeting in January was how the different administrations would work together. I welcome your statement and the new powers that will come to the Government as a result of this legislation.

4.30 p.m.

In your statement, you talked about a concordat between the Department for Environment, Food and Rural Affairs and the Welsh Assembly Government. How will that work? Can you inform us of any elements of it that may already have been agreed? When we discuss these issues, my concern is that the working relationship between the Assembly, Whitehall and Westminster is not always close enough to achieve the greatest impact. In answer to Mike German's questions, you listed the impact of different areas of policy for which the Assembly has responsibility to achieve the goal and the ambitious targets that you have set, which will be set in this legislation. Therefore, will

hól-troed ecolegol; a thrafnidiaeth, sy'n gyfrifol am 18 y cant o'n hól-troed ecolegol. Bydd y gwaith hwnnw'n ymdrin hefyd â sut y mae agenda 'Cymru'n Un', ynghyd â'n dyheadau o ran datblygu cynaliadwy, yn mynd â ni i'r cyfeiriad iawn er mwyn lleihau ein hól-troed ecolegol mewn modd priodol. Fodd bynnag, bydd angen inni fynd ymhellach.

Mae'r holl negeseuon yr ydych yn eu rhoi i ni ac yr ydym ni'n eu rhoi i chi'n dweud y bydd angen inni fynd ymhellach. Bydd yn rhaid inni newid y modd yr ydym yn gweithredu yn y meysydd hyn.

Alun Davies: Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Bydd pob un ohonom ym mhob rhan o'r Siambr yn falch o weld y ddeddfwriaeth hon yn mynd drwy'r Senedd a hefyd yn cydnabod ac yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i gydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn ddeddfwriaeth i'r DU gyfan y bydd pob un o weinyddiaethau'r DU yn cydweithio'n glòs arni i gyrraedd ein hamcanion cyffredin.

Un o'r materion y rhoesoch sylw iddynt, Weinidog, pan ddaethoch i gyfarfod y Pwyllgor Cynaliadwyedd ym mis Ionawr oedd sut y byddai'r gwahanol weinyddiaethau'n cydweithio. Croesawaf eich datganiad a'r pwerau newydd a gaiff y Llywodraeth yn sgîl y ddeddfwriaeth hon.

Yn eich datganiad, soniasoch am goncordat rhwng Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Sut y bydd hwnnw'n gweithio? A allwch ddweud wrthym am unrhyw elfennau ohono y cytunwyd arnynt eisoes o bosibl? Pan drafodwn y materion hyn, fy mhryder yw nad yw'r berthynas waith rhwng y Cynulliad, Whitehall a San Steffan yn ddigon agos bob amser i sicrhau'r effaith fwyaf. Wrth ateb cwestiynau Mike German, rhestrasoch effaith gwahanol feysydd polisi y mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb drostynt i gyrraedd y nod a'r targedau uchelgeisiol a osodwyd gennych, a gaiff eu pennu yn y ddeddfwriaeth hon. Felly, a amlinellwch sut y gwelwch y

you outline how you see this relationship working in practice? How do you see the Governments and the administrations working together, and how will this concordat impact on the work of the Assembly Government and the 'One Wales' agenda?

Jane Davidson: Thank you very much, Alun. The easiest way to describe it is by saying that the concordat is across four nations rather than two. The creation of that new statutory body, the Committee on Climate Change, is about providing independent expert advice, analysis, information or other assistance to the Government and devolved administrations on achieving targets and staying within the carbon budgets and targets on climate change generally. That independent committee is supported by all four nations and will advise all four nations.

In the context of the Secretary of State's report to Parliament, he or she must take account of, and publicise in front of Parliament, what the devolved administrations are doing and saying in response to the work that is going on under the auspices of the UK Government. Therefore, it is a joint relationship, with additional advice for the four nations. There is an open system of reporting to Parliament, and the Government must respond to independent annual reports by the Committee on Climate Change, and take account of devolved administrations in the process. The Assembly Government also has an obligation to report to the Assembly annually, as is the case in the other administrations.

Jeff Cuthbert: I welcome your statement, Minister, and I think it fair to say that it is widely recognised that climate change is the single greatest threat to the human race, and it is right that we welcome your statement.

I am pleased that Wales and the UK are leading the way together on reducing and combating climate change, and are trying to set a standard for the rest of the world to follow. It is only right that the cradle of the industrial revolution now seeks to guide the

berthynas hon yn gweithio'n ymarferol? Sut y gwelwch y Llywodraethau a'r gweinyddiaethau'n cydweithio, a sut y bydd y concordat hwn yn effeithio ar waith Llywodraeth y Cynulliad ac ar agenda 'Cymru'n Un'?

Jane Davidson: Diolch yn fawr iawn ichi, Alun. Y ffordd orau i'w ddisgrifio yw drwy ddweud bod y concordat yn cwmpasu pedair gwlad yn hytrach na dwy. Pwrpas creu'r corff statudol newydd hwnnw, y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, yw darparu cyngor, dadansoddiadau, gwybodaeth neu gymorth arall sy'n arbenigol ac annibynnol i'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gyrraedd targedau ac aros o fewn y cyllidebau carbon a'r targedau newid yn yr hinsawdd yn gyffredinol. Caiff y pwyllgor annibynnol hwnnw ei gefnogi gan bob un o'r pedair gwlad a bydd yn rhoi cyngor i bob un o'r pedair gwlad.

Yng nghyd-destun adroddiad yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Senedd, rhaid iddo ef neu hi ystyried yr hyn y mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn ei wneud ac yn ei ddweud mewn ymateb i'r gwaith sy'n mynd rhagddo dan nawdd Llywodraeth y DU, a chyhoeddi hynny gerbron y Senedd. Felly, mae'n berthynas ar y cyd, gyda chyngor ychwanegol i'r pedair gwlad. Ceir system agored o adrodd i'r Senedd, a rhaid i'r Llywodraeth ymateb i adroddiadau blynyddol annibynnol gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ac ystyried gweinyddiaethau datganoledig yn y broses. Yn ogystal, mae rhwymedigaeth ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad, yn yr un modd â'r gweinyddiaethau eraill.

Jeff Cuthbert: Croesawaf eich datganiad, Weinidog, a chredaf ei bod yn deg dweud bod cydnabyddiaeth yn gyffredinol mai newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad unigol mwyaf i ddynol ryw, ac mae'n briodol inni groesawu eich datganiad.

Yr wyf yn falch bod Cymru a'r DU yn arwain y ffordd gyda'i gilydd o ran lleihau newid yn yr hinsawdd a mynd i'r afael ag ef, ac yn ceisio gosod safon i weddill y byd ei dilyn. Mae'n briodol bod tarddle'r chwyldro diwydiannol bellach yn ceisio arwain y

way to a new form of revolution: a green, sustainable revolution. Where we were once blessed richly with fossil fuels, we should now look to the natural resources that we are blessed with, although they are not always a blessing; we are surrounded by oceans, which, in part, provide the second highest tidal range in the world and are ravaged by winds and soaked in rain.

With others, I recently attended the Commonwealth Parliamentary Association's conference on climate change in Gibraltar. It is fair to say that the ramifications of climate change are much more wide-ranging than one might first think; the current price rises and shortage of food supplies are just examples of the knock-on effects of climate change, which affect the world today. One message from that conference was clear: there is a case for sharing best practice and educating the current and next generations on how to combat and reduce the effects of climate change. Wales and the UK cannot afford to be insular in their ideas to combat climate change; we need a truly global effect. We may be trying to set an example to the rest of the world, but we need to bring everyone with us. Does the Minister agree that the most important thing that we need to do is educate the people who currently, and who can in future, influence how we fight climate change? We need to outline the importance that the Assembly Government is placing on educating the current and future generations in this regard.

Jane Davidson: Thank you, Jeff. That is a tremendously important question, because it is always difficult for Government to run communication campaigns that get to the heart of every household, as it were, reaching every young person, every community, and every sheltered housing complex, for example. However, we have to do that on this subject, and we have already appointed our young climate change champions, who are doing a sterling job in schools, colleges and universities, working with other groups of young people and getting out messages. We

ffordd i fath newydd o chwyldro: chwyldro gwyrdd, cynaliadwy. Pryd yr oeddem gynt wedi'n bendithio'n hael â thanwydd ffosil, dylem bellach edrych ar yr adnoddau naturiol y cawsom ein bendithio â hwy, er nad ydynt bob amser yn fendith; yr ydym wedi ein hamgylchynu gan foroedd, sydd, yn rhannol, yn rhoi'r amrediad llanw mwyaf ond un yn y byd ac yr ydym yn cael ein hanrheithio gan wyntoedd ac yn cael glaw mawr.

Ynghyd ag eraill, euthum i gynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar newid yn yr hinsawdd yn Gibraltar yn ddiweddar. Mae'n deg dweud bod goblygiadau newid yn yr hinsawdd yn llawer mwy pellgyrhaeddol nag y byddai rhywun yn tybio ar yr olwg gyntaf; mae'r cynnydd presennol mewn prisiau a phrinder cyflenwadau bwyd yn enghreifftiau o effeithiau canlyniadol newid yn yr hinsawdd, sy'n effeithio ar y byd sydd ohoni. Yr oedd un neges yn y gynhadledd honno'n glir: ceir dadl dros rannu arferion gorau ac addysgu'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol sut i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u lleihau. Ni all Cymru a'r DU fforddio bod yn gul o ran eu syniadau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd; mae angen effaith gwbl fyd-eang arnom. Efallai ein bod yn ceisio gosod esiampl i weddill y byd, ond mae angen inni dywys pawb gyda ni. A gytuna'r Gweinidog mai'r peth pwysicaf y mae angen inni ei wneud yw addysgu'r bobl sy'n dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn ymladd newid yn yr hinsawdd ar hyn o bryd, ac a all wneud hynny yn y dyfodol? Mae angen inni amlinellu'r pwys a rydd Llywodraeth y Cynulliad ar addysgu'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol yn hyn o beth.

Jane Davidson: Diolch, Jeff. Mae hwnnw'n gwestiwn hynod bwysig, oherwydd y mae bob amser yn anodd i Lywodraeth gynnal ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n mynd at galon pob cartref, fel petai, a chyrraedd pob person ifanc, pob cymuned, a phob canolfan tai gwarchod er enghraifft. Fodd bynnag, rhaid inni wneud hynny gyda'r pwnc hwn, ac yr ydym eisoes wedi penodi ein hyrwyddwyr ifanc newid hinsawdd, sy'n gwneud gwaith rhagorol mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion, gan weithio gyda grwpiau eraill o bobl ifanc a lledaenu negeseuon.

will need to use every mechanism available to us in getting out these messages.

However, this is also about the way that we respond strategically, as an Assembly Government. We have already published the renewable energy route-map, which indicates that we could, hypothetically, become self-sufficient in electricity within 20 years, using our natural resources. We owe it to the Welsh people to take that agenda forward, because fossil fuel energy will not go down in price; it will just go up and up, and will therefore not be a resource that is available to all.

We also owe it to the Welsh people to look at issues around food. I said that food was the second-largest component of our ecological footprint, and we have huge opportunities to look effectively at that issue. I know that my colleague, Elin Jones, is looking at a food strategy at the moment. We are also working on a national energy efficiency and savings plan, because we know that more people will come into fuel poverty. Therefore, we have to look at how we power down people's aspirations around energy, as well as looking for more renewable sources.

Those are just some areas in which our strategic response as an Assembly Government will help to drive carbon reductions. Without such strategic responses, people will just stick their heads in the sand and want to carry on as normal. We need renewable energy, we need people to think hard about energy efficiency, and we need to change the way in which we relate to our communities, to bring back more localism.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog. Galwaf yn awr ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud y datganiad olaf, er nad y lleiaf pwysig, y prynhawn yma.

Bydd angen i bob un ohonom ddefnyddio pob mecanwaith sydd ar gael inni i ledaenu'r negeseuon hyn.

Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud hefyd â'r ffordd yr ymatebwn yn strategol, fel Llywodraeth y Cynulliad. Yr ydym eisoes wedi cyhoeddi'r trywydd ynni adnewyddadwy, sy'n nodi y gallem, yn ddamcaniaethol, ddod yn hunangynhaliol o ran cynhyrchu trydan o fewn 20 mlynedd, drwy ddefnyddio'n hadnoddau naturiol. Mae'n ddyletswydd arnom er mwyn pobl Cymru fwrw ymlaen â'r agenda honno, oherwydd ni fydd pris ynni tanwydd ffosil yn gostwng; bydd yn parhau i godi, ac felly ni fydd yn adnodd a fydd ar gael i bawb.

Yn ogystal mae'n ddyletswydd arnom er mwyn pobl Cymru edrych ar faterion yn ymwneud â bwyd. Dywedais mai bwyd oedd yr elfen fwyaf ond un o ran ein hól-troed ecolegol, ac mae gennym gyfleoedd mawr i edrych yn effeithiol ar y mater hwnnw. Gwn fod fy nghyd-Weinidog, Elin Jones, yn ystyried strategaeth fwyd ar hyn o bryd. Yr ydym hefyd yn gweithio ar gynllun cenedlaethol i ddefnyddio ynni'n effeithlon ac arbed ynni, oherwydd gwyddom y bydd mwy o bobl yn dioddef yn sgîl tlodi tanwydd. Felly, rhaid inni edrych ar sut yr ydym yn lleihau dyheadau pobl o ran ynni, yn ogystal â chwilio am fwy o ffynonellau adnewyddadwy.

Dim ond rhai meysydd lle y bydd ein hymateb strategol fel Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i leihau carbon yw'r rheini. Heb ymatebion strategol o'r fath, bydd pobl yn claddu eu pennau yn y tywod ac am barhau yn ôl eu harfer. Mae angen ynni adnewyddadwy arnom, mae angen i bobl feddwl yn ddwys am ddefnyddio ynni'n effeithlon, ac mae angen inni newid y ffordd yr ydym yn uniaethu â'n cymunedau, i ailgyflwyno mwy o elfen leol.

The Presiding Officer: I thank the Minister. I now call on the Minister for Health and Social Services to make the last, but not the least, statement this afternoon.

Datganiad am Wasanaethau Iechyd Meddwl **Statement on Mental Health Services**

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): You will recall that, earlier in the year, in view of mounting concerns about the consistency, quality and availability of mental health services in Wales, I informed Members that I would look again at the way in which mental health services were planned and managed. Following discussions with the Wales Alliance for Mental Health, I asked Professor Michael Williams, now vice-chair of Abertawe Bro Morgannwg University NHS Trust, to provide me with a first view, as an independent but informed observer, on the best method of planning and delivering mental health services in Wales. I have now received his report.

I welcome the document as an important contribution to the journey on which we have embarked in relation to mental health services in Wales. I am determined that we lead a substantial, national debate on these vital services. One reason why the mental health service has so regularly been referred to as a cinderella service is the failure to make it the subject of open, public deliberation. Services that are out of sight are, as Members will know, very quickly out of mind. Professor Williams's report will help to ensure that we shine a new light of public interest and attention on the future of mental health services, and I am very grateful to him for that.

Professor Williams sets out in his report the approach that he has adopted and the evidence that he has considered. In particular, he has worked with Hafal and MIND Cymru on developing his recommendations. His report draws heavily on the recently completed all-Wales review of mental health services, jointly chaired by Mary Burrows, the chief executive of the North East Wales NHS Trust, and Stewart Greenwell, chief officer of social care and housing in Torfaen County Borough Council. The Burrows/Greenwell review took a wider look

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Byddwch yn cofio, yn gynharach eleni, o ystyried pryderon cynyddol am gysondeb, ansawdd ac argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru, imi hysbysu'r Aelodau y byddwn yn edrych eto ar y ffordd yr oedd gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu cynllunio a'u rheoli. Wedi trafodaethau gyda Chynghrair Iechyd Meddwl Cymru, gofynnais i'r Athro Michael Williams, sydd bellach yn ddirprwy gadeirydd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Abertawe Bro Morgannwg, roi barn gyntaf imi, fel sylwedydd annibynnol ond hyddysg, am y ffordd orau o gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Yr wyf bellach wedi cael ei adroddiad.

Croesawaf y ddogfen hon fel cyfraniad pwysig at y daith yr ydym wedi dechrau arni mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Yr wyf yn benderfynol y byddwn yn arwain trafodaeth genedlaethol o sylwedd am y gwasanaethau hollbwysig hyn. Un rheswm pam y mae cyfeirio mor aml wedi bod at y gwasanaeth iechyd meddwl fel gwasanaeth sy'n cael ei esgeuluso yw nad ydys wedi sicrhau trafodaeth agored, gyhoeddus am y pwnc. Fel y gŵyr yr Aelodau, buan iawn yr anghofir am wasanaethau sydd o'r golwg. Bydd adroddiad yr Athro Williams yn helpu i sicrhau bod dyfodol gwasanaethau iechyd meddwl yn ennyn diddordeb a sylw'r cyhoedd o'r newydd, ac yr wyf yn ddiolchgar iawn iddo am hynny.

Mae'r Athro Williams yn ei adroddiad yn amlinellu'r dull y mae wedi mynd ati a'r dystiolaeth a ystyriwyd ganddo. Yn benodol, mae wedi gweithio gyda Hafal a MIND Cymru i ddatblygu ei argymhellion. Mae ei adroddiad yn pwyso'n drwm ar yr adolygiad a gwblhawyd yn ddiweddar o wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru, a gadeiriwyd ar y cyd gan Mary Burrows, prif weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru, a Stewart Greenwell, prif swyddog gofal cymdeithasol a thai Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen. Edrychodd adolygiad

at the issues affecting the effective delivery of mental health services in Wales, and made recommendations regarding the planning and delivery of mental health services. It was, however, undertaken prior to my decision to consult on the wider NHS structure in Wales, and Professor Williams has been able to reach his conclusions in the full knowledge of the consultative proposals.

We all understand that good mental health and wellbeing is crucial to the quality of life of individuals, families and the wider community. Taking steps to improve and protect the mental health and wellbeing of all people in Wales is one of my key priorities, and I recognise the critical role that mental health and wellbeing plays in the development of a socially cohesive and economically vibrant country. By taking the right action, we can avoid the considerable personal, social and economic costs associated with avoidable mental health problems.

4.40 p.m.

In developing his recommendations, Professor Williams has paid particular attention to the work of the World Health Organization. Its key messages are that health and mental health are closely related; mental health is the basis of wellbeing and is vital to society, families and individuals; it is influenced by socioeconomic and environmental factors; it is linked to behaviour; it can be enhanced by effective public health interventions; and it may depend on shared values as much as the quality of scientific evidence. A climate that respects and protects basic civil, political, economic, social and cultural rights is fundamental to the promotion of mental health, and intersectoral linkage is the key for mental health promotion. Mental health is everybody's business. I think that all would concur with that.

To strengthen our ability to improve mental health and wellbeing in our communities, Professor Williams recommends that a single, responsible statutory body be established to

Burrows/Greenwell yn ehangach ar y materion sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl yn effeithiol yng Nghymru, a gwnaeth argymhellion ynghylch cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, fe'i cynhaliwyd cyn fy mhenderfyniad i ymgynghori'n ehangach ar strwythur y GIG yng Nghymru, ac mae'r Athro Williams wedi gallu llunio'i gasgliadau gan wybod am y cynigion i ymgynghori.

Yr ydym oll yn deall bod iechyd a lles meddwl da'n hanfodol i ansawdd bywyd unigolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Cymryd camau i wella a diogelu iechyd a lles meddwl holl bobl Cymru yw un o'm prif flaenoriaethau, ac yr wyf yn cydnabod y rôl allweddol sydd gan iechyd a lles meddwl yn natblygiad gwlad sy'n gydlynus yn gymdeithasol ac yn fywiog yn economaidd. Drwy gymryd y camau cywir, gallwn osgoi'r costau personol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol sy'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl y gellir eu hosgoi.

Wrth ddatblygu ei argymhellion, mae'r Athro Williams wedi rhoi sylw arbennig i waith Sefydliad Iechyd y Byd. Negeseuon allweddol y sefydliad yw bod cysylltiad agos rhwng iechyd ac iechyd meddwl; mae iechyd meddwl yn sail i les ac yn hanfodol i gymdeithas, i deuluoedd ac i unigolion; dylanwedir arno gan ffactorau cymdeithasol ac economaidd a ffactorau amgylcheddol; mae cysylltiad rhyngddo ac ymddygiad; gellir ei wella drwy ymyriadau iechyd cyhoeddus effeithiol; a gall ddibynnu ar werthoedd cyffredin yn gymaint ag ar ansawdd tystiolaeth wyddonol. Mae hinsawdd sy'n parchu ac yn diogelu hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylfaenol yn hanfodol i hybu iechyd meddwl, a chysylltiadau rhwng sectorau yw'r allwedd i hybu iechyd meddwl. Mae iechyd meddwl yn fusnes i bawb. Credaf y byddai pob un ohonom yn cytuno â hynny.

Er mwyn cryfhau ein gallu i wella iechyd a lles meddwl yn ein cymunedau, mae'r Athro Williams yn argymhell y dylid sefydlu un corff statudol cyfrifol i gynllunio a darparu

plan and deliver a fully integrated mental health service. He also recognises the requirement that any such body would have to develop mechanisms that are more local to ensure the joined-up delivery of services on the ground. Professor Williams considers that such a body will emphasise the positive benefits of addressing issues of wellbeing throughout life. The body would need to unite primary care, community mental health services, social services and acute services to provide seamless care for users. Most importantly, care should not be adversely affected by matters of organisational boundaries, age or budget. Professor Williams recognises the importance of primary and specialised mental health services working in close partnership with the provision of general health services for people who have mental health problems, regardless of the setting in which support and care is offered. His report highlights the need for strong and effective liaison services to be further developed.

Professor Williams envisages a body that would provide a comprehensive service combining the expertise of national health service trusts and social services, with a firm commitment to work with primary care, voluntary organisations, private and not-for-profit providers, and bodies in areas related to health, justice, housing, education, leisure and the arts, driven by the needs of service users and their carers, with sound clinical leadership, expertise and commitment. He also advocates a stronger focus on research, development and teaching within mental health services to ensure that future needs, as well as current needs, are met.

I circulated Professor Williams's report to all Members earlier today to add to the wider debate on mental health services. That debate will need to take account of the NHS structural reform consultation that I launched at the beginning of May. I shall be seeking the views of all stakeholders, including patients and their carers, on today's report to inform my thinking on these important

gwasanaeth iechyd meddwl cwbl integredig. Mae'n cydnabod hefyd y byddai'n ofynnol i unrhyw gorff o'r fath ddatblygu mecanweithiau sy'n fwy lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd cydgysylltiedig ar lawr gwlad. Cred yr Athro Williams y bydd corff o'r fath yn pwysleisio manteision cadarnhaol mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â lles drwy gydol bywyd. Byddai angen i'r corff uno gofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau aciwt i ddarparu gofal di-dor i ddefnyddwyr. Yn anad dim, ni ddylai ffiniau sefydliadol, oedran na chyllideb gael effaith andwyol ar ofal. Mae'r Athro Williams yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac arbenigol yn gweithio mewn partneriaeth glòs â gwasanaethau iechyd cyffredinol i bobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl, beth bynnag fo'r lleoliad y cynigir y cymorth a'r gofal ynddo. Mae ei adroddiad yn pwysleisio'r angen i wasanaethau cyswllt cryf ac effeithiol gael eu datblygu ymhellach.

Mae'r Athro Williams yn rhagweld corff a fyddai'n darparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n cyfuno arbenigedd ymddiriedolaethau'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol, gydag ymrwymiad pendant i weithio gyda gofal sylfaenol, mudiadau gwirfoddol, darparwyr preifat a darparwyr di-elw, a chyrrff mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag iechyd, cyfiawnder, tai, addysg, hamdden a'r celfyddydau, sy'n cael ei ysgogi gan anghenion defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr, gydag arweiniad clinigol, arbenigedd ac ymrwymiad cadarn. Yn ogystal mae'n argymhell ffocws cryfach ar ymchwil, datblygu ac addysgu o fewn gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau y caiff anghenion y dyfodol, yn ogystal ag anghenion y presennol, eu diwallu.

Anfonais adroddiad yr Athro Williams at bob Aelod yn gynharach heddiw er mwyn ychwanegu at y ddadl ehangach ar wasanaethau iechyd meddwl. Bydd angen i'r ddadl honno ystyried yr ymgynghoriad ar ddiwygio strwythur y GIG a lansiais ddechrau mis Mai. Byddaf yn gofyn barn pob rhanddeiliad, gan gynnwys cleifion a'u gofalwyr, am yr adroddiad hwn heddiw i

matters. I am determined to ensure that, in reaching any conclusions, I achieve a model for the management of mental health services in Wales that meets our requirements now and in the future, and that these arrangements are consistent with the overall model for the organisation of health and social care in Wales. I look forward to receiving the views of all those interested in this vital area.

Jonathan Morgan: Thank you, Minister, for your statement. I commend Professor Williams on his extremely thorough and thought-provoking report. It is extremely detailed, and it deals with some of the challenges facing us in the provision of mental health services.

As one who has a keen interest in seeing through a legislative competence Order on mental health, I welcome the suggestion that services can be commissioned and provided at an all-Wales level. However, a lot of detail has to be worked out before any substantial changes can take place.

Minister, in your statement, you talk about Professor Williams's conclusions, but you do not state your preferred option. Do you support an all-Wales body, in principle? You talked about his recommendations in glowing terms, and I infer from that that you support the conclusion that he has reached.

You rightly say in your statement that mental health services have been seen as the cinderella service, because they have been out of sight and out of mind. I hope that you agree with me that the other reason for that is because the service has been rather poor in recent years. That is not a direct criticism of your party, rather a criticism of UK Governments of all parties under which mental health services have not been a political and financial priority for the many years in which the health service has developed.

You say that it is clear from Professor Williams's conclusions that he recommends a single body with responsibility for planning a

lywio fy syniadau ynghylch y materion pwysig hyn. Yr wyf yn benderfynol o sicrhau, wrth ddod i unrhyw gasgliadau, fy mod yn creu model ar gyfer rheoli gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru sy'n diwallu ein hanghenion yn awr ac yn y dyfodol, a bod y trefniadau hyn yn gyson â'r model cyffredinol ar gyfer trefnu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at glywed barn pawb a chanddo ddiddordeb yn y maes hollbwysig hwn.

Jonathan Morgan: Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad. Yr wyf yn cymeradwyo'r Athro Williams am ei adroddiad trylwyr dros ben sy'n gwneud inni feddwl. Mae'n fanwl iawn, ac mae'n ymdrin â rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl.

Fel rhywun sy'n awyddus iawn i weld Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar iechyd meddwl yn cael ei dderbyn, croesawaf yr awgrym y gellir comisiynu a darparu gwasanaethau ar lefel Cymru gyfan. Fodd bynnag, rhaid trafod llawer o fanylion cyn i unrhyw newidiadau sylweddol allu digwydd.

Weinidog, yn eich datganiad, soniwch am gasgliadau'r Athro Williams, ond ni ddywedwch pa opsiwn sydd orau gennych. A ydych yn cefnogi corff ar gyfer Cymru gyfan, mewn egwyddor? Soniasoch yn ganmoliaethus am ei argymhellion, a thybiaf ar sail hynny eich bod yn cefnogi ei gasgliad.

Dywedwch yn eich datganiad, a hynny'n briodol, fod gwasanaethau iechyd meddwl wedi cael eu hystyried yn wasanaeth sy'n cael ei esgeuluso, oherwydd eu bod wedi bod o'r golwg ac wedi mynd yn angof. Gobeithiaf y cytunwch â mi mai'r rheswm arall am hynny yw oherwydd bod y gwasanaeth wedi bod yn eithaf gwael yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid beirniadaeth uniongyrchol ar eich plaid chi yw hynny, ond beirniadaeth yn hytrach ar Lywodraethau'r DU o bob plaid nad yw gwasanaethau iechyd meddwl wedi bod yn flaenoriaeth wleidyddol nac ariannol iddynt yn ystod y blynyddoedd maith y mae'r gwasanaeth iechyd wedi datblygu.

Dywedwch ei bod yn amlwg yn ôl casgliadau'r Athro Williams ei fod yn argymhell un corff a chanddo gyfrifoldeb dros

fully integrated mental health service. Do you regard that as being in the form of a national health service trust, or do you see a different type of body that could deliver the sorts of services that we want, perhaps on a different legal footing? In his report, he talks about a body that is unique to Wales, so I imagine that he is talking about something different to an NHS trust. Therefore, I am interested to know what your thinking is about the type of body that could exist to deliver these services.

You rightly say that Professor Williams talks about uniting primary care community mental health services, social services and acute services, to provide seamless care for users. That is not easy to achieve, partly because social services are the preserve of local government. How exactly could that be achieved, if this body is going to be responsible for pulling together expertise, whether it is staffing, commissioning services, or the provision of services, and if social services continue to be part of what local government does in Wales? That is not only an issue for mental health—it is an issue for the delivery of health and social services in Wales. How on earth could we restructure what healthcare does without looking at social care?

Professor Williams has crystallised the main problems regarding the delivery of mental health services in Wales. We know that there are some good practices throughout parts of Wales; we also know that there are some bad practices, and that users do not get access to the services that they need. Often, prioritisation does not exist in the NHS for mental health and mental health care. Therefore, anything that can address that will be welcome, although, as Welsh Conservatives, we would give it a qualified welcome as we would want to see more of the detail and understand more of your thinking about how you intend to take this report further.

gynllunio gwasanaeth iechyd meddwl cwbl integredig. A fyddai hynny, yn eich barn chi, ar ffurf ymddiriedolaeth gwasanaeth iechyd gwladol, ynteu a ydych yn gweld math gwahanol o gorff a allai ddarparu'r mathau o wasanaethau y mae arnom eu heisiau, ar sail gyfreithiol wahanol efallai? Yn ei adroddiad, mae'n sôn am gorff sy'n unigryw i Gymru, felly yr wyf yn dyfalu ei fod yn sôn am rywbeth sy'n wahanol i ymddiriedolaeth GIG. Felly, mae gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod beth yw eich barn am y math o gorff a allai ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod yr Athro Williams yn sôn am uno gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol gofal sylfaenol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau aciwt, er mwyn darparu gofal di-dor ar gyfer defnyddwyr. Nid yw hynny'n beth hawdd ei wneud, a hynny'n rhannol oherwydd bod gwasanaethau cymdeithasol yn dod dan adain llywodraeth leol. Sut yn union y gellid gwneud hynny, os mai'r corff hwn sy'n mynd i fod yn gyfrifol am ddwyn arbenigedd ynghyd, boed hynny'n staffio, comisiynu gwasanaethau, neu ddarparu gwasanaethau, ac os yw'r gwasanaethau cymdeithasol am barhau i fod yn rhan o'r hyn y mae llywodraeth leol yn ei wneud yng Nghymru? Nid problem i iechyd meddwl yn unig yw hynny—mae'n broblem o ran darparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Sut ar y ddaear y gallem ailstrwythuro'r hyn y mae gofal iechyd yn ei wneud heb edrych ar ofal cymdeithasol?

Mae'r Athro Williams wedi crisialu'r prif broblemau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Gwyddom fod rhai arferion da ar waith mewn rhannau o Gymru; gwyddom hefyd fod rhai arferion gwael ar waith, ac nad yw defnyddwyr yn cael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Yn aml, nid yw'r GIG yn blaenoriaethu iechyd meddwl a gofal iechyd meddwl. Felly, bydd croeso i unrhyw beth a all fynd i'r afael â hynny, er mai croeso amodol y byddem ni, y Ceidwadwyr Cymreig, yn ei roi iddo, oherwydd byddem am weld mwy o'r manylion a deall mwy ynglŷn â sut y bwriadwch fwrw ymlaen â'r adroddiad hwn.

Edwina Hart: Like Jonathan, I find this to be an extremely thoughtful report from Michael Williams. However, because of its thoughtfulness and the direction in which it leads, it is also a difficult report for me, because getting mental health care right is one of the great challenges for me as the Minister for Health and Social Services. I share your concerns that mental health has never had a high enough political profile, and it has always been the cinderella service financially as well when you look at how the NHS has operated traditionally. It is only in recent years that we have started to look at the financial issues surrounding it, with additional resources going in. A political imperative has come across clearly in the Chamber, from all parties, on mental health, as is illustrated by the legislation that you are proposing, Jonathan.

However, in terms of what Michael Williams is talking about, at the beginning I believe that I had all guns blazing, probably looking at a mental health trust for Wales; that is one of the issues that I have discussed, particularly with the voluntary sector. However, many people have asked me whether we really want that structure of a trust, or whether we want to go for something different—a model that is unique to Wales, which can deliver services. It is one of the areas that I am trying to put straight in my mind.

I wanted Michael to prepare this report as a discussion document, because I wanted the points that you have brought out from it to be the points that would be discussed across Wales. This is not always about my opinion, because I almost need to be guided on some of these issues. I want to develop a consensus about where we go in mental health, and I want it to go up the agenda. When it is discussed in trust boards, I do not want them to think of the ownership of it, and say that it is something that they currently own and want to keep, in terms of acute services. I want them to think outside the box about how

Edwina Hart: Fel Jonathan, yr wyf finnau'n cael yr adroddiad hwn gan Michael Williams yn un hynod feddylgar. Fodd bynnag, oherwydd ei fod mor feddylgar ac oherwydd y cyfeiriad y mae'n ein harwain iddo, mae hefyd yn adroddiad anodd imi, oherwydd y mae sicrhau bod gofal iechyd meddwl yn iawn yn un o'r heriau mawr sy'n fy wynebu fel y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr wyf finnau hefyd yn poeni nad yw proffil gwleidyddol iechyd meddwl erioed wedi bod yn ddigon amlwg, ac wrth ichi edrych ar sut y mae'r GIG wedi gweithredu'n draddodiadol, mae wastad wedi bod yn wasanaeth sydd wedi'i esgeuloso'n ariannol yn ogystal. Dim ond yn y blynyddoedd diwethaf yr ydym wedi dechrau edrych ar y materion ariannol sy'n gysylltiedig â'r maes hwn, gan roi adnoddau ychwanegol iddo. Mae pob plaid wedi'i gwneud yn glir yn y Siambr fod rheidrwydd gwleidyddol inni fynd i'r afael ag iechyd meddwl, ac mae hynny'n amlwg yn y ddeddfwriaeth yr ydych yn ei chynnig, Jonathan.

Fodd bynnag, o ran yr hyn y mae Michael Williams yn sôn amdano, credaf imi, ar y dechrau, fwrw iddi'n llawn egni, gan edrych, mae'n debyg, ar sefydlu ymddiriedolaeth iechyd meddwl i Gymru; mae hynny'n un o'r materion yr wyf wedi'i drafod, yn enwedig gyda'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, mae llawer o bobl wedi gofyn imi a ydym mewn gwirionedd am gael strwythur ymddiriedolaeth o'r fath ynteu a ydym am anelu at rywbeth gwahanol—model sy'n unigryw i Gymru, a all ddarparu gwasanaethau. Mae'n un o'r meysydd yr wyf yn ceisio cael trefn arno yn fy meddwl.

Yr oeddwn am i Michael baratoi'r adroddiad hwn ar ffurf dogfen drafod, oherwydd y pwyntiau yr ydych wedi'u codi ohono oedd y pwyntiau yr oeddwn am iddynt gael eu trafod ledled Cymru. Nid fy marn i sy'n cyfrif bob tro, oherwydd bron nad oes angen i mi gael arweiniad ar rai o'r materion hyn. Yr wyf am feithrin consensws ynglŷn ag i ble y dylem fynd ym maes iechyd meddwl ac yr wyf am iddo ddringo ar yr agenda. Pan gaiff ei drafod ym myrddau'r ymddiriedolaethau, nid wyf am iddynt feddwl ynghylch perchenogaeth hyn, a dweud ei fod yn rhywbeth y maent yn berchen arno ar hyn o bryd ac yn dymuno'i

we will deliver for the patient. Therefore, I am sorry that I cannot give you a definitive answer to this, because I am at the stage of working through how that would link into what happens at the end of my consultation in June on future structures.

The big issue in this, and in my other consultation, is where social services are. When you consider how some social services departments in Wales have not worked, you will see that they need to be on a short leash regarding where they fit into structures. There are problems around children and adult social services, which, as you know as Chair of the Health, Wellbeing and Local Government Committee, directly link in to the problems of delayed transfers of care, as well as mental health care issues, which work well in parts but not in others. This is why I would describe Michael's document as a discussion document. It is starting a debate about where we need to go, to try to develop a consensus about where we need to go to get it right for the individuals in the system, and their carers.

4.50 p.m.

Bethan Jenkins: I echo previous comments, and welcome the report by Professor Michael Williams. It is vital that we put mental health back on the political agenda. I broadly accept the concept behind the report in terms of bringing together a strategic outlook with regard to implementing mental health strategies in Wales, which I believe have been failing in respect of the planning mechanisms, which are of a low quality, and in the consistency of the service, which we need to look at seriously.

The concept of a new, single statutory body is something that we all have to discuss, and I am glad that the National Assembly can now debate this. How would a single body deal with cultural problems within the mental health service, especially with regard to psychiatrists treating adults with eating

gadw, o ran gwasanaethau aciwt. Yr wyf am iddynt feddwl o'r newydd ynghylch sut y byddwn yn darparu ar gyfer y claf. Felly, mae'n ddrwg gennyf na allaf roi ateb pendant ichi ynghylch hyn, oherwydd yr wyf wrthi ar hyn o bryd yn ceisio gweld sut y byddai hynny'n cysylltu â'r hyn a fydd yn digwydd ar ddiwedd fy ymgynghoriad ynglŷn â strwythurau'r dyfodol ym mis Mehefin.

Y pwnc mawr yn hyn o beth, ac yn fy ymgynghoriad arall, yw sefyllfa'r gwasanaethau cymdeithasol. Pan ystyriwch sut y mae rhai adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru heb weithio, gwelwch fod angen ffrwyno tipyn arnynt o ran eu lle yn y strwythurau. Mae maes gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion yn faes problemus, ac, a chithau'n Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, gwyddoch fod cysylltiad uniongyrchol rhwng hynny a phroblemau oedi wrth drosglwyddo gofal, yn ogystal ag â materion sy'n ymwneud â gofal iechyd meddwl, rhai ohonynt yn gweithio'n dda ond eraill heb fod cystal. Dyna pam y byddwn yn galw dogfen Michael yn ddogfen drafod. Mae'n agor dadl ynglŷn ag i ba gyfeiriad y dylem fynd, er mwyn ceisio meithrin consensws ynglŷn â hynny er mwyn inni gael trefn iawn i'r unigolion yn y system ac i'w gofalu.

Bethan Jenkins: Ategfaf y sylwadau blaenorol, a chroesawaf yr adroddiad gan yr Athro Michael Williams. Mae'n hollbwysig inni roi iechyd meddwl yn ôl ar yr agenda wleidyddol. Derbyniaf yn gyffredinol y cysyniad sy'n sail i'r adroddiad, sef dwyn ynghyd ymagwedd strategol ynglŷn â rhoi strategaethau iechyd meddwl ar waith yng Nghymru, sydd yn fy marn i wedi bod yn methu o ran y mecanweithiau cynllunio, sydd o ansawdd isel, ac o ran cysondeb y gwasanaeth, sy'n rhywbeth y mae angen inni roi sylw difrifol iddo.

Mae'r syniad o gael un corff statudol newydd yn rhywbeth y mae'n rhaid inni i gyd ei drafod, ac yr wyf yn falch y gall y Cynulliad Cenedlaethol ddadlau ynglŷn â hyn bellach. Sut y byddai un corff yn ymdrin â phroblemau diwylliannol yn y gwasanaeth iechyd meddwl, yn enwedig o ran

disorders who refuse to take on any new patients in this area?

Now that I have touched upon eating disorders, I note that we do not get to this subject until point 75 under specialist treatment services. My concern—I have written to you about this—is that there is no national care pathway at the moment with regard to eating disorders that is fully implemented by the Welsh Assembly Government. Therefore, there will not be equal consideration for eating disorders when we are discussing mental health capacity. Therefore, if a statutory body was to be introduced, perhaps a sub-group on eating disorder provision for Wales would be necessary in order for it to come into line with other services.

Staying with the subject of eating disorders, I also welcome the question in the report relating to training and education for specialists. This is another area that I hope you will take up. At the moment, only a small part of the curriculum is devoted to eating disorders. Currently, we can find only one GP in Wales with a specialist interest of any kind in eating disorders. Therefore, I would like you to take that on board.

The other area of interest for me in this report is the child and adult mental health services. I hope that you take on board the recommendations in the report with regard to what the children's commissioner has said. At the moment, particularly with regard to the transition stage, it is arbitrary in terms of providing support for those who are between childhood and adulthood.

Echoing what Jonathan Morgan has said with regard to commissioning services, if we are going to be changing the role of Health Commission Wales, we need strong mechanisms to be put in place to make partnership boards the effective body to which it has to answer. Perhaps next week, when we receive the HCW report, Professor Aylward could help with any arrangements in this field.

seiciatryddion yn trin oedolion ag anhwylderau bwyta, a'r seiciatryddion hynny'n gwrthod derbyn cleifion newydd yn y maes hwn?

Gan fy mod yn awr wedi crybwyll anhwylderau bwyta, sylwaf nad ydym yn cyrraedd y pwnc hwn tan bwynt 75 dan wasanaethau triniaeth arbenigol. Fy mhryder —yr wyf wedi ysgrifennu atoch ynglŷn â hyn—yw nad oes llwybr gofal cenedlaethol ar hyn o bryd ar gyfer anhwylderau bwyta sy'n cael ei roi ar waith yn llwyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, ni chaiff anhwylderau bwyta yr un ystyriaeth pan fyddwn yn trafod capasiti iechyd meddwl. Felly, pe cyflwynid corff statudol, efallai y byddai angen is-grŵp ynghylch darpariaeth anhwylderau bwyta ar gyfer Cymru er mwyn iddo fod ar yr un telerau â gwasanaethau eraill.

Gan ddal i sôn am anhwylderau bwyta, croesawaf hefyd y cwestiwn yn yr adroddiad sy'n ymwneud â hyfforddi ac addysgu arbenigwyr. Dyma faes arall yr wyf yn gobeithio y rhowch sylw iddo. Ar hyn o bryd, dim ond rhan fach o'r cwricwlwm sydd wedi'i neilltuo i anhwylderau bwyta. Ar hyn o bryd, dim ond un meddyg teulu y gallwn ddod o hyd iddo yng Nghymru sydd â diddordeb arbenigol o unrhyw fath mewn anhwylderau bwyta. Felly, hoffwn ichi roi sylw i hynny.

Y maes arall sydd o ddiddordeb i mi yn yr adroddiad hwn yw gwasanaethau iechyd meddwl i blant ac oedolion. Yr wyf yn gobeithio y rhowch sylw i'r argymhellion yn yr adroddiad ynglŷn â'r hyn y mae'r comisiynydd plant wedi'i ddweud. Ar hyn o bryd, yn enwedig yn y cyfnod pontio, mae'r cymorth a roddir i'r rhai sydd rhwng plentynod ac oedolaeth yn fymrwyl.

Gan ategu'r hyn y mae Jonathan Morgan wedi'i ddweud ynglŷn â chomisiynu gwasanaethau, os ydym yn bwriadu newid rôl Comisiwn Iechyd Cymru, mae angen inni sefydlu mecanweithiau cryf er mwyn sicrhau mai byrddau partneriaeth yw'r corff effeithiol y mae'n rhaid iddo ateb iddynt. Efallai, yr wythnos nesaf, pan gawn yr adroddiad ar Gomisiwn Iechyd Cymru, y gallai'r Athro Aylward gynorthwyo gydag unrhyw

drefniadau yn y maes hwn.

I will finish with a point on autism. Will you consider, as part of any new ideas with regard to a statutory body, the fact that some people fall outside the remit of mental health and, perhaps, into the remit of learning difficulties, especially with regard to Asperger's syndrome? Would you, therefore, consider implementing a protocol of care between learning disability services and mental health services to agree a structured care pathway for adults with Asperger's syndrome?

I welcome the report, but I would also like to ask what the timescale for consulting will be. If you take on board some of the recommendations, could you please comment on the accountability of the proposed national board?

Edwina Hart: I thank Bethan Jenkins for her contribution on this, because she raised some key issues that I spend a lot of time considering, such as eating disorders and self harm. They are issues that have been neglected. There have been examples of good practice and some excellent GPs and excellent people to refer to, but, in the main, they have always been on the periphery of the discussions. It is important that they are in the mainstream of discussions if we are to develop a proper strategy for mental health.

Bethan went into a lot of detail about the areas that she wants to look at. This is the detail that I hope will come out of any discussion that we have. Earlier, in response to Jonathan Morgan, I described this as a discussion document, which it is—I want to discuss it. I have not set a timescale, because it is the type of document that you want to discuss well into the autumn. It requires not a three-month consultation, but a discussion over a period of six months. I intend to discuss with Professor Williams how we want to take some sort of discussions forward, the type of groups that we want to ask the voluntary sector to organise to discuss it, how it will be discussed within the trusts, LHBs and various organisations. I want to take it forward in that way.

Dof i ben drwy sôn am awtistiaeth. A wnewch ystyried, fel rhan o unrhyw syniadau newydd ynglŷn â chorff statudol, y ffaith bod rhai pobl y tu allan i gylch gorchwyl iechyd meddwl, a'u bod efallai o fewn cylch gorchwyl anawsterau dysgu, yn enwedig yng nghyswllt syndrom Asperger? Felly, a fydddech yn ystyried rhoi protocol gofal ar waith rhwng y gwasanaethau anabledau dysgu a'r gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn cytuno ar lwybr gofal strwythuredig i oedolion sydd â syndrom Asperger?

Yr wyf yn croesawu'r adroddiad, ond hoffwn ofyn hefyd beth fydd yr amserlen ar gyfer ymgynghori. Os byddwch yn derbyn rhai o'r argymhellion, a allech gyflwyno sylwadau os gwelwch yn dda am atebolrwydd y bwrdd cenedlaethol a gynigir?

Edwina Hart: Diolchaf i Bethan Jenkins am ei chyfraniad ynglŷn â hyn, oherwydd cododd rai pynciau allweddol y byddaf yn treulio llawer o amser yn eu hystyried, megis anhwylderau bwyta a hunan-niweidio. Maent yn faterion sydd wedi'u hesgeuluso. Gwelwyd enghreifftiau o arferion da a nifer o feddygon teulu ardderchog a phobl ardderchog inni gyfeirio atynt, ond, ar y cyfan, maent bob tro wedi bod ar gyrion y trafodaethau. Mae'n bwysig iddynt fod ym mhrif ffrwd y trafodaethau os ydym am ddatblygu strategaeth briodol ar gyfer iechyd meddwl.

Soniodd Bethan yn fanwl iawn am y meysydd y mae am edrych arnynt. Dyma'r manylion a fydd yn deillio, yr wyf yn gobeithio, o unrhyw drafodaeth a gawn. Yn gynharach, wrth ymateb i Jonathan Morgan, gelwais y ddogfen hon yn ddogfen drafod, a dyna ydyw—yr wyf am ei thrafod. Nid wyf wedi pennu amserlen, oherwydd bod y math hwn o ddogfen hon yn ddogfen yr ydych am ei thrafod tan yr hydref. Nid ymgynghoriad tri mis sy'n ofynnol, ond trafodaeth dros gyfnod o chwe mis. Bwriadaf drafod gyda'r Athro Williams sut yr ydym am gynnal rhyw fath o drafodaethau, y math o grwpiau yr ydym am ofyn i'r sector gwirfoddol eu trefnu i'w thrafod, sut y caiff ei thrafod yn yr ymddiriedolaethau, y BILlau, ac amrywiol sefydliadau. Dyna sut yr wyf am fwrw

ymlaen â hi.

Some of the key areas relate to the planning of services. These are key issues. How do we plan services around the individual and how do we have seamless services for individuals? These are things that I hope will come out of the various discussions. On CAMHS, there are also many challenges. Some LHBs just are not doing it as well as others. Some are doing it very well, and we must get that consistency of approach and equality of access to treatment across Wales that we do not have in CAMHS or any other mental health services. It is almost a case of being lucky if you have the appropriate clinicians where you live, and it should not be like that.

Mae rhai o'r meysydd allweddol yn ymwneud â chynllunio gwasanaethau. Mae'r rhain yn faterion allweddol. Sut y mae cynllunio gwasanaethau o gwmpas yr unigolyn a sut y mae cael gwasanaethau didor i unigolion? Dyma'r pethau a fydd yn deillio, yr wyf yn gobeithio, o'r gwahanol drafodaethau. O ran CAMHS, mae llawer o heriau ynghylch hynny hefyd. Nid yw rhai BILLau yn gwneud crystal ag eraill yn y cyswllt hwn. Mae rhai'n gwneud hyn yn dda iawn, a rhaid inni sicrhau dull cyson a mynediad cyfartal at driniaeth ledled Cymru, rhywbeth nad yw ar gael yn CAMHS nac mwn unrhyw wasanaethau iechyd meddwl eraill. Lwc fwy neu lai sy'n penderfynu a yw'r clinigwyr priodol ar gael ichi yn eich ardal, ac nid felly y dylai fod.

Therefore, I take your points on board; they will go into the melting pot, as it were, with regard to what we need to do in what is an extremely complex area of dealing with mental health services across Wales.

Felly, rhoddaf sylw i'ch pwyntiau; fe'u teflir i'r pair, fel petai, o ran yr hyn y mae angen inni ei wneud mewn maes eithriadol o gymhleth wrth inni ymdrin â'r gwasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru.

Jenny Randerson: Thank you for your statement, Minister. Having had a brief time to look through the report, I can say that, although it is not a long report, it gives you a massive amount to think about. Like you and, I detect, like Jonathan Morgan, I do not wish to rush to judgment on this; I want to take time to think about it.

Jenny Randerson: Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Ar ôl cael ychydig o amser i daro golwg drwy'r adroddiad, gallaf ddweud, er nad yw'n adroddiad hir, ei fod yn rhoi llawer iawn o waith meddwl ichi. Fel chithau, ac, fe dybiaf, fel Jonathan Morgan, nid wyf am ruthro i lunio barn am hyn; yr wyf am gael amser i feddwl amdano.

A single body for mental health services has been mooted in the past, but when you drill down to the detail, there are immense complexities. Whatever way you look at it, there are bound to be fractures in the health system. With a single body, you would be separating mental health services from other health services. The question is: is this a good idea, either in practical terms or with regard to the way in which we look at mental health? We regard it as something different, something special. The reverse side of that coin is that you could say that it would be a good thing because we would be able to track the amount of money that we spend on it, target times and so on much more clearly.

Mae sefydlu un corff ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi'i grybwyll o'r blaen, ond wrth ichi fynd at wraidd y manylion, gwelir cymhlethdodau anferth. Sut bynnag yr edrychwch ar y mater, mae'n anochel y bydd holltau yn y system iechyd. O sefydlu un corff, byddech yn gwahanu gwasanaethau iechyd meddwl oddi wrth wasanaethau iechyd eraill. Y cwestiwn yw: a yw hyn yn syniad da, un ai o safbwynt ymarferol neu o safbwynt y ffordd yr ydym yn edrych ar iechyd meddwl? Yr ydym yn ei ystyried yn rhywbeth gwahanol, yn rhywbeth arbennig. Y ochr arall i'r geiniog honno yw y gallech ddweud y byddai'n beth da oherwydd y gallem olrhain faint o arian yr ydym yn ei wario arno, amseroedd targed ac yn y blaen yn fwy clir o lawer.

However, the problem with separating it out is that, for example, older people in particular often have physical and mental health needs at the same time. Indeed, the report refers to illnesses as diverse as cancer and coronary illness and the effect of burns as being the sort of things that bring psychiatric problems with them. On an everyday basis, there are key essential links with general practice, which, in this scenario, will mean key and essential links with local health boards and the provision of primary care.

Therefore, the idea of a single body has attractions but presents considerable practical difficulties, even down to the point of view of the buildings. There are psychiatric services provided in the same buildings as services for physical illnesses, and, presumably, in this scenario, those would be run by two different trusts in the same building. In other words, we could be creating a system that is seductively simple, but that, on a day-to-day basis, actually produces complex practical problems that swallow a great deal of money in bureaucratic solutions. So, we need to think about this in a great deal of detail and seek the response of those who work in the field, who would see much more clearly than we would the practical issues as well as the ideal, to which we would all subscribe, of improving significantly our mental health services.

Am I am right in assuming that you would plan to do this reorganisation at the same time as the other reorganisations that you are thinking about—if you decide to adopt this? In itself, it is perfectly logical to do it all at the same time but, if we were not careful, it would turn the health service into a giant game of musical chairs. The reorganisation, in itself, presents great practical issues.

5.00 p.m.

There is great emphasis in the report on the importance of partnership. Have you given any thought to the importance of the partnership with social services in particular? It is not in the equation of the other health reorganisations that you are thinking about,

Fodd bynnag, y broblem wrth ei wahanu yw, er enghraifft, fod gan bobl hŷn yn benodol anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddyliol ar yr un pryd yn aml. Yn wir, mae'r adroddiad yn cyfeirio at afiechydon mor amrywiol â chanser ac afiechyd coronaidd ac effaith llosgiadau fel y mathau o bethau sy'n dwyn problemau seiciatrig yn eu sgîl. O safbwynt trefniadau beunyddiol, ceir cysylltiadau hanfodol allweddol ag ymarfer meddygol, a fydd, yn y senario hwn, yn golygu cysylltiadau allweddol a hanfodol â'r byrddau iechyd lleol ac â darparu gofal sylfaenol.

Felly, mae cael un corff yn syniad deniadol ond mae anawsterau ymarferol sylweddol ynghlwm wrtho, hyd yn oed o ran adeiladau. Darperir gwasanaethau seiciatrig yn yr un adeiladau ag y darperir gwasanaethau ar gyfer afiechyd corfforol, ac, yr wyf yn tybio, yn y senario hwn, byddai'r rheini'n cael eu darparu gan ddwy ymddiriedolaeth wahanol yn yr un adeilad. Mewn geiriau eraill, gallem fod yn creu system sy'n ddeniadol o syml, ond sydd, ar lefel bob dydd, mewn gwirionedd, yn creu problemau ymarferol cymhleth sy'n llyncu llawer iawn o arian er mwyn creu atebion biwrocraataidd. Felly, mae angen inni feddwl am hyn yn fanwl iawn a gofyn am ymateb y rhai sy'n gweithio yn y maes, a fyddai'n gweld yn gliriach o lawer nag y byddem ni beth fyddai'r problemau ymarferol, yn ogystal â'r ddelfryd—delfryd y byddem i gyd yn cydsynio â hi, sef gwella'n gwasanaethau iechyd meddwl yn sylweddol.

A wyf yn iawn wrth dybio mai eich cynllun fyddai gwneud yr ad-drefnu hwn yr un pryd â'r ad-drefnu arall yr ydych yn ei ystyried—os penderfynwch fabwysiadu hyn? Ynddo'i hun, mae'n gwbl resymegol gwneud y cyfan ar yr un pryd, ond oni fyddem yn ofalus, byddai'n troi'r gwasanaeth iechyd yn gêm anferth o newid cadeiriau. Mae'r ad-drefnu ei hun yn codi problemau ymarferol mawr.

Mae pwyslais mawr yn yr adroddiad ar bwysigrwydd partneriaeth. A ydych wedi ystyried o gwbl bwysigrwydd y bartneriaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig? Nid yw'n ffactor yn yr ad-drefniadau iechyd eraill yr ydych yn meddwl amdanynt, er bod

although it is certainly being considered because it is an essential link. Social services have a vital role to play in the provision of mental health services. We have to set up good partnerships with local authorities, so can I have your assurance that local authorities, social services departments, and directors of social services will be fully involved in the responses to this?

The estimate given in the previous report on mental health, and repeated in this report, is that mental health services in Wales are underfunded to the tune of £11 million a year. Will you give an assurance, Minister, that you will not undertake any reorganisation without being confident that you can secure additional funding of sufficient magnitude to ensure that the reorganisation can make a real impact, rather than being a case of reorganising the dummies in the shop window? We absolutely must have additional funding for mental health services.

I also ask for your assurance, Minister, that you will take on board the recommendation in this report that the grant system for voluntary organisations be looked at in order to give them greater certainty.

Edwina Hart: I would like to be able to make a statement about money in the absence of the Minister for Finance and Public Service Delivery and give you some categorical assurances, but that would be extremely ill-disciplined of me as a member of the Government. However, you make a valid point about the resource issue, which is key to any thoughts that I might have about structural reorganisations and what additional money I need to put into services. Additional funding has gone into services, but I am acutely aware that I need to invest more money. If more money became available in the health budget, mental health services would be a priority area.

Like you, I have also been concerned about the mental health grant system and I have

hynny yn sicr yn cael ei ystyried gan ei fod yn ddolen gyswllt hanfodol. Mae gan y gwasanaethau cymdeithasol rôl hanfodol i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl. Rhaid inni sefydlu partneriaethau da â'r awdurdodau lleol, felly a gaf sicrwydd gennych y bydd yr awdurdodau lleol, yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol, a chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cynnwys yn llawn yn yr ymatebion i hyn?

Yr amcangyfrif a roddwyd yn yr adroddiad blaenorol ar iechyd meddwl, ac a ailadroddir yn yr adroddiad hwn, yw bod gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yn cael eu tangyllido o £11 miliwn y flwyddyn. A roddwch sicrwydd, Weinidog, na fyddwch yn ymgymryd ag unrhyw ad-drefnu onid ydych yn hyderus y gallwch sicrhau cyllid ychwanegol digonol i sicrhau y gall yr ad-drefnu gael effaith wirioneddol, yn hytrach na'i fod yn enghraifft o ad-drefnu'r delwau yn ffenestr y siop? Mae'n gwbl hanfodol inni gael cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

Gofynnaf hefyd am sicrwydd gennych, Weinidog, y byddwch yn rhoi sylw i'r argymhelliad yn yr adroddiad hwn y dylid edrych ar y system grantiau i fudiadau gwirfoddol er mwyn rhoi mwy o sicrwydd iddynt.

Edwina Hart: Byddwn yn hoffi gallu gwneud datganiad am arian yn absenoldeb y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a rhoi sicrwydd pendant ichi, ond byddai hynny'n beth eithriadol o annisgybledig imi ei wneud fel aelod o'r Llywodraeth. Fodd bynnag, yr ydych yn gwneud pwynt dilys ynghylch adnoddau, gan eu bod yn allweddol i unrhyw syniadau a allai fod gennyf ynglŷn ag ad-drefnu strwythurol a pha arian ychwanegol y mae angen imi ei roi i'r gwasanaethau. Mae arian ychwanegol wedi mynd i wasanaethau, ond yr wyf yn ymwybodol iawn bod angen imi fuddsoddi rhagor o arian. Petai rhagor o arian ar gael yn y gyllideb iechyd, byddai'r gwasanaethau iechyd meddwl yn faes a fyddai'n cael blaenoriaeth.

Fel chithau, yr wyf finnau hefyd wedi bod yn pryderu am y system grantiau iechyd meddwl

already had discussions with the Wales Council for Voluntary Action around some of the issues. In your contribution, you highlighted all of my dilemmas. I think that we share those across the Chamber. If you look at it on paper, having one organisation seems to be the simple solution, but when you go deeper, you question whether it is that simple, or whether that in fact makes it more complex, and whether there is another way to reach the desired outcome. Given what Michael has illustrated in his report, and all of the problems that we have in the area of mental health, which need to be solved, there can never be a simple administrative solution. However, on the other hand, it could assist.

I will give you some guarantees. I will ask my Deputy Minister, Gwenda Thomas, to lead the discussions with local authorities. We have very good links in some areas with social services. There are good examples of health and social care working effectively together in the same setting. Therefore, that would not be a new context, and we can build on good practice. I agree that we need to talk to the people who deal with this daily. It is not something that we can do from the centre. This is a discussion document, and it will have to be discussed widely. I will need to look at a mechanism in order for this discussion to be focused, with Michael perhaps suggesting key questions that need to be answered by various groups. I will give some further consideration to that in my discussions with him and indicate how I intend to proceed.

We have the summer recess coming up, going into the autumn, which provides an opportunity for people to look at this. If it comes down on either side, I will be able to consider that in the overall context of the administrative reforms that I might be making in the health service. However, like you, I recognise that we do not want to be playing musical chairs. I may need to get one set of reforms out of the way, but I will need to be clear about where I am going in the next set.

ac yr wyf eisoes wedi cynnal trafodaethau gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ynghylch rhai o'r materion. Yn eich cyfraniad, tynasoch sylw at bob cyfyng-gyngor sydd gennyf. Credaf fod y pryderon hynny'n rhai sydd gennym ar draws y Siambr. Os edrychwch ar hyn ar bapur, mae cael un sefydliad yn ymddangos yn ateb syml, ond pan ewch yn ddyfnach, yr ydych yn cwestiynu a yw mor syml â hynny, ynteu a yw hynny mewn gwirionedd yn ei wneud yn fwy cymhleth, ac a oes ffordd arall o gyrraedd y canlyniad a ddymunir. O ystyried yr hyn y mae Michael wedi'i ddisgrifio yn ei adroddiad, a'r holl broblemau sydd gennym ym maes iechyd meddwl, y mae angen eu datrys, ni fydd ateb gweinyddol syml byth. Fodd bynnag, ar y llaw arall, gallai fod o gymorth.

Rhoddaf sicrwydd ichi ynghylch rhai pethau. Gofynnaf i'm Dirprwy Weinidog, Gwenda Thomas, arwain y trafodaethau gyda'r awdurdodau lleol. Mae gennym gysylltiadau da iawn mewn rhai ardaloedd â'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae enghreifftiau da o iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn yr un sefydliad. Felly, ni fyddai hynny'n gyd-destun newydd, a gallwn adeiladu ar arferion da. Cytunaf fod angen inni siarad â'r bobl sy'n delio â hyn yn feunyddiol. Nid yw'n rhywbeth y gallwn ei wneud o'r canol. Dogfen drafod yw hon, a bydd yn rhaid ei thrafod yn eang. Bydd angen imi edrych ar fecanwaith er mwyn i hon fod yn drafodaeth a ffocws iddi, gyda Michael efallai yn awgrymu cwestiynau allweddol y mae angen i wahanol grwpiau eu hateb. Rhoddaf rywfaint o ystyriaeth bellach i hynny yn fy nhrafodaethau ag ef a dywedaf sut yr wyf yn bwriadu symud ymlaen.

Mae toriad yr haf ar y gorwel, gan fynd â ni i'r hydref, sy'n rhoi cyfle i bobl edrych ar hyn. Os bydd o blaid y naill ochr neu'r llall, gallaf ystyried hynny yng nghyd-destun cyffredinol y diwygiadau gweinyddol y byddaf yn eu gwneud efallai yn y gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, fel chithau, yr wyf yn cydnabod nad ydym am chwarae newid cadeiriau. Efallai y bydd angen imi gael gwared ar un set o ddiwygiadau, ond bydd angen imi fod yn glir ynglŷn â lle yr wyf yn mynd yn y set nesaf.

Sandy Mewies: You are absolutely right, Minister, and I agree with everyone else, including Jonathan Morgan, who said that it is about time that light was shed on this cinderella service. Jonathan was right in saying that the problems have not been caused by one administration. They have been caused by many years of neglect. People talk about cinderella services, and mental health services can truly claim that title.

One issue that Professor Williams has highlighted is the need for a national strategy to look at and deal with mental health issues. I have said many times in this Chamber that that has to happen anyway. We should not have different standards of healthcare, and that is particularly true for mental health, because, very often, mental illnesses are revolving-door issues—you might suffer problems at the age of 16 that may flare up again when you are 32 and when you are 50. Who knows where you will be when that happens? You could be anywhere in Wales, and you should be able to expect a consistent service. However, we also need to have strategies at regional levels, looking at and identifying the problems close to home.

You have identified one of the major problems, which people have touched on. Bethan talked about autism and eating disorders, and others mentioned dementia. Mental illness covers a wide spectrum, and probably has the widest range of illnesses that professionals have to deal with. You have to have primary care provision, provision in acute hospitals and the community setting, as well as links into social services, the justice system, and so on. That is your difficulty, Minister, and that is why I think that you are very wise to say that we have to listen to people's responses and what they will tell us about this. The Burrows/Greenwell report and recommendations highlighted many of the issues, and many more will, I think, become apparent when people start to respond to this consultation.

Sandy Mewies: Yr ydych yn hollol iawn, Weinidog, ac yr wyf yn cytuno â phawb, gan gynnwys Jonathan Morgan, a ddywedodd ei bod yn hen bryd bwrw goleuni ar y gwasanaeth hwn sydd wedi'i esgeuluso. Yr oedd Jonathan yn iawn pan ddywedodd nad un weinyddiaeth sydd wedi achosi'r problemau. Cawsant eu hachosi gan flynyddoedd lawer o esgeulustod. Mae pobl yn sôn am wasanaethau sydd wedi cael eu hesgeuluso, a gall y gwasanaethau iechyd meddwl hawlio'r teitl hwnnw yn wir.

Un mater y mae'r Athro Williams wedi tynnu sylw ato yw'r angen am strategaeth genedlaethol i edrych ar faterion iechyd meddwl a delio â hwy. Yr wyf wedi dweud droeon yn y Siambr hon fod yn rhaid i hynny ddigwydd beth bynnag. Ni ddylai fod gennym ofal iechyd sy'n amrywio o ran ei safon, ac mae hynny'n arbennig o wir am iechyd meddwl, oherwydd, yn aml iawn, mae afiechydon y meddwl yn broblemau sy'n dod yn eu holau—gallech gael problemau yn 16 oed a all ymddangos eto pan fyddwch yn 32 ac yn 50. Pwy a wŷr lle y byddwch pan ddigwydd hynny? Gallech fod yn unrhyw le yng Nghymru, a dylech allu disgwyl gwasanaeth cyson. Fodd bynnag, mae angen inni fod â strategaethau ar lefelau rhanbarthol hefyd, yn edrych ar broblemau'n agos adref ac yn eu nodi.

Yr ydych wedi nodi un o'r problemau mawr, y mae pobl wedi sôn amdanynt. Siaradodd Bethan am awtistiaeth ac anhwylderau bwyta, a soniodd eraill am ddementia. Mae salwch meddwl yn cwmpasu sbectrum eang, ac yn y maes hwnnw, mae'n debyg, y mae'r ystod ehangaf o afiechydon y mae gweithwyr proffesiynol yn gorfod delio â hwy. Rhaid ichi gael darpariaeth gofal sylfaenol, darpariaeth mewn ysbytai aciwt a darpariaeth yn y gymuned, yn ogystal â chysylltiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol, y system gyfiawnder, ac yn y blaen. Dyna'r anhawster sydd gennych, Weinidog, a dyna pam y credaf eich bod yn ddoeth iawn wrth ddweud bod yn rhaid inni wrando ar ymatebion pobl a'r hyn a ddywedant wrthym am hyn. Tynnodd adroddiad ac argymhellion Burrows/Greenwell sylw at lawer o'r materion, a bydd llawer rhagor, yr wyf yn credu, yn dod yn amlwg pan fydd pobl yn

dechrau ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Bethan raised the issue of autism, and I know that North Wales Police, with Autism Cymru, started a card scheme—Carl and I were very involved in this—whereby young people suffering from autism could carry a card that explained why they might not be as communicative and helpful with the police as possible.

I get concerned—I do not know what other Members think—when I see newspaper reports about so-called batty old people causing disputes with neighbours. Do not get me wrong: I am sure that some of us are growing old very crankily indeed, and could be causing such disputes, but I feel that many of those whom I read about in the newspapers should not be in the court system, but should be getting help for mental health problems. This is a huge issue, which will need money. We must not add layers of bureaucracy for either the professionals or for those who go into the system.

Education was mentioned, and education for everyone involved, across the spectrum, is of great importance. Many of you know that I was a carer for my late mother, who had dementia. When she was in the psychiatric unit of the hospital, the staff knew how to deal with her, but when she had pneumonia and went just across the way into the general medical facility, the staff said that they were sending her out—although she was aged 80 and had pneumonia—because she would not take her tablets. She would not take her tablets because she thought that the staff were poisoning her. Those are the sorts of problems that staff who only have general training cannot always deal with, so there is a real need to raise awareness. Minister, if you get joint-working right in mental health, I think that you will solve all of the joint-working problems in health and social services.

Cododd Bethan fater awtistiaeth, a gwn fod Heddlu Gogledd Cymru, ynghyd ag Awtistiaeth Cymru, wedi dechrau cynllun cardiau—mae Carl a minnau wedi ymwneud llawer â hyn—sy'n golygu bod pobl ifanc sydd ag awtistiaeth yn gallu cario cerdyn sy'n esbonio pam nad ydynt efallai mor barod i gyfathrebu â'r heddlu a'u helpu ag y gallent fod.

Yr wyf yn pryderu—ni wn beth y mae'r Aelodau eraill yn ei feddwl—pan welaf adroddiadau mewn papurau newydd am hen bobl yr honnir eu bod yn hurt yn achosi anghydfod â chymdogion. Peidiwch â'm camddeall. Yr wyf yn siŵr bod rhai ohonom yn mynd yn biwis iawn wrth heneiddio, ac y gallem fod yn achosi anghydfodau o'r fath, ond teimlaf na ddylai llawer o'r rhai yr wyf yn darllen amdanynt yn y papurau newydd fod yn system y llysoedd, ond y dylent fod yn cael help gyda phroblemau iechyd meddwl. Mae hwn yn fater enfawr, a bydd angen arian ar ei gyfer. Rhaid inni beidio ag ychwanegu haenau o fiwrocratiaeth i'r gweithwyr proffesiynol na'r rhai sy'n mynd i mewn i'r system.

Soniwyd am addysg, ac mae addysg i bawb dan sylw, ar draws y sbectrum, yn eithriadol o bwysig. Gŵyr llawer ohonoch fy mod wedi gofalu am fy niweddar fam, a oedd â dementia. Pan oedd hi yn uned seiciatrig yr ysbyty, gwyddai'r staff sut i ddelio â hi, ond pan gafodd lid yr ysgyfaint a mynd ar draws y ffordd i'r cyfleuster meddygol cyffredinol, dywedodd y staff eu bod yn ei hanfon oddi yno—er ei bod yn 80 oed a bod ganddi lid ar yr ysgyfaint—gan ei bod yn gwrthod cymryd ei thabledi. Yr oedd yn gwrthod cymryd ei thabledi am ei bod yn credu bod y staff yn ei gwenwyno. Dyna'r math o broblemau nad yw staff nad ydynt ond wedi cael hyfforddiant cyffredinol yn gallu delio â hwy bob amser, felly mae gwir angen codi ymwybyddiaeth. Weinidog, os sicrhewch fod y cydweithio'n iawn ym maes iechyd meddwl, credaf y byddwch yn datrys yr holl broblemau'n ymwneud â chydweithio ym

maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Edwina Hart: I recognise many of the points that Sandy Mewies raised, particularly when she mentioned the treatment that her mother received and the comments that you see in the newspapers. I think that when we see some of those stories we recognise straight away that these are mental health issues that have never been sorted out. There is a sector of the population that has never been in the system, but which needs to be in the system and helped in some respect. I think that Michael is talking about a national strategy. I agree with you about that. He is saying, 'Let us get our house in order and let us look strategically at how we deal with all of the individual care pathways that are required'. Provision should be seamless, whether people are in the social care sector or in primary care, and wherever they go. The challenge of this report is to put in place the mechanisms that will make things better for the individual and for carers. The challenge is absolutely enormous, because there are so many diverse opinions. It will be difficult to get a consensus, but, hopefully, if we take on board the views of patients and the professionals, enough of a consensus will develop for us to take part of his report forward in some way.

Edwina Hart: Yr wyf yn cydnabod llawer o'r pwyntiau a gododd Sandy Mewies, yn enwedig pan soniodd am y driniaeth a gafodd ei mam a'r sylwadau a welwch mewn papurau newydd. Pan welwn rai o'r storïau hynny, credaf ein bod yn sylweddoli ar unwaith mai materion iechyd meddwl yw'r rhain nad ydynt erioed wedi cael eu datrys. Mae carfan o'r boblogaeth nad yw erioed wedi bod yn y system, ond y mae angen iddi fod yn y system a chael help mewn rhyw ffordd. Credaf fod Michael yn siarad am strategaeth genedlaethol. Yr wyf yn cytuno â chi ynghylch hynny. Mae'n dweud, 'Gadewch inni roi trefn ar bethau a gadewch inni edrych yn strategol ar y ffordd yr ydym yn delio â'r holl lwybrau gofal unigol y mae eu hangen'. Dylai'r ddarpariaeth fod yn ddi-dor, boed pobl yn y sector gofal cymdeithasol neu mewn gofal sylfaenol, a pha le bynnag y maent yn mynd. Yr her yn yr adroddiad hwn yw sefydlu'r mecanweithiau a fydd yn gwneud pethau'n well i'r unigolyn ac i ofalwyr. Mae'r her yn un enfawr, oherwydd y mae pawb â'i farn ac mae cymaint o amrywiaeth yn y farn honno. Bydd yn anodd cael consensws, ond, gobeithio, os rhown sylw i farn cleifion a'r gweithwyr proffesiynol, y bydd digon o gonsensws yn datblygu inni fwrw ymlaen â rhan o'i adroddiad rywfodd.

5.10 p.m.

I hope that we will get many responses to this discussion document, which we will then be able to use to develop a coherent policy in this area. The decision coming out of all this discussion might not be what Michael suggested—there might be more innovative solutions, different ways of dealing with this, and different relationships and different partnerships. That is what is important about this. I do not intend to rush this. I want to get in as many views as possible so that we can take this forward strategically, perhaps with agreement across the Chamber about the best way forward. Otherwise, we will have failed another couple of generations in how we deal with mental health issues.

Gobeithiaf y cawn lawer o ymatebion i'r ddogfen drafod hon, y gallwn eu defnyddio wedyn i ddatblygu polisi cydlynol yn y maes hwn. Efallai nad yr hyn a awgrymodd Michael fydd y penderfyniad a fydd yn deillio o'r holl drafodaeth hon—efallai fod atebion mwy arloesol, ffyrdd gwahanol o ddelio â hyn, a mathau gwahanol o berthynas a phartneriaethau gwahanol. Dyna sy'n bwysig am hyn. Nid wyf yn bwriadu rhuthro ynglŷn â hyn. Yr wyf am gael barn gan gynifer ag sy'n bosibl o bobl fel y gallwn fwrw ymlaen â hyn yn strategol, gyda chytundeb ar draws y Siambr efallai am y ffordd orau ymlaen. Fel arall, byddwn wedi siomi cenhedlaeth neu ddwy arall o ran sut yr ydym yn delio â materion iechyd meddwl.

Mark Isherwood: In your statement, you said that the debate will, quite rightly, need to take account of the consultation on NHS structural reform that you launched at the beginning of last month. I believe that question 3 in that document mentions moving community services to LHBs, and I have been copied in on a number of responses from trusts and trust staff opposing that, because they believe, as Professor Williams states, that the integration of acute, community and mental health services should remain and that moving community services to LHBs would create more problems for patients. Professor Williams refers to the new body needing to unite primary care and community mental health services and acute services to provide seamless care for users. What is your thinking on that at the moment, given the consultation document referred to and the conclusions of Professor Williams?

My second and final point is that you state that:

‘Professor Williams envisages a body that would provide a comprehensive service combining the expertise of NHS trusts and social services with a firm commitment to work with primary care, voluntary organisations, private and not for profit providers’.

Last week, I visited an independent provider of mental health care beds and provision for people with learning difficulties, and staff talked about the desire of the sector to expand into many of the areas referred to by other Members, such as dementia, autism spectrum disorders and that of dual diagnosis, which I do not think has been mentioned, of mental health problems associated with substance misuse, including issues of post-traumatic stress disorder, and broader challenging behaviour issues. How do you envisage those sectors collectively helping to deliver this expansion of services in the future, and will you confirm, as Professor Williams says, that this should go forward on the basis of a commitment to working together?

Mark Isherwood: Yn eich datganiad, dywedasoch y bydd y ddadl, yn gwbl briodol, yn ystyried yr ymgynghoriad ynghylch diwygio strwythurol yn y GIG a lansiwyd gennych ddechrau'r mis diwethaf. Credaf fod cwestiwn 3 yn y ddogfen honno'n sôn am symud gwasanaethau cymunedol i'r BILlau, ac yr wyf wedi cael copi o nifer o ymatebion gan ymddiriedolaethau a staff ymddiriedolaethau sy'n gwrthwynebu hynny, gan eu bod yn credu, fel y dywed yr Athro Williams, y dylai'r integreiddio rhwng gwasanaethau aciwt, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl barhau ac y byddai symud y gwasanaethau cymunedol i'r BILlau yn creu rhagor o broblemau i gleifion. Mae'r Athro Williams yn dweud bod angen i'r corff newydd uno gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol a gwasanaethau aciwt er mwyn darparu gofal di-dor i ddefnyddwyr. Beth yw eich barn ynghylch hynny ar hyn o bryd, o ystyried y ddogfen ymgynghori y cyfeiriwyd ati a chasgliadau'r Athro Williams?

Fy ail bwynt, a'r pwynt olaf, yw eich bod yn datgan:

‘Mae'r Athro Williams yn rhagweld corff a fyddai'n darparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n cyfuno arbenigedd ymddiriedolaethau'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol, gydag ymrwymiad pendant i weithio gyda gofal sylfaenol, mudiadau gwirfoddol, darparwyr preifat a darparwyr di-elw’.

Yr wythnos diwethaf, ymwelais â chorff annibynnol sy'n darparu gwllau gofal iechyd meddwl a darpariaeth i bobl sydd ag anawsterau dysgu, a siaradodd y staff am awydd y sector i ehangu i lawer o'r meysydd y cyfeiriwyd atynt gan Aelodau eraill, megis dementia, anhwylderau yn y sbectrum awtistig a diagnosis deuol, rhywbeth nad wyf yn credu iddo gael ei grybwyll, lle y ceir problemau iechyd meddwl ynghlwm wrth gamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys materion yn ymwneud ag anhwylder straen wedi trawma, a materion ehangach ynghlwm wrth ymddygiad heriol. Sut yr ydych yn rhagweld y bydd y sectorau hynny gyda'i gilydd yn helpu i roi'r ehangu hwn ar wasanaethau ar waith yn y dyfodol, ac a wnewch gadarnhau, fel y dywed yr Athro

Williams, y dylai hyn fynd rhagddo ar sail ymrwymiad i gydweithio?

Edwina Hart: I concur with the whole strand in Professor Williams's document about partnership working and using everything available to get the best service delivery. Believe it or not, Mark, I am consulting on this issue, and I have not made up my mind finally. When I speak to people about the consultation and they say 'We think you should go wider than that' or 'We do not think that you should go as far as that', I am quite open that I will wait to see what responses come back on this. If a consensus develops around something that I did not envisage, I am willing to look at it. It is similar to what has emerged from Professor Williams's report. I hope that the organisations that you have met will make their views on Professor Williams's report known in the ongoing discussions for the development of policy. Professor Williams's report is not an end game—it is the start of the process.

David Melding: I wish to make a few remarks and put a question to the Minister. As a Member who has had a long interest in mental health issues—I am currently chair of the all-party group on mental health issues, although I am not speaking in an official capacity—it is a sad truth of life, or perhaps an enlightening truth of life, that poor organisations can deliver strong services, and strong theoretically organised bodies can deliver weak services. So, there is not necessarily a perfect structure—we have a problem with a cultural issue, particularly in terms of partnership working.

I have not yet had a chance to read Professor Williams's report, but I am sure that we will all examine it in detail—I know that the all-party group will want to look at it. In calling for an all-Wales body to plan and deliver mental health services, it may be new, and it may be innovative, but there are some hard, organisational realities in that proposition. It would be a kind of cross between an old-fashioned health authority doing the

Edwina Hart: Cytunaf â phopeth sydd yn nogfen yr Athro Williams ynghylch gweithio drwy bartneriaeth a defnyddio popeth sydd ar gael i sicrhau bod y gwasanaeth gorau'n cael ei ddarparu. Credwch neu beidio, Mark, yr wyf yn ymgynghori ar y mater hwn, ac nid wyf wedi penderfynu'n derfynol. Pan fyddaf yn siarad â phobl am yr ymgynghori a hwythau'n dweud 'Yr ydym yn credu y dylech fynd yn ehangach na hynny' neu 'Nid ydym yn credu y dylech fynd cyn belled â hynny', yr wyf yn dweud yn gwbl agored y byddaf yn aros i weld pa ymatebion a ddaw i law ar hyn. Os bydd consensws yn datblygu o amgylch rhywbeth nad oeddwn wedi'i ragweld, yr wyf yn barod i edrych arno. Mae'n debyg i'r hyn sydd wedi deillio o adroddiad yr Athro Williams. Gobeithiaf y bydd y cyrff yr wyf wedi cwrdd â hwy yn datgan eu barn am adroddiad yr Athro Williams yn y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar ddatblygu polisi. Nid pen draw'r daith yw adroddiad yr Athro Williams—dechrau'r broses ydyw.

David Melding: Hoffwn wneud rhai sylwadau a gofyn cwestiwn i'r Gweinidog. Fel Aelod sydd â diddordeb ers amser maith mewn materion iechyd meddwl—fi yw cadeirydd y grŵp hollbleidiol ar faterion iechyd meddwl ar hyn o bryd, er nad wyf yn siarad yn swyddogol yn rhinwedd y rôl honno—mae'n un o wirioneddau trist bywyd, neu efallai'n un o wirioneddau dyrchafol bywyd, fod cyrff gwael yn gallu darparu gwasanaethau cryf, a bod cyrff sydd yn ddamcaniaethol â threfniadaeth gref yn gallu darparu gwasanaethau gwan. Felly, nid oes strwythur perffaith o reidrwydd—mae gennym broblem gyda mater diwylliannol, yn enwedig o ran gweithio drwy bartneriaeth.

Nid wyf eto wedi cael cyfle i ddarllen adroddiad yr Athro Williams, ond yr wyf yn siŵr y bydd pawb ohonom yn ei archwilio'n fanwl—gwn y bydd y grŵp hollbleidiol am edrych arno. Wrth alw am gorff i Gymru gyfan i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd meddwl, efallai fod hynny'n newydd, ac efallai ei fod yn arloesol, ond mae rhai gwirioneddau trefniadaethol caled yn y cynnig hwnnw. Byddai'n rhyw fath o

commissioning, and, frankly, a super-trust delivering services. Do we want that mixture on an all-Wales basis?

Where I think that he is right is in saying that we want accountability around the amount of money that is spent on mental health services. In that sense, a discrete system is attractive. I can understand that, but simple counsels of perfection on this will not necessarily last for long when they meet the hard realities of the practical world.

However, in your reorganisation, you have already committed to something like the old-fashioned community health service trust system. One of the first actions of the Labour Party, when it was elected to Government in 1997, was to abolish that dual approach. I thought that it was wrong then—and it was nothing to do with you, Minister, or with Jane Hutt, who just gave me a curious glance, because she was a member of a community health trust, I believe. The thinking now is that we should go back to a system where acute care is specialised and we do not want to use it unless it is absolutely necessary. Most people with mental health issues—even if they are quite complex issues—will not spend time in an acute hospital, and so, if you are going to design a health system that separates the community function from the hospital function, that may be a way to integrate the care-type services that are traditionally provided by local authorities with community psychiatric nursing. We could try to merge them in some looser organisation, especially as you are looking at merging local health boards. There may be a way of promoting regional working among local authorities, with more pooling of social workers, who could develop their expertise, taking place. A softer organisational approach may be better.

There is much to recommend services in the community not being organised and run from acute hospitals, and I would urge you to build that into the new system.

groesiad rhwng awdurdod iechyd hen-ffasiwn yn gwneud y comisiynu, ac, a siarad yn blaen, uwch-ymdiriedolaeth yn cyflenwi gwasanaethau. A oes arnom eisiau'r cymysgedd hwnnw dros Gymru gyfan?

Lle mae'n gywir, yn fy nhyb i, yw pan ddywed fod eisiau atebolrwydd ynghylch faint o arian a gaiff ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl. Yn yr ystyr hwnnw, mae system ar wahân yn ddeniadol. Gallaf ddeall hynny, ond ni wnaiff cyngorion delfrydol syml ar hyn bara'n hir o reidrwydd pan gwrddant â gwirioneddau caled y byd ymarferol.

Fodd bynnag, yn eich ad-drefnu, yr ydych eisoes wedi ymrwymo i rywbeth tebyg i system yr ymdiriedolaeth gwasanaeth iechyd cymunedol henffasiwn. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth y Blaid Lafur, pan gafodd ei hethol i'r Llywodraeth yn 1997, oedd dileu'r dull deuol hwnnw. Credais nad oedd hynny'n beth iawn i'w wneud ar y pryd—ac nid oedd a wnelo ddim â chi, Weinidog, nac â Jane Hutt, a dremiodd yn holgar arnaf yn awr, oherwydd yr oedd hi'n aelod o ymdiriedolaeth iechyd gymunedol, mi gredaf. Y meddylfryd bellach yw y dylem fynd yn ôl at system lle mae gofal aciwt yn ofal arbenigol a lle nad oes arnom eisiau ei ddefnyddio oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol. Ni wnaiff y rhan fwyaf o bobl â phroblemau iechyd meddwl—hyd yn oed os ydynt yn broblemau eithaf cymhleth—dreulio amser mewn ysbyty aciwt, ac felly, os ydych yn mynd i gynllunio cyfundrefn iechyd sy'n gwahanu'r swyddogaeth gymunedol oddi wrth y swyddogaeth ysbyty, gall hynny fod yn fodd i integreiddio'r gwasanaethau gofal a ddarperir yn draddodiadol gan awdurdodau lleol â nyrsio seiciatryddol cymunedol. Gallem geisio'u cyfuno mewn rhyw drefniadaeth lacach, yn enwedig gan eich bod yn edrych ar gyfuno byrddau iechyd lleol. Efallai fod ffordd i hyrwyddo gweithio rhanbarthol ymysg awdurdodau lleol, a chael mwy o Gronni gweithwyr cymdeithasol, a allai ddatblygu'u harbenigedd. Efallai y byddai dull trefniadaethol meddalach yn well.

Mae llawer i'w ddweud dros beidio â threfnu a rhedeg gwasanaethau yn y gymuned o ysbytai aciwt, ac fe'ch anogwn i adeiladu hynny i mewn i'r system newydd.

Edwina Hart: I will take that contribution into account along with the rest of the debate, when I develop policy in this area. The points that you raised, David, are exactly the kind of points that we must flesh out in our discussions. You suggested a softer organisational approach, and that might make a difference in how we get services delivered, enhanced and developed further. There is merit in looking at this in the round.

Edwina Hart: Cymeraf y cyfraniad hwnnw i ystyriaeth, ynghyd â gweddill y ddatl, pan ddatblygaf bolisi yn y maes hwn. Y pwyntiau a godasoch, David, yw'r union fath o bwyntiau y mae'n rhaid inni roi cnaud arnynt yn ein trafodaethau. Awgrymasoch ddull trefniadaethol meddalach, a gallai hynny wneud gwahaniaeth yn y modd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi, eu gwella a'u datblygu ymhellach. Mae'n werth edrych ar hyn yn ei gyfanrwydd.

Professor Williams's report has really upped the ante in terms of the discussion around the mental health agenda in Wales and is making us focus on what we want. Do we want organisational change, what service change do we want, who should deliver that service change, what should the partnership arrangements be, and should those arrangements be better in areas?

Mae adroddiad yr Athro Williams wedi codi'r drafodaeth ynghylch yr agenda iechyd meddwl yng Nghymru ac mae'n gwneud inni ganolbwyntio ar beth sydd arnom ei eisiau. A oes arnom eisiau newid trefniadaethol, pa newid gwasanaeth sydd arnom ei eisiau, pwy ddylai gyflawni'r newid gwasanaeth hwnnw, pa drefniadau partneriaeth ddylai fodoli, ac a ddylai'r trefniadau hynny fod yn well mewn mannau?

The report has already served its purpose in this short discussion today, in ensuring that ideas are starting to emerge from all of us about the development that we want for these services, and it is very healthy for us in Wales to have the kind of open discussion that Professor Williams wanted for his report.

Mae'r adroddiad eisoes wedi ateb ei ddiben yn y drafodaeth fer hon heddiw, wrth sicrhau bod syniadau'n dechrau codi gan bawb ohonom am y datblygiad y mae arnom ei eisiau i'r gwasanaethau hyn, ac mae'n iach iawn i ni yng Nghymru gael y math o drafodaeth agored yr oedd yr Athro Williams yn gobeithio y câi ei adroddiad.

The Presiding Officer: Thank you, Minister, for the spirit and content of your remarks.

Y Llywydd: Diolch, Weinidog, am ysbryd a chynnwys eich sylwadau.

Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

That is the end of our discussions for today.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.18 p.m.
The meeting ended at 5.18 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)

Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)